General
Dental
Council

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon **2019**

HC 400

# Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019

Adroddiad blynyddol a gyflwynir i'r Senedd o dan adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y diwygiwyd y ddeddf honno gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol ac Ymarferwyr Seicoleg) 2009.

Adroddiad blynyddol a gyflwynir i Senedd yr Alban (gan Weinidogion yr Alban) o dan adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y diwygiwyd y ddeddf honno gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol ac Ymarferwyr Seicoleg) 2009.

Cyfrifon a gyflwynir i'r Senedd o dan adran 2C Deddf Deintyddion 1984 fel y diwygiwyd y ddeddf honno gan Orchymyn Deddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd) 2005, Gorchymyn Deddf Cwmnïau 2006 (Diwygiadau Canlyniadol ac yn y blaen) 2008 a Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol ac Ymarferwyr Seicoleg) 2009.

Cyfrifon a gyflwynir i Senedd yr Alban (gan Weinidogion yr Alban) o dan adran 2C Deddf Deintyddion 1984 fel y diwygiwyd y ddeddf honno gan Orchymyn Deddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd) 2005, Gorchymyn Deddf Cwmnïau 2006 (Diwygiadau Canlyniadol ac yn y blaen) 2008 a Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol ac Ymarferwyr Seicoleg) 2009.

Gorchmynnwyd i'w hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 18 Mehefin 2020.

HC400

SG/2020/91

© Hawlfraint y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (2020)

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 o'r Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi deunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom yn:
information@gdc-uk.org, neu ffonio: 020 7167 6000

ISBN: 978-1-5286-1972-1

CCS0420440020 06/20

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan yr APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Dyluniad gan Navig8 www.navig8.co.uk

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adran Un: Dadansoddiad Perfformiad** | **4** |
| 1. Pwrpas statudol | **4** |
| 2. Neges ar y cyd gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ar effaith COVID-19 | **6** |
| 3. Neges gan y Cadeirydd | **8** |
| 4. Neges gan y Prif Weithredwr | **10** |
| 5. Trosolwg Busnes 2019 | **12** |
| a) Pwy ydym | **12** |
| b) Adolygiad Cynllun Busnes 2019 | **14** |
| c) Trosolwg perfformiad addasrwydd i ymarfer | **17** |
| d) Trosolwg perfformiad cofrestru | **20** |
| e) Adolygiad ariannol | **23** |
| **Adran Dau: Adroddiad Atebolrwydd** | **28** |
| 6. Strwythur y Cyngor a'i Bwyllgorau | **28** |
| 7. Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr | **31** |
| 8. Datganiad llywodraethu | **32** |
| 9. Adroddiad taliadau a staff | **39** |
| 10. Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd | **45** |
| 11. Adroddiad yr archwilydd annibynnol | **48** |
| **Adran Tri: Datganiadau ariannol** | **51** |
| 12. Cyfrifon | **51** |
| 13. Nodiadau i'r cyfrifon | **55** |
| 14. Cynghorwyr | **76** |
| 15. Atodiad | **77** |
| a) Dyfarniad ar y Cyfrifon | **77** |

# 1 Pwrpas statudol

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) yw'r corff statudol yn y DU sy'n gyfrifol am reoleiddio ychydig dros 113,000 aelod o'r tîm deintyddol. Mae hyn yn cynnwys tua 42,000 o ddeintyddion a 71,000 o weithwyr gofal deintyddol (DCP) sy'n cynnwys nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol clinigol, gweithwyr hylendid deintyddol, technegwyr deintyddol, therapyddion deintyddol a therapyddion orthodonteg.

## Ein pwrpas

Mae ein deddfwriaeth sef Deddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd) yn gosod yr amcanion canlynol i ni:

- Gwarchod, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd.
- Hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau sy'n cael eu rheoleiddio.
- Hybu a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny.

Rydym eisiau i gleifion a'r cyhoedd fod yn hyderus bod y driniaeth y maen nhw'n yn ei derbyn yn cael ei rhoi gan weithiwr deintyddol hyfforddedig a chymwys sy'n cwrdd â'n safonau. Lle mae pryderon am ansawdd y gofal neu'r driniaeth, neu am ymddygiad gweithiwr deintyddol, byddwn yn ymchwilio ac yn gweithredu lle bo hynny'n briodol.

## Cyflawnwn ein pwrpas drwy ddefnyddio ein pwerau statudol i:

- cofrestru dim ond y gweithwyr deintyddol hynny sy'n cwrdd â'n gofynion ar addysg a hyfforddiant, iechyd a chymeriad da. Dim ond gweithwyr sydd wedi cofrestru gyda ni sy'n cael ymarfer deintyddiaeth yn y DU
- sicrhau ansawdd y rhaglenni addysg a hyfforddiant deintyddol sy'n arwain at gofrestru gyda'r GDC
- gosod safonau ar gyfer ymddygiad, perfformiad a moeseg y tîm deintyddol
- ymchwilio i gwynion yn erbyn gweithwyr deintyddol, a lle bo hynny'n briodol, gweithredu drwy ein proses Addasrwydd i Ymarfer (FtP)
- gwarchod y cyhoedd rhag pobl sy'n cyflawni deintyddiaeth heb fod wedi cofrestru
- gofyn bod gweithwyr deintyddol yn diweddaru eu sgiliau'n rheolaidd drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus (CPD).

Yn ogystal, ariannwn y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol (DCS) sy'n darparu gwasanaeth diduedd am ddim i helpu cleifion a gweithwyr deintyddol i ddefnyddio cyfryngu i ddatrys cwynion am ofal deintyddol preifat.

Mae ein gweledigaeth yn cynnwys system o reoleiddio sydd:

- yn cynorthwyo i ddarparu gofal iechyd y geg sy'n ddiogel ac effeithiol
- yn hyrwyddo a gwreiddio safonau clir o gymhwysedd clinigol ac ymddygiad moesegol
- yn ymgorffori egwyddorion rheoleiddio addas a chymesur: o ran bod yn gymesur, atebol, cyson, tryloyw, targedau ac ystwythder.

Mae ein gwerthoedd sefydliadol yn tywys sut y gweithredwn. Y rhain yw:

## Tegwch:
Byddwn yn trin pawb yn deg

## Tryloywder:
Rydym yn agored am ein gwaith a sut y gwnawn ein penderfyniadau

## Ymatebolrwydd:
Gallwn addasu i amgylchiadau sy'n newid

## Parch:
Rydym yn trin gweithwyr deintyddol, ein partneriaid a'n staff gyda pharch

# 2 Neges ar y cyd gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ar effaith COVID-19





Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon (ARA) am eleni'n rhoi manylion am ein perfformiad ariannol a chrynodeb o'n gweithgareddau drwy ein hadolygiad busnes ar gyfer 2019. Fodd bynnag, rydym heddiw'n byw a gweithio mewn byd tra gwahanol i'r un ar ddiwedd y llynedd wrth i effaith COVID-19 barhau i gael effaith sylweddol ar ein bywydau.

Rydym yn ymwybodol iawn o effaith ddifrifol gorfod gohirio gofal a gwasanaethau deintyddol dydd i ddydd sy'n atal gweithwyr deintyddol rhag darparu'r gofal a'r driniaeth angenrheidiol i gleifion – ac mewn rhai achosion mae hyn wedi achosi trafferthion ariannol. Rydym yn cydnabod y bydd y digwyddiadau digyffelyb hyn yn cael effaith ddofn a hirdymor ar y proffesiwn ac ar sut y bydd gwasanaethau deintyddol yn cael eu darparu yn y dyfodol.

Mae ein ARA ar gyfer 2019 yn rhoi barn hanesyddol am ein perfformiad ac fe'i paratowyd cyn i ni lwyr ddeall beth fyddai effaith COVID-19, er ein bod wedi cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf lle mae hynny'n briodol. Mae hyn yn cynnwys diweddariad ar yr asesiad busnes gweithredol yn yr adran adolygiad ariannol, a'r asesiad risg presennol yn ein datganiad llywodraethu. Gwyddom hefyd bellach y bydd cynllun gwaith 2020 yn newid yn sylweddol o ganlyniad i COVID-19. Rydym wedi nodi blaenoriaethau newydd, cyflymu'r gwaith mewn rhai meysydd a, lle'r oedd hynny'n briodol, wedi trosglwyddo peth o'r gwaith oedd i ddigwydd yn 2020 i flynyddoedd i ddod.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i adolygu beth sydd angen ei wneud gan gydnabod mai ein prif rôl yn hyn oll yw gwarchod y cyhoedd a sicrhau bod gan bobl hyder o hyd mewn gwasanaethau deintyddol. Nid yw COVID-19 yn newid y rôl hon, ond mae'n newid sut y byddwn yn ei chyflawni.

Rydym yn deall ei fod yn gyfnod anodd ac ansicr i'r proffesiwn, ac wrth i ni addasu ein ffordd o weithio byddwn yn ceisio:

- lleihau'r baich rheoliadau ar weithwyr deintyddol lle gallwn wneud hynny
- rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosib i weithwyr deintyddol i reoli eu gweithgareddau proffesiynol wrth ymateb i heriau COVID-19.

**Dr William Moyes**
Cadeirydd

**Ian Brack**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

# 3 Neges gan y Cadeirydd



Mae stori'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn 2019 yn un o gyfuno, ac o newid mawr. Cyfuno wrth i ni gwblhau'r broses o symud ein gwasanaethau gweithredol i'n swyddfeydd yn Birmingham, a newid wrth i ni gwblhau a lansio nifer o fesurau allweddol gan gynnwys ein polisi ffioedd newydd a'n strategaeth genedlaethol.

Wrth galon ein polisi ffioedd newydd oedd gallu lleihau lefelau ffioedd cadw gwasanaeth (ARF) blynyddol. Mae hyn wedi arwain at leihad o 24% yn yr ARF i Ddeintyddion a lleihad bychan yn yr ARF i weithwyr gofal deintyddol. Mae'r lefelau is hyn efallai o ganlyniad i gostau gweithredu is, mesurau rheoli ariannol cadarn a newidiadau sefydliadol sylweddol. Mae'r lefelau ffioedd hefyd yn adlewyrchu ymgyrch y GDC i wneud i ffwrdd, lle bo'n ymarferol, â chroes-gymhorthdal rhwng grwpiau o gofrestreion a chadw'r costau ble y maen nhw. Mae'r proffesiwn wedi croesawu hyn yn frwd a chredaf ei fod yn enghraifft dda o'n hymrwymiad i fod yn gorff rheoleiddio tryloyw a chymesur.

Gan adeiladu ar ein hymrwymiad i weithio gyda phartneriaid, cynhaliwyd ein cynhadledd fawr gyntaf ar ddechrau 2019 a'r ail yn Chwefror 2020 lle daeth dros gant o randdeiliaid allweddol a gweithwyr deintyddol proffesiynol ynghyd. Roedd y ddau ddigwyddiad yn llwyddiant ysgubol a bwriadwn gynnal digwyddiad tebyg yn 2021. Yn fy marn i mae'r cynadleddau hyn yn hynod werthfawr a chredaf eu bod yn fforwm rhagorol i ni gynnwys ein rhanddeiliaid a'r proffesiynau mewn trafodaethau am yr heriau a wynebwn ac, yn bwysicach, sut y gallwn gydweithio i geisio eu datrys.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r ffordd y rheoleiddiwn y proffesiynau wedi newid. Rydym wedi symud i ffwrdd o roi ffocws ar orfodi i ganolbwyntio ar atal a rheoleiddio addas a chymesur, ond gan sicrhau ar yr un pryd bod ein rheoleiddio bob amser yn rhoi diogelwch y claf a hyder y cyhoedd wrth galon popeth a wnawn.

Mae'r GDC wedi mynd drwy gyfnod o esblygu. Cychwynnodd y siwrne yn ôl yn 2016 pan lansiwyd ein Strategaeth Gorfforaethol *Patients, Professionals, Partners and Performance,* yna gyda chyhoeddi *Shifting the Balance: A Better, Fairer System of Dental Regulation* yn 2017 ac, yn fwy diweddar, ein Strategaeth Gorfforaethol newydd.

Mae cryn ymdrech wedi mynd i ddatblygu ein Strategaeth Gorfforaethol 2020–2022: Corporate Strategy 2020–2022: Right time, Right place, Right touch, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2019. Mae'r strategaeth newydd hon yn disgrifio ein gweithgareddau am y tair blynedd nesaf ac fe'i lluniwyd i gyflawni ein pum nod strategol. Mae'n disgrifio sut y bwriadwn ddarparu ein swyddogaethau statudol a'r cyfraniadau y gofynnwn amdanynt gan weithwyr deintyddol a sefydliadau eraill, fel y gallwn gyda'n gilydd sicrhau bod gwasanaethau deintyddol yn y DU o'r ansawdd uchaf ac yn cael eu cydnabod felly.

Hwn yw chweched adroddiad blynyddol y Cyngor ers i mi fod yn Gadeirydd. Rwy'n falch o nodi bod 2019 wedi gweld gwelliannau a newidiadau pellach er gwell a bod y GDC ar ddiwedd 2019 yn sefydliad tra gwahanol i'r un wnes i ymuno ag ef yn 2013. Ond mae rhai pethau'n parhau i fod yn heriol. Er enghraifft, mae rheoleiddio gofal iechyd proffesiynol yn parhau i ddigwydd o fewn fframwaith deddfwriaethol sy'n cael ei gydnabod yn eang i fod yn anaddas i'r pwrpas, a rhaid rhoi sylw ar frys i hyn. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r camau a gymerir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) i ystyried dulliau newydd o weithredu ac edrychwn ymlaen at weithio gyda nhw i wneud cynnydd pellach ar wella'r ddeddfwriaeth hon. Rydym hefyd yn cydnabod bod contractau'r GIG ar draws y pedair gwlad yn parhau i achosi rhwystredigaeth i lawer yn y proffesiynau deintyddol.

Fodd bynnag, ni fyddwn yn gadael i'r heriau hyn, na rhai eraill, rwystro ymdrechion i wneud popeth a allwn i ddarparu ein hamcanion statudol o warchod y cyhoedd a sicrhau bod gan y cyhoedd hyder yn y proffesiynau deintyddol, gan barhau i roi ffocws ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Wrth gwrs mae gwelliannau sydd angen eu gwneud o hyd ac mae angen i ni fod yn glir ar ble y gallwn gael yr effaith fwyaf a meddwl sut y gallwn fesur effaith ein gweithgareddau drwy ystyried mesurau canlyniadol ac nid dim ond canolbwyntio ar allbwn. Fodd bynnag, mae'n glir i mi fod sicrhau diogelwch y cyhoedd bellach wrth galon popeth a wnawn a daeth hyn, ynghyd â'n hymrwymiad i fod yn gorff rheoleiddio mwy cymesur gyda ffocws ar reoleiddio addas a chymesur, yn ail natur i ni yn y GDC.

I gloi, hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Cyngor am eu gwaith caled a'u cefnogaeth barhaus dros y 12 mis diwethaf a dweud pa mor ddiolchgar wyf am waith caled yr holl staff proffesiynol ac aelodau cyswllt am eu hymdrechion yn cyflawni gymaint o newid da yn 2019.

**Dr William Moyes**
Cadeirydd

4

# 4 Neges gan y Prif Weithredwr



Yn 2019 rydym wedi parhau i droi ein sylw at weithgareddau sy'n canolbwyntio ar atal a rheoleiddio addas a chymesur, yn hytrach na dim ond gorfodi.

Drwy weithio mewn cydweithrediad â'n partneriaid, gwnaed cynnydd da gyda symud y drefn reoleiddio ymlaen mewn nifer o feysydd allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys canolbwyntio mwy o'n hymdrechion ar weithgareddau i fyny'r gadwyn ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â chofrestreion cyn i bethau fynd o'i le, er enghraifft drwy helpu i gyflwyno'r rhaglen trin cwynion traws-broffesiwn i annog datrys cwynion haen gyntaf. Yn ogystal, rydym wedi edrych o'r newydd ar addasrwydd i ymarfer gan gynnwys cwblhau'r adolygiad o'n prosesau dechrau i'r diwedd, sydd wedi arwain at nifer o newidiadau o ran bod yn fwy effeithlon a phrydlon.

Hyderaf yr adlewyrchir y newidiadau hyn wrth i ni adrodd ar ddarparu cynllun busnes 2019 yn nes ymlaen yn y ddogfen hon a'u bod yn dangos y siwrne yr ydym yn parhau i fod arni i fod yn gorff rheoleiddio effeithiol, tryloyw a chymesur ar gyfer y proffesiynau deintyddol.

## Strategaeth Gorfforaethol a'r Cynllun Corfforaethol a Gostiwyd

Drwy gydol 2019 aeth llawer iawn o amser ac ymdrech i mewn i'r gwaith o ddatblygu a chyhoeddi ein strategaeth tair blynedd newydd a'n Cynllun Corfforaethol a Gostiwyd cyntaf. Mae hwn yn esblygiad o'n cynllun strategol blaenorol oedd yn anelu at weithio gyda'r proffesiynau a'n partneriaid i wella perfformiad yn gyffredinol a pharhau i gwrdd â'n hamcanion statudol. Lansiwyd ein Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer 2020–2022: Corporate Strategy 2020–2022: Right time, Right place, Right touch yn Nhachwedd 2019 ar ôl ymgynghori arni'n gynharach yn y flwyddyn.

I ddangos sut y byddwn yn cyflawni nodau strategol y strategaeth newydd, rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol a Gostiwyd cyntaf. Mae'r cynllun hwn yn disgrifio, ar lefel prosiect, sut y bwriadwn gyfeirio ein hadnoddau gan nodi beth a wnawn a pham, amserlen y darparu ac, ar lefel nodau strategol, faint y bydd yn ei gostio. Mae hyn yn dipyn o newid sylfaenol i'r GDC ac mae'n hyrwyddo

dealltwriaeth lawer gwell o'r berthynas rhwng ein gwaith rheoleiddio, y ffioedd a godwn, a'n rhagolygon incwm a gwariant dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r cynllun hwn yn offeryn hanfodol er mwyn gallu rheoli ein hadnoddau, mewn amgylchiadau fydd yn ddiau'n newid dros amser, fel y gallwn ddarparu gwasanaeth effeithiol, prydlon a chymesur i'r cyhoedd. Mae'n arwydd clir o'n bwriad i fod yn gorff rheoleiddio teg a chost-effeithiol sy'n ymyrryd ar yr amser iawn, yn y lle iawn a thrwy fod yn addas a chymesur.

## Cwblhau ein rhaglen ystadau

Yn ystod 2019 fe wnaethom gwblhau ein rhaglen ystadau gan symud gweddill ein gweithgareddau gweithredol allan o Lundain i Birmingham. Lleolir tua dau o bob tri o'n staff erbyn hyn yn ein swyddfa yn Birmingham, gan gynnwys ein timau Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer. Rwyf wedi bod yn hapus iawn gyda pha mor llyfn aeth y broses symud a heb effeithio fawr ddim ar fusnes, a gyda gweithlu lleol canmoladwy a chyfranogol.

Drwy symud ein gwasanaethau rydym wedi gallu creu pedair swît gwrandawiad newydd yn ein swyddfeydd yn Llundain. Cwblhawyd y gwaith adeiladu yn Rhagfyr 2019 er mwyn gallu symud pob gwrandawiad i Wimpole Street o fis Ionawr 2020 ymlaen. Nid oes raid i ni nawr logi ystafelloedd gwrandawiad ychwanegol yn Llundain, gan leihau nifer yr adeiladau yn ein hystâd i ddim ond dau.

Bydd y newidiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar ein gwaith ac yn helpu i gyfrannu at arbedion cost o fwy na £50m dros y 15 mlynedd nesaf.

## Lleihad mewn Ffioedd Cadw Blynyddol (ARF)

Ar ôl ymgynghori ar ein strategaeth tair blynedd, roeddem yn gallu cyhoeddi lleihad yn yr ARF y mae pob gweithiwr deintyddol proffesiynol yn ei dalu'n flynyddol i aros ar y gofrestr. Cafodd y lefelau newydd eu pennu ar £680 i ddeintyddion a £114 i weithwyr gofal deintyddol.

Roedd y ffioedd is hyn yn bosib yn dilyn gostyngiad yn ein costau gweithredol a newidiadau sylweddol yn y sefydliad, ac mae'r ffioedd newydd hefyd yn adlewyrchu ein hymdrechion i wneud i ffwrdd â chroes-gymhorthdal rhwng grwpiau o gofrestreion lle bo'n ymarferol, gan gynnwys drwy gyflwyno ffi cais cofrestru i ymgeiswyr newydd.

## Penderfyniad y DU i adael yr UE

Mae'r DU wedi cadarnhau ei phenderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd ac rydym bellach mewn cyfnod o bontio a ddaw i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw newid i sut y mae ymgeiswyr newydd o'r UE yn gwneud cais cofrestru dros y cyfnod hwn. Hyd yma, nodwn nad yw'r lleihad yn nifer y cofrestreion oedd wedi'i ddarogan gwpwl o flynyddoedd yn ôl wedi digwydd eto. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu hyn yn fanwl iawn.

Rydym wedi bod mewn cyswllt agos ag adrannau'r llywodraeth ar draws y DU i ddeall goblygiadau'r penderfyniad i adael yr UE a byddwn yn gweithio gyda nhw drwy gydol 2020 i sicrhau bod y newidiadau deddfwriaethol perthnasol yn eu lle fel y gallwn weithio'n effeithiol ac effeithlon ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar sut y gallwn symud i ffwrdd o ddulliau cofrestru sy'n seiliedig ar gyd-gydnabod cymwysterau proffesiynol.

Er yr ansicrwydd parhaus sy'n dal i fod yn y maes hwn, rydym wedi gallu cynllunio ar gyfer ac ymdopi'n well â'r annisgwyl ac arhoswn yn ffyddiog y gallwn weithredu'n effeithiol yn y dyfodol.

Yn olaf, mae'n werth nodi y gwelsom newidiadau i'r ffordd y darperir deintyddiaeth, wrth i fwy a mwy o dechnoleg a sianeli newydd gael eu cyflwyno ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol. Daeth hyn yn arbennig o amlwg wrth i'r proffesiwn addasu i ddarparu gwasanaethau deintyddol yn wahanol oherwydd COVID-19. Fel y corff rheoleiddio, rhaid i ni ddeall sut y mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar y proffesiynau, a'r ffordd y rheoleiddiwn ni'r proffesiynau hynny i gynnal diogelwch a hyder y cyhoedd, a bydd hyn yn faes ffocws parhaus i ni o hyn ymlaen.

**Ian Brack**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

# 5 Trosolwg Busnes 2019

## a) Pwy ydym

Mae'r GDC yn cyflogi 365 o staff (y nifer gyfartalog cyfwerth ag amser llawn dros y flwyddyn) ac yn cael ei oruchwylio gan Gadeirydd a Chyngor anweithredol sy'n cynnwys 12 aelod, chwech ohonynt yn aelodau lleyg a chwech yn gofrestreion deintyddol. Yn ogystal, gweithiwn yn agos â thua 460 o aelodau cyswllt sy'n ein helpu i gyflwyno ystod o weithgareddau'n cynnwys paneli apêl ac Addasrwydd i Ymarfer, paneli asesu cofrestru, sicrhau ansawdd addysg ac ymdrin â chwynion a dderbynnir gan y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol (DCS).

Mae gennym bum cyfarwyddiaeth wedi eu harwain gan gyfarwyddwyr sy'n aelodau o'r Tîm Rheoli Gweithredol (EMT).

Mae'r cyfarwyddiaethau hyn yn cael eu goruchwylio gan y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu.


Y cyfarwyddiaethau hyn yw:

- Datblygu Sefydliadol.
- Cofrestru ac Adnoddau Corfforaethol.
- Addasrwydd i Ymarfer.
- Strategaeth.
- Cyfreithiol a Llywodraethu.

Yn 2019 roedd yr EMT yn gyfrifol am:

- creu Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer 2020–2022: *Right Place, Right Place, Right Touch,* a gymeradwywyd gan y Cyngor
- datblygu'r Cynllun Corfforaethol a Gostiwyd
- cyflwyno adroddiadau rheoli rheolaidd i'r Cyngor a sicrhau bod adroddiadau priodol yn cael eu cyflwyno i bwyllgorau'r Cyngor ar faterion o fewn eu cylchoedd gwaith
- adnabod ac adrodd ar risgiau strategol i'r Cyngor a sicrhau bod perchnogaeth o bob risg yn cael ei dyrannu i bobl ar y lefel iawn, gydag atebolrwydd clir
- adolygu ac adrodd ar agweddau eraill ar y model llywodraethu
- sicrhau bod gweithgareddau'r busnes yn cael eu cynnal wrth symud ein gwasanaethau i Birmingham fel rhan o'n strategaeth ystadau.

# Organogram y GDC



# b) Adolygiad Cynllun Busnes 2019

Cafodd chwe rhaglen waith allweddol eu nodi ar gyfer ein cynllun busnes 2019. Crynhoir isod y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r meysydd hyn:

## 1. Ail-wampio a gwella'r broses Addasrwydd i Ymarfer (FtP)

Wrth gwblhau ein hadolygiad dechrau i'r diwedd o FtP, gwnaed nifer o welliannau o ran **prydlondeb, effeithlonrwydd, gwydnwch a gwella parhaus**. Fodd bynnag, mae llawer mwy o waith i'w wneud cyn i'r manteision hyn wreiddio'n llawn wrth i'r tîm FtP newydd yn Birmingham barhau i ennill profiad. Yn enwedig, rydym eisiau gwneud ein gorau glas i leihau eto faint o amser y mae'n ei gymryd i ddatrys achosion. Mae gennym gynllun gweithredu yn ei le i sicrhau bod y wybodaeth newydd am ein proses yn dilyn yr adolygiad dechrau i'r diwedd yn parhau i annog gwelliannau pellach.

Ar **brydlondeb**, y manteision targed oedd lleihad o wyth wythnos yn yr amser ar gyfartaledd y mae'n ei gymryd i symud achos ymlaen o'i dderbyn yn wreiddiol ac yna'n cael ei asesu gan archwilydd achos, a lleihad o 10 wythnos yn yr amser ar gyfartaledd y mae'n ei gymryd i symud achos ymlaen o'i dderbyn yn wreiddiol i'r gwrandawiad terfynol.

Rhwng 2017/18 a 2018/19, gwelsom leihad o saith wythnos yn yr amser rhwng archwilwyr achos yn cyfeirio achos a gwneud penderfyniad terfynol arno.

Ar **effeithlonrwydd**, y manteision targed oedd gwella effeithlonrwydd yr asesiad cychwynnol, gwaith achos, archwilio achos a'r gwaith cymorth ac adolygu achos o 50%. Roedd gwelliant o 10% mewn defnyddio capasiti gwrandawiadau'n fantais darged arall.

Yn 2019 gwnaed gwelliannau effeithlonrwydd gwerth tua £0.7m (y targed yw cyfanswm arbedion cost o £5m dros bum mlynedd). Roedd ychydig o leihad yn ein defnydd o gapasiti gwrandawiadau yn 2019, i lawr i 75% o 84% yn 2018.

Ar **wydnwch**, y fantais darged oedd bod FtP yn gallu cynnal ei berfformiad yn y dangosyddion perfformiad allweddol (KPI) yn wyneb cynnydd llwyth gwaith o hyd at 100% mewn cyfnod o chwe wythnos a / neu gynnydd mewn llwyth gwaith o 50% mewn cyfnod o chwe mis. Rydym nawr yn y broses o werthuso effaith y rhaglen ar ein gwydnwch.

Bwriadwn roi fframwaith monitro a gwerthuso cynhwysfawr yn ei le wrth symud ymlaen. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn comisiynu adolygiad o achosion FtP ac yn datblygu methodoleg i gofnodi siwrneiau'r cyfranogwyr drwy FtP.

Yn olaf, ar **welliant parhaus**, y targed oedd parhau i weithredu o fewn ein dangosyddion KPI heb ddefnyddio mwy o adnoddau cyllideb, gan ymdopi â llwyth gwaith a allai gynyddu'n raddol hyd at 20% yn flynyddol o 2020 ymlaen, gan ddibynnu ar y cyfyngiadau uchod. Rydym wedi ehangu a gwella ein capasiti monitro a gwerthuso a defnyddio methodoleg ffurfiol o sicrhau gwelliannau parhaus i wella ein cynhyrchedd.

Yr ail nod oedd cwblhau cam ymchwil ein gwaith ar 'ddifrifoldeb'. Roedd oedi droeon gyda datblygu'r tendr ar y cyd â'n sefydliad partner ac o ganlyniad ni chafodd y gwaith ei gomisiynu tan fis Rhagfyr 2019. Y dyddiad diwygiedig ar gyfer cwblhau'r ymchwil erbyn hyn yw Mai 2021. Wrth i ni symud ymlaen, bydd adroddiadau cynnydd interim a threfnir digwyddiadau dysgu ar y cyd.

Rydym wedi adolygu modelau gwahanol o ddarparu'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol (DCS) a'r meini prawf meincnodi fel rhan o gam dau ein hadolygiad. Comisiynwyd hefyd ddadansoddiad economaidd o'r budd cymdeithasol o fuddsoddi i helpu i lywio ein penderfyniadau ar fodel DCS ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn asesu'r modelau a adolygwyd er mwyn creu gwasanaeth sy'n ateb anghenion pawb. Unwaith y cwblheir yr adolygiad, byddwn yn ymgynghori â'n rhanddeiliaid gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau cytunedig i'r gwasanaethau, a'r gwaith hwn i ddigwydd yn 2021 ar y cynharaf.

## 2. Datblygu model rheoleiddio i fyny'r gadwyn

Rydym wedi cwblhau nifer o brosiectau i ddatblygu mwy ar ein model rheoleiddio i fyny'r gadwyn. Roedd y rhain yn cynnwys:

### a) Datblygu strategaeth data a gwybodaeth a chwblhau darnau allweddol o ymchwil

Mae strategaeth data a gwybodaeth wedi'i chreu a thîm newydd yn ei le i gomisiynu a rheoli ein rhaglen ymchwil. Roedd y prosiectau ymchwil allweddol a gwblhawyd yn cynnwys:

- Beth yw camymddwyn difrifol ym marn cleifion a gweithwyr deintyddol.
- Adolygiad llenyddiaeth o gwmpas ymarfer i weld a yw ein canllawiau a'n prosesau presennol yn hwyluso neu'n rhwystro gweithwyr deintyddol rhag defnyddio eu hystod lawn o sgiliau, ac ystyried beth allai weithio'n well.
- Datblygu, profi a hyrwyddo adnoddau sy'n annog dull gofal seiliedig ar werthoedd o ymarfer deintyddiaeth a chefnogi aelodau o'r tîm deintyddol i ddarparu gofal deintyddol mewn ffordd sy'n cofleidio angen clinigol a'r hyn sy'n well gan y claf unigol.

## b) Adolygu Safonau'r Tîm Deintyddol

Fe wnaethom asesiad cychwynnol o'r cyhoeddiadau presennol ar broffesiynoldeb mewn deintyddiaeth a chynnal nifer o ddigwyddiadau i gyflwyno ein canfyddiadau cychwynnol a deall mwy am beth yw ymddygiad proffesiynol o safbwynt aelodau'r cyhoedd a'r proffesiynau deintyddol.

Byddwn yn adrodd yn ôl ar ein canfyddiadau yn 2020. Gyda'n rhanddeiliaid byddwn yna'n cyd-gynhyrchu cyfres o egwyddorion proffesiynoldeb yn disgrifio ein disgwyliadau o weithwyr deintyddol. Bwriadwn ymgynghori ar yr egwyddorion newydd hyn ar ôl eu datblygu.

## c) Datblygu strategaeth ymgysylltu

Rydym wedi datblygu a gweithredu ein strategaeth ar ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y DU, gyda ffocws penodol ar gofrestreion newydd a myfyrwyr. Fel rhan o'u rhaglen gynefino, rydym wedi rhoi cyflwyniadau i'r holl fyfyrwyr BDS blwyddyn gyntaf, yr holl ddeintyddion sylfaen a galwedigaethol ac ystod o fyfyrwyr DCP ac felly wedi ymgysylltu â thua 2,500 o ddeintyddion newydd a myfyrwyr.

Fe wnaethom sicrhau bod ein gweithgareddau ymgysylltu wedi eu gwasgaru'n ddaearyddol ar draws y DU. Roedd hyn yn cynnwys cynnal un cyfarfod Cyngor yng Nghaerdydd, un cyfarfod o Fforwm y Proffesiwn Deintyddol yng Nghaeredin a threfnu ymweliad gan y Cadeirydd a'r Tîm Gweithredol i Ogledd Iwerddon, yn ogystal â'n gweithgareddau ymgysylltu arferol.

## d) Datblygu ein dull o ddarparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Wrth ddatblygu model dysgu gydol oes, gwnaed ymchwil yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth a chynhaliwyd gweithdai gyda rhanddeiliaid allweddol i brofi canfyddiadau'r ymchwil, casglu adborth ac asesu modelau dysgu gydol oes mewn mwy o fanylder.

Yn dilyn y gweithgareddau hyn, cyhoeddwyd ein dogfen drafod *Shaping the Direction of Lifelong Learning* ar gyfer gweithwyr deintyddol yn cyflwyno canlyniadau ein hymchwil a'n syniadau cychwynnol am sut y gallai ein gofynion DPP newid. Roedd y ddogfen yn gwahodd syniadau, sylwadau a barn gan randdeiliaid am ddyfodol tymor byr a thymor hir dysgu a datblygiad proffesiynol ym maes deintyddiaeth. Byddwn yn defnyddio'r adborth ac yn parhau i drafod gyda'n rhanddeiliaid i helpu i dywys ein dulliau o ddarparu dysgu gydol oes.

## 3. Gwella addysg ddeintyddol

Fe wnaethom ddechrau gwneud archwiliadau treial o raglenni Baglor Llawfeddygaeth Ddeintyddol (BDS) yn defnyddio model Sicrhau Ansawdd (QA) Addysg ar sail risg oedd yn canolbwyntio ar fonitro, er mwyn gallu adnabod yn well y meysydd oedd fwyaf o destun pryder a chreu gweithgareddau QA pwrpasol ar gyfer darparwyr addysg unigol.

Fe wnaethom weithio gyda rhanddeiliaid, yn casglu adborth helaeth, i ddatblygu ein model QA Addysg newydd ar sail risg. Yn dilyn treial llwyddiannus a ddaeth i ben yn Haf 2019, rydym bellach wrthi'n cyflwyno'r dull newydd hwn ar gyfer ein holl waith QA. Drwy'r dull newydd rydym wedi gallu gwneud defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau a'u targedu at y meysydd sy'n destun y pryder mwyaf. Y cam nesaf fydd datblygu proses i fonitro effaith y newid hwn fel rhan o'n strategaeth o fonitro a gwerthuso ein holl weithgareddau i fyny'r gadwyn.

## 4. Gweithio'n well gyda'n partneriaid rheoleiddio

Drwy weithio ag ystod eang o sefydliadau rhanddeiliaid, roeddem eisiau datblygu model cynhwysfawr o ddatrys cwynion. Fe wnaethom fapio'r tirlun trin cwynion mewn deintyddiaeth a gwneud dadansoddiad o fylchau i weld pa newidiadau y gallwn eu gwneud i wella ein proses trin cwynion.

Rydym wedi adolygu a symleiddio'r wybodaeth ar ein gwefan i symleiddio'r broses o leisio pryder i'r sefydliad mwyaf priodol, gyda gwybodaeth glir am beth sydd a beth sydd ddim yn dod o fewn ein cylch gwaith a hefyd pa wybodaeth sydd ei hangen arnom i ymchwilio i bryderon.

Wrth symud ymlaen byddwn yn parhau i fonitro'r model i sicrhau ei fod yn addas i'r pwrpas.

Cafodd y gwaith hwn ei wneud drwy ymgysylltu'n helaeth â sefydliadau partner sy'n trin neu'n rhan o drin cwynion ar draws y tirlun cwynion deintyddol. Bydd yr ymgysylltu hwn yn parhau drwy gydol amserlen y gwaith hwn.

Rydym yn parhau i ymgysylltu â'n rheoleiddwyr partner ar y prosiect hwn, a rhai eraill, fel aelod gweithredol o Fwrdd y Rhaglen Rheoleiddio Gwasanaethau Deintyddol (RDSPB).

## 5. Defnyddio ymchwil a gwybodaeth i ddeall yr amgylchedd deintyddol

Y nod ar gyfer y maes ffocws hwn oedd gweithredu ein strategaeth data a gwybodaeth gan ddefnyddio dysgu o'r ymchwil a gwblhawyd yn 2019.

Sefydlwyd grŵp gweithredu data'n cynnwys staff allweddol o bob rhan o'r sefydliad, sydd wedi ein helpu i ennill llawer mwy o ddealltwriaeth o'n data. Comisiynwyd adolygiad dulliau cymysg o'n canllawiau Cwmpas Ymarfer gyda'r gwaith ymchwil wedi'i gwblhau ar amser.

Mae'r dysgu o hyn wedi llywio nifer o brosiectau gwella data sydd wedi eu cynnwys yn y gwaith a gynlluniwyd yn ein Cynllun Corfforaethol a Gostiwyd am 2020.

Yn 2020 bwriadwn weithio â'n rhanddeiliaid mewnol ac allanol i barhau i ddatblygu a chyhoeddi ein canfyddiadau ymchwil a'n dysgu i sicrhau ein bod yn parhau yn sefydliad seiliedig ar dystiolaeth.

## 6. Rheoli ein pobl, adnoddau, systemau ac ystadau

Rydym wedi gorffen symud o Lundain i'n swyddfeydd gweithredol newydd yn Birmingham a symud ein switiau gwrandawiad i'n swyddfeydd yn Wimpole Street. Cafodd rhaglen y strategaeth ystadau ei chau'n ffurfiol ddydd Gwener 31 Ionawr 2020 ar ôl cwblhau amcanion y rhaglen yn llwyddiannus, gan gynnwys agor y swyddfeydd gweithredol yn Birmingham ac ailwampio'r pencadlys strategol yn Llundain. Mae'r rhaglen ystadau wedi bod yn ganolog i'n huchelgais o fod yn sefydliad mwy effeithlon ac rydym yn dal i fod ar y trywydd cywir i wneud tua £50m o arbedion dros y 15 mlynedd nesaf.

Rydym hefyd wedi cyflawni elfennau pwysig o'r Strategaeth Pobl gan gynnwys lles, cynllunio'r gweithlu (gan gynnwys aelodau cyswllt), datblygu talent, gwaith gwobrwyo a chydnabod; a chwmpasu a pharatoi ar gyfer y Strategaeth Gorfforaethol newydd o 2020 ymlaen, gan sicrhau bod yr adnoddau iawn yn eu lle. Byddwn yn monitro'n fanwl y manteision ariannol fydd yn deillio dros amser o'r symudiadau hyn.

Pan wnaethom ddatblygu ein Strategaeth Gorfforaethol roedd yn bwysig sicrhau bod yr adnoddau iawn yn eu lle i gwblhau'r gwaith hwn. Rhan allweddol o'r broses oedd ymgynghori gyda'r cyhoedd ar ein strategaeth newydd. Gyda chymorth yr adborth, cynhyrchwyd Strategaeth Gorfforaethol 2020–2022: *Right Time, Right Place, Right Touch* a gymeradwywyd gan y Cyngor a'i chyhoeddi yn Nhachwedd 2019. Bydd nodau ac amcanion y strategaeth yn cael eu darparu drwy'r rhaglenni a ddisgrifir yn ein Cynllun Corfforaethol a Gostiwyd (cyhoeddwyd Ionawr 2020) ac yn cael eu monitro'n agos drwy gydol y strategaeth.

# c) Trosolwg perfformiad addasrwydd i ymarfer

O dan Ddeddf Deintyddion 1984 mae'n ofynnol i ni gyhoeddi "adroddiad ystadegol yn nodi pa mor effeithiol ac effeithlon (ac yn cynnwys disgrifiad) yw'r trefniadau sydd gan y Cyngor yn eu lle i warchod aelodau o'r cyhoedd rhag pobl sy'n ddeintyddion cofrestredig neu'n weithwyr gofal deintyddol cofrestredig a lle mae eu haddasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol, ynghyd â sylwadau'r Cyngor ar yr adroddiad". Mae'r trosolwg hwn yn rhoi crynodeb o berfformiad yn 2019.

Pan fydd pryderon yn cael eu lleisio i ni, byddwn yn eu hystyried a lle bo angen yn eu hymchwilio i asesu a yw'r materion dan sylw efallai'n awgrymu bod addasrwydd i ymarfer gweithiwr cofrestredig yn ddiffygiol.

Pan ddywedwn fod rhywun yn "addas i ymarfer", golygwn fod ganddynt y sgiliau, gwybodaeth, iechyd a chymeriad priodol i ymarfer eu proffesiwn yn ddiogel ac effeithiol. Fodd bynnag, nid mater o berfformiad clinigol neu iechyd yn unig yw addasrwydd i ymarfer.


Mae addasrwydd i ymarfer hefyd yn cynnwys unrhyw beth a allai'r cofrestrai fod wedi'i wneud sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd mewn gweithwyr deintyddol a'u rheoleiddio. Gallai hyn gynnwys materion heb ymwneud yn uniongyrchol ag ymarfer proffesiynol, fel cyflawni trosedd.

Os oes pryderon am ymddygiad neu gymhwysedd gweithiwr deintyddol sy'n cyflwyno risg ddifrifol i gleifion, neu sy'n amharu'n ddifrifol ar hyder y cyhoedd mewn deintyddiaeth, byddwn yn ymchwilio a lle bo'n briodol yn gweithredu i liniaru'r risg. Gallai pryderon ddod yn uniongyrchol gan glaf, drwy hysbysiad gan gorff arall (e.e. lle mae'r heddlu'n hysbysu euogfarn neu rybuddiad troseddol), neu gan ffynonellau eraill.

Ymchwiliwn lle:

- Gwneir camgymeriadau gofal clinigol difrifol neu gyson, gyda gweithdrefn ddeintyddol neu wrth roi diagnosis er enghraifft.
- Methir ag archwilio claf yn iawn, cael caniatâd gwybodus claf cyn rhoi triniaeth, cadw cofnodion boddhaol neu ymateb yn rhesymol i anghenion claf.
- Nad oes yswiriant indemniad proffesiynol.
- Mae problemau croes-heintio (er enghraifft, defnyddio cyfarpar clinigol budr wrth roi triniaeth).
- Mae achos difrifol o dorri ymddiriedaeth claf.
- Mae arwyddion o drosedd gan gynnwys twyll, dwyn neu anonestrwydd gan weithiwr deintyddol.
- Mae iechyd gwael neu gyflwr meddygol yn effeithio'n sylweddol ar allu cofrestrai i drin cleifion yn ddiogel.

Mae'r diagram isod yn dangos y ganran gyfartalog o achosion a gaewyd yng ngwahanol gamau'r broses o ddelio ag achosion FtP, o'i gymharu â'r 100% gwreiddiol. (dylid nodi mai'r ganran wedi eu gweithredu ac nid nifer yr achosion a dderbyniwyd yw hyn). Mae'n dangos lle penderfynwyd cau achosion ac mae'n cynnwys achosion a ddechreuodd mewn blynyddoedd blaenorol.




O'r holl achosion a ystyriwyd yng ngham yr Asesiad Cychwynnol yn 2019

Y ganran gyfartalog o achosion a gaewyd yng ngham yr asesiad cychwynnol oedd 29%

Y ganran gyfartalog o achosion a gaewyd yn y cam asesu yn 2019 oedd 49% o'r achosion a adolygwyd yn y cam hwn, sy'n 35% o'r 100% gwreiddiol.

Y ganran gyfartalog o achosion a gaewyd gan archwilwyr achos yn 2019 oedd 59% o'r achosion a adolygwyd yn y cam hwn, sy'n 21% o'r 100% gwreiddiol.

Y ganran gyfartalog o achosion a gyfeiriwyd at Bwyllgor Ymarfer yn 2019 yw 15% o'r 100% gwreiddiol.

Yn 2019 gwelsom ganran yr achosion a gaewyd yn y cam cynharaf yn gostwng o 31% i 26%, gyda chanran yr achosion yn symud i'r cam terfynol yn cynyddu dim ond o 1%. Credwn fod y newidiadau hyn, yn rhannol o leiaf, o ganlyniad i'n hymdrechion gyda'r proffesiwn a'r cyhoedd i osgoi materion amhriodol yn cael eu codi gyda ni, ac yn adlewyrchu'r nifer is yn gyffredinol o achosion a dderbynnir.

Os penderfynir bod addasrwydd i ymarfer cofrestrai'n ddiffygiol, gallai'r panel benderfynu:

- gwneud dim
- rhoi cerydd
- gosod amodau ar eu cofrestriad
- atal eu cofrestriad
- tynnu'r unigolyn oddi ar y gofrestr deintyddion neu DCP

Mae yna hefyd broses apêl.

Ar unrhyw gam yn y broses Addasrwydd i Ymarfer, gallwn wneud cais am orchymyn interim i gyfyngu ar ymarfer cofrestrai hyd nes y penderfynir eu hachos.

## Niferoedd achosion FtP yn ôl cam

Nifer yr achosion a ystyriwyd ym mhob cam o'r broses Addasrwydd i Ymarfer yn 2019[1 2] oedd:

| | |
|---|---|
| **Asesiadau cychwynnol: 1,362** | Y ffigur hwn yw nifer yr achosion a ystyriwyd yng ngham yr asesiad cychwynnol, pan fo achosion yn cael eu sgrinio ac efallai eu cau, neu eu cyfeirio am ymchwiliad 'asesu' pellach. Caewyd 27% o'r cyfanswm hwn[6], cyfeiriwyd 2% at NHS England neu GIG Cymru am sylw, a chyfeiriwyd 71% am asesiad. Dengys nifer yr asesiadau yn y cam hwn ostyngiad o 18% o'i gymharu â 2018 (1,668).<br><br>Proseswyd 1,362 o asesiadau cychwynnol, sy'n wahanol i nifer yr achosion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn sef 1,415. |
| **Asesiadau: 886** | Dyma nifer yr achosion a ystyriwyd yn y cam asesu "llawn" pryd y gellir cau achosion neu eu cyfeirio at archwilwyr achos. Caewyd 49% o'r cyfanswm hwn a chyfeiriwyd 51% at archwilwyr achos. Mae'r cyfanswm hwn yn lleihad o 42% mewn penderfyniadau asesu o'i gymharu â 1,530 o achosion yn 2018. Yn 2018 fe wnaethom fwy o benderfyniadau na chyfeirio achosion i gael eu hasesu ac o ganlyniad roedd llai o achosion yn aros yn y broses Addasrwydd i Ymarfer. Mae 2019 yn adlewyrchu'r nifer lai hyn o achosion a brosesir ac sy'n cael eu cyfeirio i'w hasesu. Dylid nodi bod y ffigur hwn yn cynnwys achosion a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol ond a ystyriwyd yn 2019. |
| **Archwilwyr achos: 688**<br><br>**Pwyllgor Ymchwilio: 3** | Dyma gyfanswm yr achosion a ystyriwyd gan archwilwyr achos a arweiniodd at gau, gweithredu neu gyfeirio achosion at Bwyllgor Ymarfer (gan gynnwys rhai a ailystyriwyd o dan Reol 6E/Rheol 10: achosion a roddwyd yn ôl i'r archwilwyr achos yn dilyn eu cyfeirio'n gychwynnol at Bwyllgor Ymarfer).<br><br>O'r 688 canlyniad gan archwilwyr achosion, caewyd 54%, cyfeiriwyd 41% at Bwyllgor Ymarfer ac arweiniodd 5% at Dderbyn Gweithredu.<br><br>Mae'r cyfanswm o 691 yn lleihad o 2% mewn canlyniadau cau a chyfeirio o'i gymharu â 2018 (704). Yn 2018 gwelsom fwy o achosion yn cael eu hystyried yn y cam asesu nag a gyfeiriwyd i gael eu hasesu. Yn 2019 gwelsom fwy o achosion yn cael eu hystyried gan yr archwilwyr achos nag y cyfeiriwyd atynt, ban barhau gyda'n hymgyrch i leihau nifer yr achosion sy'n rhan o'r broses Addasrwydd i Ymarfer ar y tro. |
| **Atgyfeiriadau i Bwyllgor Ymarfer: 283** | Dyma nifer yr achosion a atgyfeiriwyd gan archwilwyr achos at Bwyllgor Ymarfer. Cyfeiriwyd un achos gan y Pwyllgor Ymchwilio.<br><br>Mae'r cyfanswm hwn yn dangos cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ond arhosodd canran yr achosion a gyfeiriwyd at Bwyllgor Ymarfer fwy neu lai'r un fath ag yn 2018. O'r 283 a gyfeiriwyd i gyd, atgyfeiriodd archwilwyr achos hefyd 21 o'r achosion hyn at Bwyllgor Gorchmynion Interim. Mae hyn yn gynnydd o 24% o'i gymharu â 2018 (17).[4] |

1 Y canrannau cau a chyfeirio yw'r achosion y deliwyd â hwynt ym mhob cam yn unig. Ni fydd y canrannau'n cyfateb i'r nifer a broseswyd yn siart pob cam oherwydd cyfanswm y llwyth achosion gwreiddiol yw hyn nid y ganran a gaewyd ym mhob cam.

2 Cyflwynir y data hwn ar ffurf naratif ac felly byddai cymharu gyda blynyddoedd blaenorol yn fanwl iawn. Gellir gwneud cymariaethau drwy gyfeirio at adroddiadau blynyddol a chyfrifon blaenorol, sydd ar wefan y GDC yn: https://www.gdc-uk.org/

3 Bydd y ffigur hwn fymryn yn wahanol i'r ffigur yn siart y nifer a broseswyd oherwydd mae hefyd yn cynnwys achosion a dderbyniwyd yn 2018 ond a broseswyd yn 2019.

4 Gallai un cofrestrai gyfrif am fwy nag un achos.

## Ffynonellau a mathau o bryderon

Yn 2019 roedd tua hanner y pryderon a godwyd gyda ni'n ymwneud â rhoi triniaeth i un claf, yna pryderon yn ymwneud ag ymddygiad proffesiynol cofrestrai. Mae achosion 'clinigol un claf' wedi bod yn gostwng wrth i gleifion ddod i ddeall yn gynyddol a dilyn y broses o ddatrys cwynion yn effeithiol yn lleol yn hytrach na lleisio pryderon wrthym ni am addasrwydd cofrestrai i ymarfer.

Felly hefyd, codir tua hanner y pryderon gan gleifion neu aelodau o'r cyhoedd a'r gweddill naill ai gan gyflogwyr, cyrff neu gofrestreion eraill a chan bobl sy'n chwythu'r chwiban.

Yn 2019 lansiwyd rhaglen ddadansoddi sy'n cyflwyno dysgu a bwletinau gwybodaeth rheolaidd i'n cofrestreion. Ceisiwn adnabod themâu o'n hachosion i helpu cofrestreion i fyfyrio ar a gwella eu hymarfer. Mae hon ar gael ar ein gwefan.

## Gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer

Mae achosion a gyfeiriwyd atom gan archwilwyr achos yn cael eu clywed gan un o dri phwyllgor ymarfer statudol. Mae pob panel yn cynnwys deintydd, gweithiwr gofal deintyddol ac aelod lleyg. Yn 2019 cynhaliodd y pwyllgorau ymarfer 141 o wrandawiadau cychwynnol.

Yr amser canolrifol rhwng archwilwyr achos yn cyfeirio achos a chynnal y gwrandawiad cychwynnol oedd 263 diwrnod (8 mis a 18 diwrnod). Dechreuwyd 60% o fewn 9 mis i gael eu cyfeirio, o'i gymharu â 67% yn 2019. Ar gyfartaledd roedd gwrandawiad cychwynnol yn para 4.9 diwrnod.

Yn 2019 cynhaliwyd 91 gwrandawiad deintydd (65%) a 50 gweithiwr gofal deintyddol (DCP). Yn y gwrandawiad cychwynnol cafodd 18% o ddeintyddion a 24% o weithwyr DCP eu tynnu oddi ar y gofrestr (20% i gyd). Ar y llaw arall ni chafodd 42% o ddeintyddion a 24% o weithwyr DCP unrhyw sancsiwn yn dilyn eu gwrandawiad (35% i gyd). Arweiniodd 28% o achosion at atal a 10% at osod amodau. Roedd y canrannau sancsiwn hyn yr un fath ar gyfer deintyddion a gweithwyr DCP.

Dengys y tabl isod ganlyniadau'r holl wrandawiadau cychwynnol FtP yn 2019.

| Canlyniad | Nifer Canlyniadau | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Tynnu ac Atal yn syth | 28 | 20% |
| Atal yn syth (gydag adolygiad) | 23 | 16% |
| Addasrwydd i ymarfer ddim yn ddiffygiol, cau'r achos | 23 | 16% |
| Ffeithiau a brofwyd ddim yn cyfateb i gamymddwyn. Cau'r achos | 21 | 15% |
| Amodau i'w gosod yn syth (gydag adolygiad) | 12 | 9% |
| Atal (gydag adolygiad) | 9 | 6% |
| Addasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol. Cerydd | 9 | 6% |
| Atal | 7 | 5% |
| Dim achos i'w ateb | 4 | 3% |
| Amodau (gydag adolygiad) | 2 | 1.5% |
| Ffeithiau heb eu profi; cau'r achos | 2 | 1.5% |
| Atal yn syth | 1 | 1% |
| Cyfanswm | 141 | 100% |

## Gorchmynion interim Addasrwydd i Ymarfer

Ar unrhyw gam yn y broses Addasrwydd i Ymarfer, gallwn wneud cais am orchymyn interim i gyfyngu ar ymarfer cofrestrai hyd nes y penderfynir eu hachos. Gwnawn hyn lle credwn fod gwir risg o niwed sylweddol i aelod o'r cyhoedd, lle mae gwarchod hyder y cyhoedd yn y proffesiwn o fudd i'r cyhoedd, i gynnal safonau proffesiynol neu lle mae er lles i'r cofrestrai ei hun. Yn 2019 cyflwynodd y Pwyllgor Gorchmynion Interim 67 canlyniad cychwynnol. Penderfynwyd gwneud dim gorchymyn mewn 17 achos, gosod amodau interim mewn 27 achos ac atal dros dro mewn 23 achos.

# d) Trosolwg perfformiad cofrestru

Rhaid i ddeintyddion a gweithwyr DCP gofrestru gyda'r GDC i ymarfer yn gyfreithlon yn y DU. Rhaid i bawb sy'n ymuno â'r gofrestr fod â chymwysterau priodol, neu basio asesiad, a bodloni gofynion iaith Saesneg, iechyd a chymeriad i'w hystyried yn addas i ymarfer fel aelod o'r tîm deintyddol.

Gellir gwneud cais mewn nifer o ffyrdd. Rhaid i'r ymgeisydd ddangos bod ganddynt un o'r canlynol:

- Cymhwyster DU cydnabyddedig.
- Cymhwyster Ewropeaidd cydnabyddedig.
- Cymhwyster tramor cydnabyddedig.
- Asesiad o addasrwydd i gofrestru, drwy asesiad o sgiliau a gwybodaeth gan un o baneli'r GDC.
- Llwyddo i basio'r Arholiad Cofrestru Tramor.

## Rhestri arbenigol

Rydym hefyd yn cadw rhestri o ddeintyddion sy'n ddigon cymwys neu brofiadol i gael eu hystyried yn arbenigwyr mewn meysydd deintyddiaeth.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD):

Mae gan ymarferwyr deintyddol ddyletswydd i ddiweddaru eu sgiliau a'u gwybod yn rheolaidd. Mae CPD yn un o'r gofynion gorfodol ar gyfer cofrestru gyda'r GDC.

## Nifer y cofrestreion yn 2019

Cyfanswm y deintyddion a gweithwyr DCP cofrestredig ar 31 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl yn dangos cyfanswm y deintyddion a gweithwyr DCP ar y gofrestr. Mae gweithwyr DCP gyda mwy nag un teitl, er enghraifft gweithiwr hylendid deintyddol sydd hefyd yn therapydd deintyddol, ond yn cael eu cyfrif unwaith yn y tabl hwn.

Roedd cynnydd o 1% yng nghyfanswm y cofrestreion, o 112,276 ar ddiwedd 2018 i 113,439 ar ddiwedd 2019.[5]

| Math o gofrestriad | Nifer y Cofrestreion | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Deintydd | 42,470 | 37% |
| DCP | 70,969 | 63% |
| Cyfanswm | 113,439 | |

Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl rhywedd deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol ar 31 Rhagfyr 2019[6]

| Math o gofrestriad | Gwryw | % o'r cyfanswm | Benyw | % o'r cyfanswm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Deintydd | 21,141 | 49.8% | 21,329 | 50.2% | 42,470 |
| DCP | 5,373 | 7.6% | 65,596 | 92.4% | 70,969 |
| Cyfanswm | 26,514 | 23.4% | 86,925 | 76.6% | 113,439 |

5 Nodyn 67 Mae deintyddion hefyd yn gofrestredig fel gweithwyr DCP felly'n cael eu cynnwys yn y ddau rif yn y tabl

6 Mae canrannau'n cynrychioli'r gyfran o gyfansoddiad rhywedd o'i gymharu â'r gofrestr gyfan. Mae'r niferoedd yn y tabl hwn yn cyfateb i dabl un.

## Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl grwpiau deintyddol ar 31 Rhagfyr 2019

| Teitl y cofrestriad | Nifer y cofrestreion | % o'r holl deitlau | Nifer a ychwanegwyd yn 2019 |
|---|---|---|---|
| Nyrs Deintyddol | 58,898 | 49% | 4,350 |
| Deintydd | 42,470 | 36% | 1,737 |
| Gweithiwr Hylendid Deintyddol | 7,563 | 6% | 435 |
| Technegydd Deintyddol | 5,776 | 5% | 187 |
| Therapydd Deintyddol | 3,620 | 3% | 323 |
| Therapydd Orthodontig | 695 | 1% | 69 |
| Technegydd Deintyddol Clinigol | 375 | <1% | 18 |
| Cyfanswm | 119,397[11] | | 7,119 |

Roedd cynnydd o 1.4% yng nghyfanswm y teitlau cofrestredig yn 2019, o 117,726 yn 2018 i 119,397 yn 2019.

## Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl ardal gymhwyso ar 31 Rhagfyr 2019

Deintyddion, yn ôl ardal gymhwyso

| Ardal Gymhwyso | Nifer | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Cymhwyso yn y DU | 30,463 | 72% |
| Cymhwyso yn Ardal Economaidd Ewrop | 6,881 | 16% |
| ORE – Arholiad Statudol yn y DU | 3,591 | 8% |
| Cymhwyso yng ngweddill y byd | 1,535 | 4% |
| Cyfanswm | 42,470 | |

## Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl ardal gymhwyso ar 31 Rhagfyr 2019

| Ardal Gymhwyso | Nifer y Cofrestreion | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Cymhwyso yn y DU | 1,131 | 65% |
| Cymhwyso yn Ardal Economaidd Ewrop | 398 | 23% |
| ORE – Arholiad Statudol yn y DU | 195 | 11% |
| Cymhwyso yng ngweddill y byd | 13 | 1% |
| Cyfanswm | 1,737 | |

7 Mae'r tabl hwn yn rhoi nifer yr unigolion ym mhob math o gategori gweithiwr deintyddol ar y gofrestr. Mae gweithiwr deintyddol gyda mwy nag un teitl yn cael eu cyfrif unwaith am bob teitl sydd ganddynt. Felly, bydd y cyfanswm ar gyfer y tabl hwn yn fwy na chyfanswm y bobl sy'n cael eu cyfrif yn nhabl un.

## Gweithwyr DCP yn ôl ardal gymhwyso[8]

| Math o gofrestriad | Cymhwyso yn y DU | Cymhwyso yn Ardal Economaidd Ewrop | Cymhwyso yng ngweddill y byd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nyrs Deintyddol | 58,752 | 172 | 88 | 59,012 |
| Gweithiwr Hylendid Deintyddol | 7,231 | 258 | 182 | 7,671 |
| Technegydd Deintyddol | 5,635 | 133 | 16 | 5,784 |
| Therapydd Deintyddol | 3,541 | 4 | 110 | 3,655 |
| Therapydd Orthodontig | 692 | 2 | 6 | 700 |
| Technegydd Deintyddol Clinigol | 375 | 1 | 2 | 378 |
| Cyfanswm | 76,226 | 570 | 404 | 77,200 |

## Ychwanegiadau newydd i'r gofrestr DCP yn 2019, yn ôl ardal gymhwyso

| Teitl DCP | Cymhwyso yn y DU | Cymhwyso yn Ardal Economaidd Ewrop | Cymhwyso yng ngweddill y byd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nyrs Deintyddol | 4,318 | 29 | 49 | 4,396 |
| Gweithiwr Hylendid Deintyddol | 355 | 20 | 101 | 476 |
| Technegydd Deintyddol | 272 | – | 72 | 344 |
| Therapydd Deintyddol | 163 | 22 | 2 | 187 |
| Therapydd Orthodontig | 68 | 1 | 3 | 72 |
| Technegydd Deintyddol Clinigol | 18 | – | – | 18 |
| Cyfanswm | 5,194 | 72 | 227 | 5,493 |

8 Gall gweithwyr DCP fod ag amryw o deitlau gyda gwahanol ardaloedd cymhwyso.

# e) Adolygiad ariannol

## Dadansoddiad incwm a gwariant yn ôl swyddogaeth reoleiddio

Mae'r cyfrifon ar dudalennau 51–75 yn dangos ein hincwm a'n gwariant mewn fformat cyfrifon arferol. Er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol i randdeiliaid, mae'r tabl canlynol yn dangos ein perfformiad yn ôl swyddogaeth reoleiddio:

| | 2019 £000 | 2019 £000 | 2018 £000 | 2018 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | |
| Cofrestru | 45,984 | | 45,416 | |
| Cofrestru Tramor | 1,592 | | 1,588 | |
| Incwm gweithredol arall | 19 | | 14 | |
| | | **47,595** | | **47,018** |
| **Gwariant** | | | | |
| **Gweithgareddau rheoleiddio** | | | | |
| Gwrandawiadau ac Addasrwydd i Ymarfer | 16,473 | | 17,307 | |
| Cofrestru | 3,023 | | 3,204 | |
| Arholiad Cofrestru Tramor | 1,639 | | 1,671 | |
| Polisi a Rheoli Rhanddeiliaid | 2,256 | | 2,050 | |
| Llywodraethu | 2,202 | | 1,703 | |
| Rhagoriaeth Weithredol | 1,028 | | 1,128 | |
| Sicrhau Ansawdd | 831 | | 698 | |
| Y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | 334 | | 435 | |
| | | **27,786** | | **28,196** |
| **Gweithgareddau cymorth** | | | | |
| Cyllid, Adnoddau Dynol a CEO | 3,546 | | 4,010 | |
| Swyddfeydd a Gwasanaethau Swyddfa | 1,680 | | 1,960 | |
| Ystadau | 1,159 | | 2,291 | |
| Technoleg Gwybodaeth | 2,558 | | 2,465 | |
| Cwtogi'r cynllun pensiwn | (1,670) | | – | |
| Dibrisio ac Amorteiddio | 1,576 | | 1,061 | |
| | | **8,849** | | **11,787** |
| **Cyfanswm gwariant** | | **36,635** | | **39,983** |
| Incwm buddsoddi | | 575 | | 294 |
| Enillion na wireddwyd / (colled) ar fuddsoddiadau | | 2,080 | | (1,056) |
| Addasiad i gostau nawdd cymdeithasol a threth | | 107 | | – |
| **Gwarged / (diffyg) cyn treth** | | **13,722** | | **6,273** |
| Treth | | (273) | | (8) |
| Enillion actiwaraidd | | 323 | | 489 |
| **Gwarged / (diffyg) wedi'i gadw ar ôl treth** | | **13,772** | | **6,754** |

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael ei ariannu'n bennaf drwy ffioedd sy'n cael eu talu gan ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol (DCP) sy'n rhaid iddynt, o dan Ddeddf Deintyddion 1984, gofrestru gyda'r Cyngor i ymarfer deintyddiaeth yn y Deyrnas Unedig. Telir ffioedd i ni hefyd gan ddeintyddion am gael aros ar y rhestri arbenigol.

## Dadansoddiad incwm

Aeth yr incwm gweithredol i fyny o £0.6m yn ystod y flwyddyn i £47.6m, (2018: £47.0m). Roedd hyn oherwydd:

- 671 o ddeintyddion ychwanegol yn adnewyddu eu cofrestriad
- 896 o weithwyr DCP ychwanegol yn adnewyddu eu cofrestriad
- incwm wedi'i gynhyrchu o fuddsoddi a gwerthu asedau a ddaeth i ben eu hoes ddefnyddiol.

## Dadansoddiad gwariant

Aeth cyfanswm y gwariant i lawr £3.4m i £36.6m yn 2019 (2018: £40.0m); y newidiadau sylweddol (amrywiadau dros £0.5m) i'n gwariant yn ôl swyddogaeth reoleiddio yn 2019 oedd:

- cynnydd o £0.5m mewn costau Llywodraethu ar ôl trosglwyddo £0.5m i'r maes busnes Cyfreithiol a Llywodraethu'n dilyn ehangu'r Tîm Cyngor Cyfreithiol Mewnol, drwy drosglwyddo swyddi i'r tîm o rywle arall a chreu dwy swydd ychwanegol. Cyfunwyd yr adnodd cyngor cyfreithiol mewn un maes er mwyn i'r gwasanaeth weithredu mewn ffordd gynhwysfawr ac effeithiol ac er mwyn dibynnu llai ar ddarparwyr allanol.
- £1.1m yn llai o wariant yn ymwneud â'r Strategaeth Ystadau. Roedd gan y rhaglen waith hon amserlen benodol ac i'w chwblhau yn Ionawr 2020, gan ystyried trosglwyddo rhai swyddogaethau i'n swyddfa newydd yn Birmingham. Mae'r rhaglen waith hon yn parhau i fod ar y trywydd cywir i greu arbedion o tua £50m dros 15 mlynedd.
- ychwanegiad ariannol o £1.7m at brisiad IAS 19 blynyddol o'r cynllun pensiwn ar 31 Rhagfyr 2019, yn dilyn cwtogi'r cynllun o ganlyniad i ddileu swyddi fel rhan o ddarparu ein Strategaeth Ystadau
- lleihad o £0.8m mewn costau Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawiadau o ganlyniad i:
- lleihad o 4% yn nifer yr achosion yn symud at wrandawiad, o 299 yn 2018 i 288 yn 2019
- lleihad o 11% mewn staffio FtP a gwrandawiadau, o 109 o staff ar 31 Rhagfyr 2018 i 97 o staff ar 31 Rhagfyr 2019, wedi'i briodoli'n bennaf o ganlyniad i'r adolygiad dechrau i'r diwedd o Addasrwydd i Ymarfer (E2E), a wnaeth y ffordd y darparwn ein prosesau'n fwy effeithlon
- er bod cynnydd wedi bod mewn costau dibrisio o £0.5m yn 2019, mae hyn yn ymwneud â gweithrediad tro cyntaf 'Prydlesi' IFRS16, sydd nawr yn codi costau rhent am ein swyddfeydd yn Llundain a Birmingham (£438k) drwy ddibrisio, yn lle swyddfeydd a gwasanaethau swyddfeydd.

Drwy gydol 2019 mae rhaglenni fel buddsoddi yn ein Strategaeth Ystadau wedi parhau i greu arbedion effeithlonrwydd. Yn 2019 fe wnaethom £0.5m o arbedion effeithlonrwydd newydd. Gwnaed hefyd £1.86m o arbedion parhaus ar brosiectau a ddechreuwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Rydym felly wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd blynyddol o £2.36m yn 2019 sy'n 6% o'n costau yn 2019. Daw cyfanswm yr arbedion cronnus dros y pum mlynedd hyd at Ragfyr 2019 i £19.1m.

Mae'r GDC yn cyfyngu adrodd arbedion i uchafswm o bum mlynedd. Drwy gydol y broses o wneud arbedion effeithlonrwydd, ystyriwyd yn ofalus i sicrhau nad yw gweithredu unrhyw brosiectau arbedion yn creu risg i warchod y cyhoedd. Mae'r GDC yn defnyddio'r arbedion hyn i sicrhau hyfywedd y sefydliad drwy gynyddu ein cronfeydd ariannol i lefel gynaliadwy, a thrwy ariannu rhaglenni sy'n buddsoddi mewn mesurau i warchod y cyhoedd yn fwy effeithlon drwy leihau cost a baich gorfodi rheoliadol.

## Rhagolygon

Ym Mehefin 2019 cwblhawyd ein hadolygiad E2E. Roedd E2E yn ceisio cyflwyno manteision o ran prydlondeb, effeithlonrwydd, gwydnwch, gwella parhaus, rheoli galw / rhagolygon a darparu'r rhaglen strategol *Shifting the Balance*. Yn 2018 a 2019, gwnaed arbedion cyllideb o £0.7m drwy weithredu cyfnodau cynnar y rhaglen mewn ffordd ystwyth. Y rhagolygon yw y gwneir arbedion pellach o tua £1m yn 2020.

Erbyn Rhagfyr 2019 roeddem wedi cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith yn ein Rhaglen Ystadau'n dilyn penderfynu symud swyddi yn ein gwasanaethau Cofrestru, Addasrwydd i Ymarfer a chymorth gweithredol i Birmingham fel rhan o'n Strategaeth Ystadau. Erbyn diwedd 2019 roedd tua 200 o swyddi wedi eu symud i Birmingham, ond gyda'n pencadlys a'n cyfleusterau gwrandawiadau'n aros yn Llundain. Ar sail rhagolygon presennol mae'r rhaglen waith hon yn parhau i fod ar y trywydd cywir i greu arbedion o tua £50m dros 15 mlynedd.

Bydd rhaglenni i gynhyrchu a monitro arbedion effeithlonrwydd newydd yn deillio o fesurau sydd eisoes wedi eu hadnabod yn parhau yn 2020, ond bydd angen eu hadolygu'n ofalus i ddeall a fydd COVID-19 yn cael unrhyw effaith ar yr arbedion hyn.

Er bod y sefydliad yn parhau i orfod cwrdd â bodloni targedau heriol i wneud arbedion newydd, byddwn

yn parhau i sicrhau nad yw'r broses o adnabod arbedion effeithlonrwydd yn risg i warchod y cyhoedd.

Gwyddom y bydd cynllun gwaith 2020 yn newid yn sylweddol o ganlyniad i COVID-19. Rydym wedi nodi blaenoriaethau newydd, cyflymu'r gwaith mewn rhai meysydd a, lle bo'n briodol, byddwn yn trosglwyddo peth o'r gwaith oedd i ddigwydd yn 2020 i'r blynyddoedd nesaf.

## Y gronfa bensiwn

Yn unol â'r safon adrodd ariannol ar gyfer costau pensiwn, IAS 19, fe wnaeth Quantum Advisory, sef actiwari'r cynllun pensiwn, brisio elfen buddion diffiniedig ein cynllun pensiwn ar 31 Rhagfyr 2019. Yn ôl eu dadansoddiad, aeth gwerth actiwaraidd net elfen buddion diffiniedig y cynllun i fyny £1.9m yn 2019 o'i gymharu â'r hyn adroddwyd yng nghyfrifon y llynedd.

Y prif ffactor oedd yn gyfrifol am y cynnydd ym mhrisiad y cynllun yn 2019 oedd yr addasiad ar gyfer cwtogi'r cynllun o ganlyniad i ddileu swyddi fel rhan o ddarparu ein Strategaeth Ystadau. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o £1.7m ym mhrisiad IAS 19 o'r cynllun.

Mae'r gyfradd ddisgownt dybiedig yn is yn 2019 nag yn 2018, sy'n adlewyrchu llai o log ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel gyda chyfnod ac arian cyfred cyfwerth â rhwymedigaethau'r cynllun. Roedd hyn wedi'i wrthbwyso gan symudiadau positif mewn tybio marwolaethau. Yn y cyfamser, roedd taliadau i mewn i'r cynllun, a'r llog, yn £1.3m yn fwy na'r taliadau allan o'r cynllun.

Nid yw hyn yn ymwneud â'r prisiad tair-blynyddol o elfen buddion diffinedig y cynllun pensiwn, a wnaed ar 1 Ebrill 2018. Dangosodd hyn warged mewn cyllid actiwaraidd o £0.3m gan argymell cynyddu cyfraniad y cyflogwr i elfen buddion diffinedig y cynllun i 20.3% o 1 Ebrill 2019 ymlaen, tan y prisiad tair-blynyddol nesaf ar 1 Ebrill 2021.

Ar 31 Rhagfyr 2019 mae gan y cynllun warged o £5.8m ar sail mabwysiadu tybiaethau IAS 19. O dan ofynion *'IFRIC 14: The Limit on a Defined Benefit Asset, Minimum Funding Requirements' and their Interaction'*, gallai fod raid i'r GDC gyfyngu'r gwarged yn y datganiadau ariannol pe na bai'r GDC yn gallu sicrhau manteision economaidd llawn o'r gwarged hwnnw. Mae gwerth cyfran y Cyngor, fel y cyfrifwyd hynny, o gost yr holl fuddion cronnus yn y dyfodol (hyd at oed ymddeol arferol aelodau), ar sail cyfrifyddu, yn fwy na'r gwarged sydd wedi'i ddatgan yn y cynllun.

Felly, nid yw'r gwarged a adroddwyd wedi'i gyfyngu. Rydym yn monitro effaith y marchnadoedd stoc ar y gwarged hwn, o ganlyniad i COVID-19. Cyflwynir ein hamcangyfrif o'r effaith debygol yn nodyn 21 i'r cyfrifon hyn.

Rhoddir manylion llawn y gwerthusiad a'r tybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd yn nodyn 16.

## Darpariaethau

Yn ystod y flwyddyn defnyddiwyd y ddarpariaeth a wnaed yn 2018 ar gyfer costau iawndal ac adleoli o ganlyniad i ddarparu ein Strategaeth Ystadau. Bydd balans y ddarpariaeth honno ar 31 Rhagfyr, £212k, yn talu am gostau taliadau iawndal ac adleoli fydd yn ddyledus yn 2020. Rhoddir manylion ein taliadau gadael yn yr Adroddiad Taliadau ar dudalen 44 a rhoddir manylion y symudiadau yn y ddarpariaeth yn nodyn 15 i'r cyfrifon.

## Risgiau hylifedd

Roedd ein balans arian parod i lawr i £40.3m (2018: £42.3m) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balansau'n gylchol ac ar eu huchaf yn Rhagfyr / Ionawr a Gorffennaf / Awst pan fydd deintyddion a gweithwyr DCP yn talu eu ffioedd cadw blynyddol. Mae ein gwariant wedi'i wasgaru'n gyfartal drwy'r flwyddyn ariannol.

Ar ôl myfyrio ar y sefyllfa risg bresennol a'r heriau a wynebwn o ran y canlyniadau ariannol fydd yn deillio o COVID-19, o fewn y GDC a'r proffesiwn deintyddol ehangach, rydym wedi cwblhau gwaith ar nifer o senarios wrth asesu hylifedd ac i gynorthwyo gyda pharatoi'r cyfrifon fel busnes hyfyw.

Mae'r senarios yr ydym wedi eu modelu'n cynnwys asesu ystod o risg incwm, ac effaith amhariad ar ein portffolio buddsoddi. Yn dilyn ein modelu, rydym yn fodlon nad yw'n agored i unrhyw risg hylifedd sylweddol.

Buddsoddir y balansau nad oes eu hangen am resymau gweithredol tymor byr yn unol â'n hegwyddorion buddsoddi, a ystyriwyd ac a gymeradwywyd ddiwethaf gan y Cyngor yn Rhagfyr 2019.

## Cronfeydd wrth gefn

Adolygodd y Cyngor y Polisi Cronfeydd yn Rhagfyr 2019. Mae'r Cyngor yn rheoli lefel y cronfeydd hyn drwy gyfeirio at gronfeydd rhydd, wedi'u haddasu i ystyried unrhyw asesiad cyfredol o risg ariannol. Cronfeydd na chawsant eu clustnodi ar gyfer rhwymedigaethau gwariant yw'r rhain, fel taliadau dibrisio o brynu asedau cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol. Y nod yw cynnal lefel y cronfeydd rhydd ar lefel nad yw'n ormodol ond nad yw'n risg i solfedd.

Mae'r Polisi Cronfeydd Wrth Gefn yn ystyried:

- Amcanion y Cyngor yn unol â'n cyfrifoldebau statudol a rheoliadol.
- Ariannu cyfalaf gweithio a rheoli llif arian parod dydd i ddydd y Cyngor, gyda'r incwm ar ei uchaf yn yr haf a'r gaeaf.
- Risgiau i incwm a gwariant y Cyngor.
- Rhaglenni mawr o wariant cyfalaf a gynlluniwyd.

Roedd cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31 Rhagfyr 2019 yn £38.4m (2018: £24.7m), ac o'r rhain mae'r cronfeydd cyffredinol wrth gefn yn £30.7m (2018: £20.9m).

| | £m |
|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn ar 31 Rhagfyr 2019 | 30.7 |
| O'r arian hwn: | |
| Cronfeydd wrth gefn wedi eu hymrwymo i asedau sefydlog | 18.1 |
| Cronfeydd rhydd wrth gefn | 12.6 |
| **Cronfeydd rhydd wrth gefn a fynegir fel nifer y misoedd o wariant gweithredol blynyddol** | **3.7** |

O ganlyniad i fabwysiadu 'Prydlesi' 'IFRS 16 am y tro cyntaf yn 2019 gwelsom gynnydd sylweddol o £6.3m mewn cronfeydd wedi eu hymrwymo i asedau sefydlog, fodd bynnag mae ein cronfeydd rhydd wrth gefn ar ddiwedd 2019 yn aros o fewn y polisi ar 3.7 mis o'r gwariant gweithredol blynyddol.

Wrth osod targed, ystyriodd y Cyngor y byddai cronfeydd rhydd wrth gefn o isafswm o dri mis o wariant gweithredol yn briodol, gyda'r targed yn bedwar mis a hanner o wariant gweithredol erbyn diwedd ein gweithgareddau strategol tair blynedd yn Rhagfyr 2022. Bydd y polisi hwn yn parhau i gael ei adolygu i sicrhau ei fod yn aros yn briodol yng ngoleuni'r heriau ariannol ar ddechrau 2020.

## Archwilwyr allanol

Mae'r cyfrifon wedi eu harchwilio gan ein harchwilwyr, Haysmacintyre LLP o 10 Queen Street Place, Llundain, EC4R 1AG ac, yn unol â Deddf Deintyddion 1984, gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 157–197 Buckingham Palace Road, Victoria, Llundain SW1W 9SP. Mae adroddiad yr archwilydd annibynnol ar dudalen 48 o'r adroddiad hwn ac mae tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol ar dudalen 45.

## Datgelu gwybodaeth archwilio i'r archwilwyr

Cyn belled ag y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol na ŵyr archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol amdani. Rydym wedi cymryd yr holl gamau gofynnol i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gwybod am y wybodaeth honno.

**Ian Brack**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd a
Swyddog Cyfrifyddu

3 Mehefin 2020

# 6 Strwythur y Cyngor a'i Bwyllgorau

## Strwythur y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cynnwys 12 aelod: 6 yn aelodau lleyg a 6 yn gofrestreion deintyddol. Yn 2019 roedd aelodau'r Cyngor fel a ganlyn:

| Aelodau cofrestredig | Aelodau lleyg |
|---|---|
| Catherine Brady | William Moyes (Cadeirydd) |
| Jeyanthi John | Terry Babbs |
| Margaret Kellett | Geraldine Campbell |
| Caroline Logan | Anne Heal |
| Kirstie Moons | Sheila Kumar |
| Simon Morrow | Crispin Passmore |

## Presenoldeb mewn cyfarfodydd Cyngor yn 2018

| Enw | Ion | Maw | Mai | Gorff | Medi | Hyd | Rhag |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| William Moyes (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Terry Babbs | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Catherine Brady | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Geraldine Campbell | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Anne Heal | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Jeyanthi John | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Margaret Kellett | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sheila Kumar | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Caroline Logan | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Kirstie Moons | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Simon Morrow | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Crispin Passmore | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |

## Pwyllgorau statudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

O dan Ddeddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd), mae gan y GDC gyfrifoldeb i ddelio â honiadau o ymarfer diffygiol yn erbyn aelodau o'r proffesiwn deintyddol.

Mae chwe phwyllgor statudol i gynorthwyo gyda chyflawni dyletswydd statudol y GDC fel y nodir yn adran 2 o Ddeddf Deintyddion 1984. Mae'r pwyllgorau'n cynnwys panelwyr annibynnol o gofrestreion a lleygwyr. Nid yw aelodau'r Cyngor yn eistedd ar y pwyllgorau statudol. Mae'r pwyllgorau statudol yn atebol i'r Cyngor am eu perfformiad.

Y pwyllgorau statudol yw:

**Pwyllgor Ymchwilio (IC):** yn ystyried honiadau o addasrwydd diffygiol i ymarfer er mwyn penderfynu a ddylid cyfeirio'r honiadau at un o'r tri phwyllgor ymarfer (Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol, Pwyllgor Iechyd neu'r Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol) am ymchwiliad llawn. Mae swyddogaethau'r IC yn cael eu dirprwyo i archwilwyr achos yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol.

**Pwyllgor Gorchmynion Interim (IOC):** gellir cyfeirio achos i'r IOC ar unrhyw bwynt i ystyried a fyddai gwneud gorchymyn (fel amodau neu atal) yn erbyn cofrestriad gweithiwr deintyddol yn briodol cyn cynnal ymchwiliad llawn.

**Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol:** yn ystyried honiadau o gamymddwyn yn erbyn gweithiwr deintyddol i benderfynu a yw'r camymddwyn yn amharu ar eu gallu i ymarfer deintyddiaeth.

**Pwyllgor Iechyd:** yn ystyried achosion lle mae'n ymddangos bod perfformiad gweithiwr deintyddol yn cael ei effeithio gan gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol.

**Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol:** yn ystyried honiadau o berfformiad diffygiol yn erbyn gweithiwr deintyddol i benderfynu a yw'r diffyg yn amharu ar eu gallu i ymarfer deintyddiaeth.

**Pwyllgor Apeliadau Cofrestru:** yn ystyried apeliadau gan weithwyr deintyddol ar sail naill ai gwrthod iddynt ymuno â'r gofrestr, eu tynnu oddi ar y gofrestr, neu wrthod iddynt ailymuno â'r gofrestr (ond nid gan bwyllgor ymarfer).

Rhoddir mwy o fanylion am waith ac aelodaeth pwyllgorau statudol y Cyngor ar ein gwefan.[5]

Penodir aelodau'r pwyllgorau statudol gan y **Pwyllgor Sicrhau Panelwyr Statudol (SPC)[6]**, sy'n goruchwylio'r gwaith o recriwtio, hyfforddi a rheoli perfformiad y pwyllgorau statudol. Aelodau'r SPC oedd Rosie Varley (Cadeirydd), Nigel Fisher, Martyn Green, a Tim Skelton.

## Pwyllgorau anstatudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Mae'r Cyngor wedi'i gynorthwyo gan bedwar pwyllgor anstatudol:

| Pwyllgor | Aelodau'r Cyngor |
|---|---|
| **Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC)**<br>Yn herio a monitro didwylledd y datganiadau ariannol ac yn adolygu systemau llywodraethu, rheoli risg a mesurau rheoli mewnol y GDC, a'r gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol. | Crispin Passmore (Cadeirydd)<br>Catherine Brady<br>Sheila Kumar<br>Simon Morrow<br>Aelod Annibynnol |
| **Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (FPC)**<br>Yn herio a monitro perfformiad ariannol a pherfformiad arall. Yn gweithio gyda'r tîm rheoli gweithredol i ddatblygu strategaeth ariannol a chynllun busnes y Cyngor, ac ar ystod o gyfrifoldebau cysylltiedig yn cynnwys ystadau, pensiynau a buddsoddiadau. | Terry Babbs (Cadeirydd)<br>Anne Heal<br>Kirstie Moons<br>Margaret Kellett |
| **Pwyllgor Taliadau (Remco)**<br>Yn sefydlu gweithdrefnau ar gyfer talu'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd, y Tîm Rheoli Gweithredol, aelodau'r Cyngor ac yn penderfynu ar bolisi taliadau cyffredinol y GDC. | Geraldine Campbell (Cadeirydd)<br>Anne Heal<br>Caroline Logan<br>Jeyanthi John (o fis Hydref 2019)<br>Aelod Annibynnol |
| **Bwrdd Polisi ac Ymchwil (PRB)**<br>Yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu rhaglenni strategaeth, polisi ac ymchwil. | Kirstie Moons (Cadeirydd)<br>Caroline Logan<br>Catherine Brady<br>Geraldine Campbell<br>Jeyanthi John (tan fis Hydref 2019)<br>Margaret Kellett<br>Simon Morrow |

Aelodau annibynnol o bwyllgorau a wasanaethodd yn 2019:

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Archwilio a Risg | Rajeev Arya |
| Pwyllgor Taliadau | Philippa Hird (tan 24 Mehefin 2019)<br>Ann Brown (o 3 Hydref 2019) |

# 7 Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr

O dan Ddeddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd) rhaid i ni baratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf sy'n cael ei benderfynu gan y Cyfrin Gyngor. Paratoir y Cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi barn deg a gwir am gyflwr y GDC a'i incwm a'i wariant, y newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn a'r llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd fel Swyddog Cyfrifyddu'r GDC. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n bennaf gyfrifol i'r Cyfrin Gyngor a'r Senedd am sicrhau bod sefyllfa ariannol y GDC yn briodol a rheolaidd, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau'r GDC. Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r GDC a'r Swyddog Cyfrifyddu:

- talu sylw i'r dyfarniad cyfrifon a wnaed gan y Cyfrin Gyngor, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgan perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas gyda chysondeb
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol a nodir yn y dyfarniad cyfrifon wedi cael eu dilyn gan ddatgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw, oni bai nad yw'n briodol gwneud hynny
- cadarnhau bod yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ar y cyfan, yn deg, cytbwys a dealladwy ac yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'r dyfarniadau sydd angen eu gwneud i benderfynu eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy.

Mae'r GDC a'r Swyddog Cyfrifyddu wedi ystyried y gofynion uchod ac o'r farn bod y cyfrifon, lle bo'n berthnasol i'r GDC, y cydymffurfiwyd â hwy dan bob amgylchiad perthnasol, ac mae unrhyw faterion arwyddocaol wedi'u nodi yn y Datganiad Llywodraethu sy'n dilyn.

# 8 Datganiad Llywodraethu

## Cwmpas y Cyfrifoldebau

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am gynnal llywodraethu effeithiol a sicrhau bod mesurau rheoli mewnol cadarn yn eu lle i gynorthwyo polisïau, nodau ac amcanion y GDC, ac i ddiogelu asedau'r sefydliad, o gofio fy mod yn bersonol atebol amdanynt. Wrth gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn ystyried, er nad wyf wedi fy nghyfyngu gan, y canllawiau yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Wrth wneud fy asesiad, defnyddiais wybodaeth o drafodaethau gyda, ac adroddiadau gan, yr archwilwyr mewnol a thrwy fonitro ein cofrestri risg yn barhaus. Cefais hefyd sicrwydd drwy'r flwyddyn gan Dîm Rheoli Gweithredol y GDC, o'r wybodaeth am berfformiad a rheolaeth ariannol a gynhyrchir gan y sefydliad ac o waith y Cyngor a'i bwyllgorau. Oherwydd nad yw'r GDC wedi'i ddosbarthu fel corff hyd braich[9], nid oes angen iddo gydymffurfio â Chod Ymarfer 2017: Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog. Er hynny ystyriwn yr egwyddorion arfer da a ddisgrifir yn y ddogfen wrth ddatblygu ac adrodd ar ein trefniadau llywodraethu. Cyflwynir ein harferion i sicrhau llywodraethu effeithiol, tryloyw ac atebol yn yr adran ar Effeithlonrwydd y Cyngor.

## Trefniadau Llywodraethu

Mae'r GDC yn gorff corfforedig wedi'i gyfansoddi o dan Ddeddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd). Mae 12 aelod Cyngor yn cynnwys chwe aelod cofrestredig a chwe aelod lleyg, un ohonynt yn Gadeirydd. Y Cyfrin Gyngor sy'n gyfrifol am wneud penodiadau i'r Cyngor. Yn 2019 ni adawodd yr un aelod Cyngor eu swydd ac felly ni wnaed unrhyw benodiadau newydd, er hynny cymrodd y Cyngor gamau i ddechrau'r broses recriwtio cystadleuaeth agored ar gyfer aelodau a fyddai'n ymddiswyddo yn 2020, yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol.

Rôl y Cyngor yw gosod cyfeiriad strategol y GDC ac, yn Nhachwedd 2019, lansiodd Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer 2020–2022: *Right Time, Right Place, Right Touch.* Pwrpas y strategaeth yw cysoni'r GDC â chenhadaeth a phwrpas statudol y Cyngor, sicrhau bod systemau yn eu lle i fonitro perfformiad a dal y tîm gweithredol

9 Corff hyd braich yw sefydliad sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus, nid yw'n un o adrannau gweinidogol y llywodraeth ac mae'n gweithredu i raddau mwy neu lai drwy gadw pellter oddi wrth Weinidogion.

i gyfrif, a sicrhau didwylledd ariannol. Mae'r Cyngor wedi penderfynu y gall gyflawni ei swyddogaethau orau drwy ddirprwyo rhai materion i is-gyrff (fel y pedwar pwyllgor anstatudol) neu i mi fel Prif Weithredwr a Chofrestrydd. Nid yw'r Cyngor yn dirprwyo:

- cymeradwyo'r strategaeth
- gwneud rheolau statudol
- cymeradwyo'r gyllideb a'r cynllun busnes blynyddol
- cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol ac unrhyw adroddiad sydd angen ei roi gerbron y seneddau
- dal y tîm gweithredol i gyfrif am reoli'r sefydliad.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am osod a monitro cylch gorchwyl ei bwyllgorau. Mae'r Cyngor a'i bwyllgorau'n gweithredu'n unol â Rheolau Sefydlog a threfniadau clir ar gyfer rheoli unrhyw wrthdaro budd. Mae datganiadau budd aelodau'r Cyngor ar gael i'r cyhoedd.

## Pwyllgorau Anstatudol

Mae'r Cyngor wedi sefydlu pedwar pwyllgor anstatudol fel a ganlyn:

- Pwyllgor Archwilio a Risg.
- Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.
- Pwyllgor Taliadau
- Bwrdd Polisi ac Ymchwil.

Mae pob pwyllgor yn cynnwys aelodau cofrestredig ac aelodau lleyg o'r Cyngor. Yn achos y Pwyllgor Taliadau a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, penodwyd hefyd aelod annibynnol i'r pwyllgor i gynorthwyo ei waith. Rhoddir manylion aelodaeth pob pwyllgor yn yr adran ar Strwythur y Cyngor a'i Bwyllgorau.

Mae Cadeiryddion y pwyllgorau'n rhoi diweddariad i'r Cyngor ar ôl pob cyfarfod ac mae pob pwyllgor yn cyflwyno adroddiad effeithiolrwydd blynyddol i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, yn crynhoi ei berfformiad yn erbyn ei raglen waith.

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Prif bwrpas y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC) yw monitro didwylledd y datganiadau ariannol, adolygu trefniadau llywodraethu, mesurau rheoli mewnol a system rheoli risg y GDC ac adolygu gwasanaethau'r archwilwyr mewnol ac allanol. Mae hyn yn cynnwys monitro a weithredir y camau a nodir yn adroddiadau'r archwilwyr mewnol. Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol cyn eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo.

Mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod y prosesau rheoli risg sydd yn eu lle'n ddigonol ac effeithiol. Mae hyn yn golygu adolygu'r Gofrestr Risg Strategol, cael sicrwydd o'r trefniadau rheoli risg gan archwilwyr mewnol ac adolygu statws a thueddiadau'r holl risgiau yn y Gofrestr Risg Strategol. Yn 2019, briffiwyd y Pwyllgor ar oblygiadau a risg yn deillio o'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, a bydd hyn yn parhau yn 2020.

## Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad

Rôl y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (FPC) yw craffu a herio'r tîm gweithredol ar berfformiad ariannol a pherfformiad arall a gweithio gyda'r tîm gweithredol i ddatblygu setiau data priodol a chymesur fel bo'r Cyngor yn gallu cyflawni ei swyddogaethau. Mae hefyd yn rhoi arweiniad i'r tîm gweithredol ar faterion gweithredol allweddol fel y strategaeth eiddo, buddsoddi a datblygu technoleg. Mae'r FPC hefyd yn gweithio gyda'r tîm gweithredol i ddatblygu cynlluniau strategaeth ariannol y Cyngor.

Yn 2019 bu'r Pwyllgor yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Corfforaethol a Gostiwyd tair blynedd y GDC, ei Strategaeth Gorfforaethol, a hefyd yn goruchwylio rheolaeth ariannol o'r sefydliad ar ran y Cyngor, er mwyn gallu gostwng y ffi gadw flynyddol a godir ar gofrestreion y Cyngor.

Mae'r FPC hefyd wedi parhau i oruchwylio, ar ran y Cyngor, ei strategaeth ystadau a'r gwaith o sefydlu'r swyddfeydd gweithredol yn Birmingham.

## Pwyllgor Taliadau

Prif bwrpas y Pwyllgor Taliadau yw sefydlu gweithdrefn dryloyw ar gyfer talu'r Prif Weithredwr, y Tîm Rheoli Gweithredol, Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys y Cadeirydd) ac eraill sy'n dal swyddi cyswllt. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod cymhellion priodol i annog perfformiad da, bod unigolion yn cael eu gwobrwyo'n deg a chyfrifol a bod hyn wedi'i gysylltu ai'w cyfraniad at lwyddiant y GDC.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r broses o wneud argymhellion ar benodi ac ail-benodi aelodau'r Cyngor ac yn adolygu'r trefniadau ar gyfer cynnal adolygiad blynyddol o berfformiad ac effeithiolrwydd y Cyngor. Yn flynyddol, mae hefyd yn adolygu cynlluniau pensiwn y GDC ac yn gwneud adroddiadau a / neu argymhellion i'r Cyngor ar sail cyngor a data actiwaraidd.

Yn 2019 bu'r Pwyllgor yn cynghori ar ddatblygiadau'n ymwneud â Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y GDC ac ar ddatblygu strategaeth bensiwn y GDC.

## Bwrdd Polisi ac Ymchwil

Mae'r Bwrdd Polisi ac Ymchwil (PRB) yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r rhaglenni strategol, polisi ac ymchwil gan adrodd arnynt i'r Cyngor.

Yn 2019 bu'r PRB yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol drwy fynychu gweithdai i drafod datblygiad polisi a chyfleoedd i gydweithredu, gan hefyd oruchwylio prosiectau'r rhaglen *Shifting the Balance* ac adrodd arnynt i'r Cyngor.

## Pwyllgor Sicrhau Panelwyr Statudol

Yn ogystal â'r pwyllgorau anstatudol uchod, mae'r Cyngor wedi ymarfer y pŵer i sefydlu pwyllgor penodiadau sef y Pwyllgor Sicrwydd Panelwyr Statudol (SPC). Fel pwyllgor wedi'i sefydlu o dan Orchymyn Rheolau (Ymgynghoriad Pwyllgorau) y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2009, mae'n cynorthwyo'r Cyngor gyda phenodiadau i unrhyw un o bwyllgorau statudol y Cyngor, fel y paneli Addasrwydd i Ymarfer. Yn 2019 bu'r SPC yn adolygu'r broses o benodi cadeiryddion y paneli FtP a phenodi cynghorwyr cyfreithiol, gan gymeradwyo penodi tri chadeirydd panel ac ailbenodi 53 o gynghorwyr cyfreithiol.

## Effeithiolrwydd y Cyngor

Yn 2019 comisiynodd y Cyngor sefydliad allanol i gynnal Adolygiad Effeithlonrwydd Bwrdd o'r Cyngor a'i bwyllgorau anstatudol. Roedd yr adolygiad yn cynnwys: arsylwi mewn dau gyfarfod o'r Cyngor a thri o'i bwyllgorau anstatudol craidd drwy gydol 2019, ac adolygu dogfennau ategol. Cwblhawyd yr adolygiad gydag adroddiad a gweithdy wedi'i hwyluso gyda'r Cyngor ym mis Hydref 2019, i drafod canfyddiadau'r adolygiad a'r argymhellion ar gyfer Datblygu'r Bwrdd yn 2020. Roedd yr adolygiad yn cynnwys perfformiad y Cyngor a'i bwyllgorau anstatudol craidd, cydlyniant a chyfraniadau unigol aelodau'r Cyngor a'r Tîm Rheoli Gweithredol (EMT) a chymorth llywodraethu.

Mae'r Cyngor wedi adolygu'r argymhellion ar draws y pedwar maes gwaith y cyfeiriwyd atynt yn yr adolygiad i barhau i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y Cyngor a'i bwyllgorau, gyda rhaglen weithgareddau'n cael ei datblygu i'w gweithredu yn 2020.

Yn aml iawn mae cyfarfodydd y Cyngor wedi bod yn gyfuniad o 'weithdai' anffurfiol a chyfarfodydd ffurfiol i gynorthwyo'r gwaith o reoli a goruchwylio gwaith y sefydliad a datblygiad y Cyngor fel un corff ac fel aelodau unigol. Yn y gweithdai hyn, mae'r Cyngor yn trafod syniadau a chysyniadau ar gyfer prosiectau newydd ac yn cynnal trafodaethau ymchwiliol am gynllunio strategol.

Ystyriwn yr arferion llywodraethu gorau wrth adolygu pa mor effeithiol yw'r Cyngor. Mae'r Cadeirydd yn parhau i adolygu pob cyfarfod ar ei ddiwedd gydag aelodau a'r tîm gweithredol, a hefyd yn cynnal cyfarfodydd arfarnu blynyddol gydag aelodau a'r Prif Weithredwr.

Yn 2019, i gyd-fynd â'r broses arfarnu flynyddol, cynhaliwyd archwiliad sgiliau hunan-fyfyriol o aelodau'r Cyngor er mwyn deall yn well unrhyw gyfle a allai fod gan y Cyngor i ddatblygu, cynorthwyo i gynllunio rhaglen ar gyfer Datblygiad y Bwrdd a bwydo hyn i'r broses o recriwtio aelodau'r Cyngor yn 2020.

Cofnodir presenoldeb aelodau'r Cyngor yn y cofnodion, sydd ar gael i'r cyhoedd. Rhoddir tabl presenoldeb yn yr adran ar Strwythur y Cyngor a'i Bwyllgorau.

## Trosolwg y Cyngor o Risgiau Strategol

Mae'r Cyngor yn monitro risgiau strategol ac yn derbyn diweddariad i'r Gofrestr Risg Strategol (SRR) ym mhob cyfarfod. Mae'r SRR yn cael ei hadolygu a'i hargymell i'w chymeradwyo gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT) ac yna'n cael ei hadolygu a'i hargymell i'w chyflwyno i'r Cyngor gan yr ARC.

Mae'r SRR yn cael ei chylchredeg i'r Cyngor yn syth yn dilyn argymhelliad yr ARC i sicrhau bod y Cyngor yn gallu bwrw golwg dros yr holl risgiau strategol, y fframwaith o fesurau lliniaru a'r sicrwydd i gefnogi effeithiolrwydd y mesurau lliniaru. Mae unrhyw ddatblygiadau risg strategol sy'n codi rhwng cylchredeg yr SRR a dyddiad cyfarfod y Cyngor yn cael eu cyflwyno fel diweddariad i'r risgiau strategol yn y cyfarfod.

Ymhlith pethau eraill, mae'r SRR yn caniatáu i'r Cyngor asesu i ba raddau y mae risgiau strategol yn cael eu lliniaru drwy fesurau effeithiol, adnabod y rhai nad yw'r Cyngor yn barod i'w derbyn a phenderfynu sut y mae'r sefydliad yn perfformio yn erbyn trothwyon posibiliadau risg targed realistig a blynyddol. Pan gyflwynir y gofrestr i unrhyw fforwm, fe'i rhoddir mewn cyd-destun gan bapur rheoli risg sy'n amlygu'r prif bryderon, unrhyw danberfformiad ynghyd â phroblemau newydd neu segur.

Mae'r dogfennau risg hyn a gyflwynir i ac y craffir arnynt gan y Cyngor yn rhoi gwybodaeth sy'n helpu i gynorthwyo a thywys penderfyniadau, monitro cynnydd yn erbyn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor a helpu i ddal y tîm gweithredol i gyfrif am berfformiad y sefydliad.

Yn gorwedd o dan yr SRR, ac i sicrhau bod yr holl risgiau ynddi'n rhai gwirioneddol strategol, mae gan bob Cyfarwyddiaeth gofrestr o risgiau gweithredol (ORR). Mae'r cofrestri ORR hyn wedi eu his-gategoreiddio yn ôl tîm, yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n fisol ac yn cael eu cyflwyno i'r SLT ar gyfer craffu'n flynyddol o leiaf.

Mae'r holl risgiau, p'un ai'n strategol neu'n weithredol, wedi eu cysoni â'r strategaeth gorfforaethol a'r cynllun corfforaethol a gostiwyd.

Adolygodd y Cyngor ei barodrwydd i dderbyn risgiau strategol ym mis Hydref 2019 gan gysoni'r holl risgiau strategol â'r parodrwydd newydd o ganlyniad.

## Datgelu'r prif risgiau a'r elfennau o ansicrwydd:

O dan ein fframwaith rheoli risg, ystyriwn risgiau strategol a risgiau gweithredol. Ar ddiwedd 2019 roedd yr SRR wedi'i phoblogi gyda 11 risg strategol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ansicrwydd o gwmpas newidiadau cyfansoddiadol pan fydd y DU yn gadael yr UE, gan gynnwys y posibilrwydd y collir y Cyd-gydnabyddiaeth o Gymwysterau Proffesiynol (MRPQ)
- siwrne gadarn a phrydlon ein hachosion drwy brosesau Addasrwydd i Ymarfer
- risgiau corfforaethol yn ymwneud â meysydd fel diogelwch a diogelu data
- risgiau sy'n cael eu hadnabod yn dilyn adleoli'n unol â'r Strategaeth Ystadau, gan gynnwys glynu wrth ragolygon ariannol
- ymrwymiadau strategol sefydliadol fel *Shifting the Balance*, a
- risgiau'n ymwneud â chynnal safonau PSA.

Er bod yr adran hon yn adlewyrchu ac adrodd ar sefyllfa risg strategol y GDC yn 2019; mae'n bwysig myfyrio ar y sefyllfa risg bresennol o ystyried yr heriau sy'n wynebu'r GDC oherwydd COVID-19. Ar adeg ysgrifennu'r datganiad hwn, mae'r amgylchedd risg yn newid bron yn ddyddiol; ac mae risgiau strategol wedi eu hadnabod yng nghyswllt y meysydd canlynol:

- Sicrhau parhad busnes drwy argyfwng haint COVID-19.
- Y canlyniadau ariannol yn codi o COVID-19, o fewn y GDC ac yn y proffesiwn deintyddol ehangach.
- Deall pryd a sut y bydd staff yn gallu dychwelyd i weithio mewn swyddfeydd.

## Gwasanaethau Archwilwyr Mewnol

Darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol annibynnol y GDC gan Mazars LLP yn 2019. Cafodd cynllun archwilio mewnol am y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2019, wedi'i ddatblygu gyda Mazars, ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2019. Cafodd 10 archwiliad mewnol eu cynnal yn 2019, saith ohonynt yn aseiniadau sicrwydd.

Yn dilyn pob aseiniad archwilio mewnol, gwnaed argymhellion i wella naill ai ddyluniad y fframwaith mesurau rheoli, neu i gymhwyso'r fframwaith mesurau rheoli, ac wedi eu categoreiddio naill ai fel argymhellion sylfaenol, sylweddol neu gadw tŷ. Yn dilyn cytuno i'r argymhellion hyn, aseiniwyd swyddog i fod yn gyfrifol am weithredu pob argymhelliad a chytunwyd ar ddyddiad gweithredu. Roedd canfyddiadau sicrwydd y gwaith archwilio'n amrywio rhwng tair lefel sicrwydd bosib: sicrwydd sylweddol, sicrwydd digonol a sicrwydd isel.

Barn archwilio mewnol gyffredinol Mazars, ar sail gwaith a wnaed yn 2019, oedd bod ein trefniadau llywodraethu, rheoli risg a mesurau rheoli mewnol, ar y cyfan, yn ddigonol ac effeithiol o ran gallu cyflawni amcanion y sefydliad. Roedd y farn gyffredinol hon yn seiliedig ar bedwar maes gwaith lle barnwyd un sicrwydd sylweddol, dau sicrwydd digonol ac un sicrwydd isel ar gyfer y saith aseiniad sicrwydd a wnaed. Ni wnaed unrhyw argymhellion sylfaenol.

Mae system ganolog o dracio gweithredu argymhellion archwilio mewnol yn ei lle gennym. Mae'r argymhellion yn cael eu tracio a chadarnhad yn cael ei geisio gan berchnogion yr argymhellion o ran eu statws a phryd y cyrhaeddir eu dyddiad gweithredu. Adroddwyd ar berfformiad gweithredu'r argymhellion i'r SLT a'r ARC drwy gydol y flwyddyn.

## Y Tîm Rheoli Gweithredol

Cefnogir y Cyngor gan staff, wedi eu harwain gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, aelodau eraill o'r Tîm Rheoli Gweithredol (EMT) a'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth (SLT) ehangach.

Y Cyngor sy'n penderfynu ar y strategaeth a pholisi ynghyd â chanlyniadau ac allbynnau'r GDC er mwyn cyflawni ei bwrpas a'i werthoedd. Mae hyn yn golygu mai'r Prif Weithredwr a'r EMT sy'n gyfrifol am sut y cyflawnir y canlyniadau a'r allbynnau hynny. Yn fy rôl fel Prif Weithredwr, rwyf yn atebol i'r Cyngor am berfformiad y Tîm Gweithredol. Mae'r EMT yn gyfrifol am:

- gweithredu'r strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor
- cyllidebu a chynllunio busnes
- cyflwyno adroddiadau rheoli rheolaidd i'r Cyngor a sicrhau bod adroddiadau priodol yn cael eu cyflwyno i bwyllgorau'r Cyngor ar faterion o fewn eu cylchoedd gwaith
- adnabod ac adrodd ar risgiau strategol i'r Cyngor a sicrhau bod perchnogaeth o bob risg yn cael ei dyrannu i bobl ar y lefel iawn, gydag atebolrwydd clir.

Yn 2019 mae'r EMT wedi cyfarfod yn ffurfiol o leiaf unwaith y mis yng nghyd-destun Bwrdd yr Uwch-Dîm Arweinyddiaeth, ac yn fwy anffurfiol ac amlach, yng nghyd-destun gweithdai SLT. Mae'r SLT yn cynnwys uwch-benaethiaid gweithredol a strategol sy'n gyfrifol am roi cymorth i'r EMT gyda gwneud penderfyniadau ar weithredu'r strategaeth a chyflwyno adroddiadau rheoli rheolaidd. Mae'r SLT hefyd yn goruchwylio'r gofrestr risg weithredol fel y disgrifiwn yn y datganiad hwn. Mae'r SLT yn cynnwys Penaethiaid: Cyfathrebu ac Ymgysylltu; Rhaglen Polisi ac Ymchwil y GDC; Datblygu Sefydliadol a Chynhwysiant; Cynnydd Achosion Addasrwydd i Ymarfer; Gwrandawiadau Dyfarnu; Gweithgarwch Cofrestru; Cyllid a Chaffael; Llywodraethu; Gwasanaethau Pobl; Gwasanaeth Cyngor Cyfreithiol Mewnol; TG; Cofrestru.

Yn 2019 roedd cylchoedd gwaith y Cyfarwyddwyr Gweithredol fel a ganlyn:

### Cyfarwyddwr Gweithredol, Pontio Addasrwydd i Ymarfer: Tom Scott

Gweithredu canfyddiadau'r adolygiad dechrau i'r diwedd o FtP, gwaith achos, gwrandawiadau dyfarnu, addasrwydd i ymarfer, y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol.

### Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol: Sarah Keyes (o fis Hydref 2019)

Gwasanaethau Pobl, datblygu sefydliadol, amrywiaeth a chynhwysiant, datblygu pobl a chyfathrebu mewnol.

## Cyfarwyddwr Gweithredol, Cofrestru ac Adnoddau Corfforaethol: Gurvinder Soomal

Cofrestru, Gweithgareddau Cofrestru, Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyllid a Chaffael, Darparu Prosiectau, Cynllunio Busnes a PMO, TG, Rheoli Risg ac Archwilio Mewnol a Chyfleusterau.

## Cyfarwyddwr Gweithredol, Strategaeth: Stefan Czerniawski (o fis Hydref 2019)

Datblygu strategaeth a pholisi, ymgysylltu a chyfathrebu allanol, sicrhau ansawdd ymchwil ac addysg.

## Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyfreithiol a Llywodraethu: Lisa Marie Williams

Gwasanaethau cyfreithiol, llywodraethu gwybodaeth, llywodraethu.

Ar ôl dod â rôl y Prif Gynghorydd Cyfreithiol i ben yn Rhagfyr 2018, penderfynodd y Cyngor greu swydd newydd yn y Tîm Gweithredol i fod yn gyfrifol am wasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu. Roedd hyn yn rhyddhau rôl y Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol, i oruchwylio'r gwaith datblygu sefydliadol ehangach. Dechreuodd Lisa Marie Williams yn ei rôl fel Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyfreithiol a Llywodraethu, yn Rhagfyr 2018, gyda Sarah Keyes yn ymuno â'r GDC fel Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol, ym mis Hydref 2019.

## Gwybodaeth Reoli ac Adrodd ar Berfformiad

Yn 2019, disgrifiwyd ein hamcanion corfforaethol, strategol a rheoliadol ynghyd â'r adnoddau angenrheidiol, canlyniadau disgwyliedig, a ffactorau eraill sy'n cyfrannu at fodloni'r amcanion, mewn strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer 2020–22 a chynllun corfforaethol a gostiwyd tair blynedd. Ymgynghorwyd ar y cynlluniau hyn â'n rhanddeiliaid allweddol yn 2019 a chawsant eu cymeradwyo gan y Cyngor, ynghyd â gostyngiad i'r ffi gadw flynyddol, ym mis Hydref 2019.

Drwy'r flwyddyn, bu'r SLT a'r EMT yn monitro gwaith yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) drwy gerdyn sgorio cytbwys. Adroddwyd ar gynnydd i'r Cyngor a'r FPC bob chwarter. Adolygwyd hefyd statws Rhaglenni a Phrosiectau, ac ynghyd ag adrodd ar reoli risg, mae'r adroddiadau hyn wedi goleuo'r prosesau cynllunio busnes gweithredol.

## Diogelu Gwybodaeth a Thorri Rheolau Data

### Llywodraethu Gwybodaeth

Yn 2019 fe wnaethom barhau i ddatblygu a gwella ein fframwaith llywodraethu gwybodaeth, y ffordd y rheolwn a gwaredwn wybodaeth ynghyd ag adnabod ac ymateb i ddigwyddiadau gwarchod data a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf FOI) a Deddf Diogelu Data 2018 (y DPA).

Roedd gwelliannau sylweddol a gwblhawyd yn 2019 yn cynnwys adolygu'r cofnodion sy'n cael eu storio oddi ar y safle, gweithredu rhaglen cadw cofnodion y GDC, gweithredu polisi dileu / cadw e-byst i leihau e-byst a gedwir yn Outlook, a chreu polisi rheoli cofnodion.

Rydym wedi parhau i sicrhau bod ein staff newydd i gyd yn derbyn hyfforddiant ar y Ddeddf FOI, y DPA a gwarchod data fel rhan o'r rhaglen gynefino gorfforaethol a derbyniodd holl staff y GDC hyfforddiant gloywi diogelu data blynyddol.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom hefyd fesur ein perfformiad ac adolygu'r gwaith gwelliannau a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd archwiliad mewnol o raglen gydymffurfio GDPR y GDC yn rhoi sicrwydd sylweddol.

Fe wnaethom hefyd asesu ein fframwaith diogelwch a llywodraethu gwybodaeth yn defnyddio Pecyn Diogelu a Sicrwydd Data'r GIG, mesur gwrthrychol i gyd-fynd â safon ISO27001. Roedd gennym dystiolaeth o fodloni 106 o'r cyfanswm o 112 o feini prawf, a 51 o'r 55 o feini prawf gorfodol. Dyfeisiwyd y pecyn i gynorthwyo diogelu gwybodaeth yn y GIG ac nid yw'n gwbl gyfaddas ag anghenion y GDC. Er hynny, o ystyried gwerth y chwe maen prawf sy'n weddill, mae gweithredu i fodloni'r rhan fwyaf ohonynt wedi'i gynnwys yng nghynllun gwaith y tîm ar gyfer 2020 ac yn cynnwys: dadansoddiad o anghenion hyfforddiant gwarchod a diogelu data, defnyddio cytundeb wedi'i lofnodi ar gyfer holl weinyddwyr y systemau TG, cyflwyno polisi a chanllawiau i staff ar ansawdd data, cyhoeddi Asesiad ar-lein o'r Effaith ar Ddiogelu Data , adrodd yn rheolaidd ar gydymffurfio â meini prawf Pecyn y GIG i Gyfarwyddwyr Gweithredol y GDC a Phwyllgor Archwilio a Risg y GDC ac ystyried gwneud mwy o fonitro a 'hapwiriadau' bod staff yn cydymffurfio â chanllawiau diogelu data.

## Ceisiadau am wybodaeth

Yn 2019 derbyniwyd cyfanswm o 364 (305 yn 2018) o geisiadau am wybodaeth gorfforaethol o dan y Ddeddf FOI a gwybodaeth bersonol o dan y DPA (ceisiadau gwrthrych am ddata). Roedd y ceisiadau FOI gan amlaf yn rhai am wybodaeth ystadegol yn ymwneud â gwaith y GDC. Roedd cyfran fawr o'r ceisiadau gwrthrych am ddata gan bobl a fethodd yr Arholiad Cofrestru Tramor neu a oedd yn rhan o gŵyn addasrwydd i ymarfer yn gofyn am wybodaeth er mwyn gallu gwneud apêl neu hawliad preifat.

Fe wnaethom ymateb i 367 cais am wybodaeth (182 cais FOI (2018: 207) ac 185 cais gwrthrych am ddata (2018: 94)). Ymatebwyd i 98% o'r ceisiadau FOI (178) o fewn yr amserlen statudol (20 diwrnod gwaith) neu hawliwyd estyniad priodol er mwyn gallu gwneud prawf budd y cyhoedd. Ymatebwyd i 96% o'r ceisiadau gwrthrych am ddata (178) o fewn yr amserlen statudol (30 diwrnod calendr) neu hawliwyd estyniad priodol.

O'r 367 cais am wybodaeth y gwnaethom ymateb iddynt yn 2019, apeliwyd un ymateb FOI i'r Comisiynydd Gwybodaeth (sero yn 2018). Apeliwyd tri ymateb i geisiadau gwrthrych am ddata. Cadarnhawyd un o'r cwynion hyn, yn ymwneud ag oedi.

## Digwyddiadau gwarchod data

Yn 2019 rydym wedi parhau i gofnodi, rheoli ac adrodd yn ganolog ar ddigwyddiadau gwarchod data. Rydym wedi adrodd a chofnodi pryderon am ddefnyddio, mynediad at a dinistrio data personol gan y GDC, a thrydydd bartïon lle effeithir ar wybodaeth y GDC. Rydym nid yn unig wedi cofnodi achosion lle digwyddodd rhywbeth ond hefyd 'pethau a fu bron â digwydd' er mwyn gallu dysgu gwersi o hyn. Nid yw'r holl ddigwyddiadau gwarchod data a gofnodir yn torri rheolau data personol.

Yn 2019 cofnodwyd 114 digwyddiad Gwarchod Data, sy'n llai nag yn 2018 (142).

Lle cofnodwyd achosion o dorri data personol, sicrhawyd bod data a gollwyd neu a ddatgelwyd yn amhriodol drwy ddamwain neu gamgymeriad yn cael ei adfer, bod risgiau'n cael eu hasesu a derbyn ymateb a gwersi'n cael eu dysgu fel nad ydynt yn digwydd eto ac i wella ein gwasanaeth.

Ystyriwyd bod dau ddigwyddiad yn ddigon difrifol i gael eu hunan-adrodd i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Casglodd y Comisiynydd Gwybodaeth fod y fframwaith oedd gan y GDC eisoes yn ei le'n briodol, bod y digwyddiadau'n ymwneud â gwall dynol, ond er hynny roeddent yn croesawu'r gweithredu i ymateb iddynt a'r gwelliannau pellach a wnaed. Ar sail hynny, penderfynodd y Comisiynydd na ddylid cymryd unrhyw gamau gorfodaeth.

## Casgliad

Fel Swyddog Cyfrifyddu, ar ôl ystyried yr holl adroddiadau oedd ar gael i mi, gan gynnwys cyngor allanol, arhosaf yn ffyddiog bod system rheoli risg a mesurau rheoli mewnol y Cyngor yn effeithiol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol ac i barhau i ategu polisïau, nodau ac amcanion y GDC.

# 9 Adroddiad taliadau a staff

Archwilir elfennau ariannol yr adroddiad hwn gan yr archwilwyr allanol, haysmacintyre, a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO).

## Polisi Taliadau Aelodau'r Cyngor

Mae Polisi Taliadau Aelodau'r Cyngor yn cael ei adolygu bob dwy flynedd. Y tro diwethaf i'r polisi gael ei gytuno gan y Cyngor oedd yn Chwefror 2017, ac nid yw wedi newid ers hynny. Mae'r polisi ar y gweill i gael ei adolygu'n gynnar yn 2020 ar ôl cwblhau'r Adolygiad Effeithiolrwydd Bwrdd ehangach.

Mae tâl blynyddol y Cadeirydd yn cael ei benderfynu gan y Pwyllgor Taliadau ar sail y cyfraddau cyffredin am swyddi tebyg a faint o amser sydd ei angen i gyflawni'r rolau. Cafodd tâl y Cadeirydd ei bennu ddiwethaf gan y Pwyllgor Taliadau ym mis Hydref 2013, ar gyfradd o £55,000 y flwyddyn ar sail ymrwymiad o 2.5 diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd.

Mae aelodau'r Cyngor yn derbyn tâl blynyddol o £15,000 a bennwyd ddiwethaf ym mis Hydref 2013, ar sail ymrwymiad o 36 diwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae tâl ychwanegol blynyddol o £3,000 yn cael ei dalu i gadeiryddion y pwyllgorau.

## Polisi Taliadau'r Tîm Rheoli Gweithredol

Mae datblygiad cyflog i gyfarwyddwyr gweithredol yn dibynnu ar berfformiad yr unigolyn a meincnodau tâl allanol. Er mai'r Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu sy'n gwneud argymhellion ynghylch tâl cyfarwyddwyr gweithredol, y Pwyllgor Taliadau sy'n cymeradwyo unrhyw gynnydd mewn cyflog, neu mewn taliadau eraill.

Mae unrhyw gynnydd yng nghyflog y Prif Weithredwr (fel a phan y bo'n briodol) yn cael ei argymell gan Gadeirydd y Cyngor a'r Pwyllgor Taliadau, a'i gymeradwyo gan y Cyngor yn unol â'r polisi taliadau. Nid yw'r polisi ar dâl y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, a'r cyfarwyddwyr gweithredol, yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer taliadau perfformiad.

O dan gontract cyflogaeth y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, rhaid i unrhyw rybudd terfynu contract gan y cyflogai neu'r cyflogwr fod yn chwe mis. O dan gontractau'r cyfarwyddwyr gweithredol eraill, mae angen i'r cyflogai neu'r cyflogwr roi rhybudd o dri mis ar ôl y cyfnod prawf.

Mae'r holl gyfarwyddwyr gweithredol yn aelodau naill ai o ran buddion diffinedig cynllun pensiwn y GDC, neu o'r cynllun ymddiriedolaeth meistr.

## Polisi taliadau staff

Mae'r polisi taliadau staff yn cael ei ddatblygu gan y Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol, ar y cyd â'r Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, a'r cyfarwyddwyr gweithredol, cyn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Taliadau. Mae'r polisi'n cael ei ddatblygu drwy ystyried sefyllfa'r GDC i ddarparu fframwaith gwobrwyo fydd yn denu a chadw'r rheolwyr gorau fel bo'r GDC yn gallu cwrdd â'i flaenoriaethau strategol a chyflawni ei gylch gwaith a'i gyfrifoldebau statudol.

Ymrwymwn i'r egwyddor o dalu cyflogau cyfartal am waith o werth cyfartal i'n holl weithwyr gyda'r nod o sicrhau bod ein systemau tâl yn deg a diduedd. Mae gennym ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chynnal adolygiadau cyflog cyfartal i ddileu unrhyw fwlch cyflog na ellir ei egluro ar seiliau gwrthrychol, ac adroddwn ar hyn i'r cyhoedd bob blwyddyn.

## Ffioedd a threuliau Aelodau'r Cyngor

| | 2019 | | | | Ailddatgan 2018 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ffioedd £ 000 | Treuliau buddion digyflog £ 000 | Treth ac Yswiriant Gwladol £ 000 | Cyfanswm £ 000 | Ffioedd £ 000 | Treuliau buddion digyflog £ 000 | Treth ac Yswiriant Gwladol £ 000 | Cyfanswm £ 000 |
| William Moyes<br>Cadeirydd Cyngor Lleyg | 55 | 13 | 13 | 81 | 55 | 13 | 14 | 82 |
| Terry Babbs<br>Aelod Cyngor Lleyg | 18 | 1 | 1 | 20 | 18 | 1 | 1 | 20 |
| Catherine Brady<br>Aelod Cyngor Cofrestrai | 15 | 1 | 1 | 17 | 15 | 1 | 1 | 17 |
| Geraldine Campbell<br>Aelod Cyngor Lleyg | 18 | 5 | 2 | 25 | 18 | 5 | 2 | 25 |
| Anne Heal<br>Aelod Cyngor Lleyg | 15 | 1 | – | 16 | 15 | – | – | 15 |
| Jeyanthi John<br>Aelod Cyngor Cofrestrai | 15 | 1 | 1 | 17 | 15 | 2 | 2 | 19 |
| Margaret Kellett<br>Aelod Cyngor Cofrestrai | 15 | 2 | 1 | 18 | 15 | 4 | 3 | 22 |
| Sheila Kumar<br>Aelod Cyngor Lleyg | 15 | – | – | 15 | 15 | – | – | 15 |
| Caroline Logan<br>Aelod Cyngor Cofrestrai | 15 | 3 | 1 | 19 | 15 | 3 | 1 | 19 |
| Kirstie Moons<br>Aelod Cyngor Cofrestrai | 18 | 4 | 2 | 24 | 18 | 4 | 4 | 26 |
| Simon Morrow*<br>Aelod Cyngor Cofrestrai | 15 | 5 | 6 | 26 | 4 | 1 | – | 5 |
| Laurence Mudford**<br>Aelod Cyngor Cofrestrai | – | – | – | – | 11 | 2 | 2 | 15 |
| Crispin Passmore<br>Aelod Cyngor Lleyg | 18 | 1 | 1 | 20 | 18 | 1 | 1 | 20 |

* O 1 Hydref 2018

** Tan 30 Medi 2018

Mae ffigyrau 2018 wedi cael eu hail-ddatgan i ddiwygio'r datgeliad, i ddangos cyfanswm cost y rhwymedigaethau treth ac Yswiriant Gwladol a setlwyd ar ran Aelodau'r Cyngor gan y GDC o ran y buddion digyflog a roesom iddynt.

## Treuliau buddion digyflog

Mae gwerth ariannol y buddion digyflog yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gennym ni ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy. Roedd y taliadau uchod yn net o dreth ac mae'r symiau treth yn cael eu talu i Gyllid a Thollau EM. Roedd eitemau yn y categori hwn yn cynnwys costau teithio a wariwyd ar fusnes y Cyngor.

## Taliadau'r Tîm Rheoli Gweithredol

Rhoddir manylion y taliadau a ddatgelwyd ar gyfer y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu yn llawn isod. Mae'r tabl hefyd yn datgelu enillion trethadwy, taliadau eraill (ac eithrio unrhyw daliadau iawndal lle'r oeddent yn ddyledus) a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr, mewn bandiau cyflog ar gyfer aelodau eraill o'r Tîm Rheoli Gweithredol yn 2019.

| | 2019 | | | | 2018 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog £ 000 | Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr £ 000 | Bonws £ 000 | Cyfanswm £ 000 | Cyflog £ 000 | Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr £ 000 | Bonws £ 000 | Cyfanswm £ 000 |
| Ian Brack<br>Prif Weithredwr<br>a Chofrestrydd | 140–145 | 13 | – | 150–155 | 140–145 | 14 | – | 150–155 |
| Stefan Czerniawski*<br>Cyfarwyddwr Gweithredol<br>– Strategaeth<br>(Cyfwerth â blwyddyn lawn) | 25–30<br>(115–120) | 1<br>(7) | – | 25–30<br>(125–130) | – | – | – | – |
| Roberta Davis**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol –<br>Datblygu Sefydliadol<br>(Cyfwerth â blwyddyn lawn) | 65–70<br>(120–125) | 6<br>(12) | – | 70–75<br>(130–135) | 120–125 | 11 | – | 130–135 |
| Matthew Hill***<br>Cyfarwyddwr Gweithredol<br>– Strategaeth<br>(Cyfwerth â blwyddyn lawn) | 75–80<br>(120–125) | 4<br>(7) | – | 80–85<br>(125–130) | 120–125 | 7 | – | 130–135 |
| Sarah Keyes****<br>Cyfarwyddwr Gweithredol –<br>Datblygu Sefydliadol<br>(Cyfwerth â blwyddyn lawn) | 25–30<br>(115–120) | 3<br>(12) | – | 30–35<br>(130–135) | – | – | – | – |
| Thomas Scott<br>Cyfarwyddwr Gweithredol –<br>Pontio Addasrwydd i Ymarfer | 120–125 | 12 | – | 135–140 | 110–115 | 12 | – | 120–125 |
| Gurvinder Soomal<br>Cyfarwyddwr Gweithredol –<br>Cofrestru ac Adnoddau<br>Corfforaethol | 120–125 | 30 | – | 150–155 | 120–125 | 27 | – | 150–155 |
| Lisa Marie Williams<br>Cyfarwyddwr Gweithredol –<br>Cyfreithiol a Llywodraethu | 110–115 | 11 | 0–5 | 125–130 | – | – | – | – |

* O 14 Hydref 2019

** Tan 28 Mehefin 2019

*** Tan 19 Awst 2019

**** O 1 Hydref 2019

Mae Ian Brack yn bersonol wedi dewis peidio â derbyn unrhyw godiadau cyflog ers 2016. Y cyflog ar gyfer rôl y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, pe bai dyfarniadau cyflog wedi eu cymhwyso ar sail cyfradd marchnad y raddfa gyflog, yw £160–£165,000. (2018: £155–£160,000).

Ni dderbyniodd yr un o'r Tîm Rheoli Gweithredol unrhyw fonws perfformiad na buddion digyflog trethadwy yn 2019. Mae'r bonws perfformiad a ddyfarnwyd i Lisa Marie Williams yn 2019 yn ymwneud â'i pherfformiad yn y flwyddyn ariannol flaenorol fel Prif Gynghorydd Cyfreithiol.

## Lluosrifau cyflog

Roedd band tâl y cyfarwyddwr oedd yn cael ei dalu fwyaf yn 2019, sef y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, yn £140–145,000 (2018: £140–145,000). Roedd hyn 3.6 gwaith (2018: 3.75 gwaith) yn fwy na thâl canolrifol y gweithlu sef £38,987 (2018: £36,418).

Yn 2019, ni dderbyniodd yr un gweithiwr dâl oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr oedd yn cael ei dalu fwyaf (2018: 0). Roedd y taliadau'n amrywio rhwng £15–£125,000 (2018: £15–£119,000).

Mae'r cyfanswm taliadau yn cynnwys cyflog, lwfansau, bonysau perfformiad a buddion digyflog. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo na chyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

## Pensiynau

Cynllun pensiwn cyfraniadau diffinedig drwy ymddiriedolaeth gan The People's Pension yw ein prif gynllun pensiwn, sy'n gwneud mwy na bodloni'r gofynion awto-gofrestru. Mae gweithwyr yn cyfrannu 3% o'u cyflog ac mae'r GDC yn cyfrannu 6% (2018: 6%). Mae'r GDC yn cyfrannu'r un faint ag unrhyw gyfraniad ychwanegol gan y gweithiwr hyd at uchafswm cyfraniad cyflogwr o 10%. Ar 31 Rhagfyr 2019 roedd 280 o weithwyr (81%) yn aelodau o'r cynllun cyfraniadau diffinedig drwy ymddiriedolaeth (31 Rhagfyr 2018: 61, 16%). Ym Mehefin 2019 caewyd ein cynllun cyfraniadau diffinedig adran 2014 a throsglwyddwyd yr holl aelodau gweithredol i'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffinedig drwy ymddiriedolaeth. Ar 31 Rhagfyr 2018 roedd 202 o weithwyr (54%) wedi bod yn aelodau o'r cynllun hwn.

Roedd gweithwyr a ymunodd â'r GDC cyn Ionawr 2015 yn gallu ymuno â chynllun pensiwn buddion diffinedig. Caewyd y cynllun i weithwyr a ymunodd ar ôl 1 Ionawr 2015. Mae aelodau o'r cynllun buddion diffinedig yn cyfrannu 8% o'u cyflog. Roedd cyfraniad y cyflogwr yn 2019 yn 18% tan 31 Mawrth 2019 ac yn 20.3% o 1 Ebrill 2019 ymlaen (2018: 18%), fel y penderfynwyd gan actiwari'r cynllun. Ar 31 Rhagfyr 2019 roedd 45 o weithwyr (13%) yn aelodau o'r cynllun buddion diffinedig (31 Rhagfyr 2018: 71, 19%).

Rhoddir mwy o wybodaeth am dâl a phensiynau yn nodyn 3 a nodyn 16 i'r Cyfrifon.

## Adroddiad staff

### Niferoedd staff a manylion enillion

Y nifer gyfartalog o weithwyr cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys y cyfarwyddwyr gweithredol, yn ystod y flwyddyn ac yn ôl swyddogaeth oedd:

| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | 2019 Cyfanswm | 2018 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwrandawiadau ac Addasrwydd i Ymarfer | 91.8 | 14.6 | 106.4 | 116.4 |
| Cofrestru | 53.5 | 4.3 | 57.8 | 60.5 |
| Datblygu Sefydliadol | 18.7 | 3.8 | 22.5 | 18.3 |
| Cyfreithiol a Llywodraethu | 60.0 | 13.5 | 73.5 | 67.2 |
| Strategaeth | 32.1 | 4.1 | 36.2 | 32.7 |
| Adnoddau Corfforaethol | 59.7 | 8.7 | 68.4 | 62.5 |
| **Cyfanswm** | **315.8** | **49.0** | **364.8** | **357.6** |

Mae niferoedd 2018 wedi eu hail-ddatgan yn dilyn ailstrwythuro cyfarwyddiaethau'n fewnol. Mae hyn wedi trosglwyddo'r Tîm Cyfleusterau o Datblygu Sefydliadol i Adnoddau Corfforaethol gan greu cyfarwyddiaeth newydd ar gyfer ein swyddogaeth Cyfreithiol a Llywodraethu. Nid yw cyfanswm y staff yn y flwyddyn flaenorol wedi newid.

## Cyfansoddiad y staff

Mae menywod yn cyfrif am 58% o'r gweithlu (2018: 60%). Mae pobl 50+ oed yn cyfrif am 18% o'r gweithlu (2018: 18.5%).

Dengys y data sydd gennym fod 52% (2018: 47%) o'n staff o gefndir gwyn a 30% (2018: 29%) o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Nid oes gennym ddata am weddill y 18% (2018: 24%) oherwydd mae staff yn gyfrifol am lenwi eu data cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain drwy'r gronfa ddata Adnoddau Dynol ar-lein, ac nid yw'n orfodol gwneud hynny.

## Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn Ebrill 2019 (dyddiad ciplun Ebrill 2018) ar gyfartaledd yn 13.21% (canolrif 18.4%) o blaid dynion. Nid yw'r GDC yn talu bonysau ond mae ein taliadau cydnabyddiaeth, er enghraifft, yn cael eu categoreiddio fel bonysau i bwrpas adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018 derbyniodd 7.73% o fenywod a 8.4% o ddynion y taliadau hyn. Ar gyfartaledd, mae'r taliadau bonws 18.32% (canolrif 17.9%) yn fwy i fenywod nag i ddynion.

## Absenoldeb gweithwyr

Anogwn ddiwylliant lle mae presenoldeb da'n cael ei ddisgwyl a'i werthfawrogi. Fodd bynnag rydym yn cydnabod, o dro i dro, na ellir osgoi absenoldebau am resymau meddygol.

Ein nod yw trin staff sy'n sâl gyda chydymdeimlad a thegwch, a lle bo hynny'n bosib, drwy roi cymorth i'w helpu i adfer eu hiechyd a mynychu'r gwaith yn rheolaidd. Dibynnwn ar ymyrraeth gynnar ein rheolwyr llinell i gynnal cyfweliad dychwelyd i weithio ar ôl pob cyfnod o absenoldeb er mwyn lliniaru effaith a rheoli hyn yn effeithiol. Mae'r systemau a ddefnyddir gan reolwyr llinell i helpu i adnabod pan gyrhaeddir pwyntiau ysgogi, ac ystyried a oes angen cymorth neu weithredu pellach, yn cael eu hadolygu fel rhan o'r prosiect systemau Adnoddau Dynol.

Collwyd cyfanswm o 2,702 diwrnod i salwch yn 2019 (2018: 3,230 diwrnod). Mae hyn yn lleihad o 16.4% mewn absenoldeb salwch. Ar gyfartaledd collwyd 7.4 diwrnod oherwydd salwch am bob gweithiwr yn 2019 (2018: 8.6 am bob gweithiwr). Yn ôl Adroddiad Arolwg Iechyd a Lles y CIPD ar gyfer 2019, yr absenoldeb cyfartalog yn y sector cyhoeddus yw 8.4 diwrnod y flwyddyn am bob gweithiwr.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu cyfle cyfartal i bawb ac i sicrhau bod ein gweithlu mor amrywiol a chynhwysol â'r cymunedau a gynrychiolwn. Mae ein penderfyniadau recriwtio, hyfforddi, dyrchafu staff a chyfleoedd mewnol ac allanol yn seiliedig ar allu, cymhwysedd a photensial.

Yn Chwefror 2019 llofnododd y GDC yr adduned Iechyd Meddwl 'Amser i Newid' gan hefyd gofrestru a hyfforddi nifer o weithwyr cymorth cyntaf iechyd meddwl. Rydym yn meithrin amgylchedd sy'n cynnal a choleddu staff ac mae lansio'r prosiect 'SELF' wedi cyflwyno gwybodaeth ac adnoddau i gynorthwyo lles personol cydweithwyr GDC drwy amrywiaeth o ddeunyddiau cyfathrebu.

Ein huchelgais ar gyfer 2020 fydd cefnogi arweinwyr ar bob lefel yn y sefydliad i greu amgylchedd yn y GDC sy'n annog y perfformiad, ymgysylltu a'r arloesi gorau drwy fod yn gynhwysol a grymuso pobl i fod yn rhydd i weithio o fewn fframweithiau clir er mwyn gallu bod y gorau y medrant fod yn y gwaith. Byddwn yn cefnogi uwch-arweinwyr i ddatblygu diwylliant cynhwysol.

Gyda golwg ar wreiddio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) fel mater o fusnes fel arfer, mae'r gwaith cychwynnol wedi canolbwyntio ar barhau i sefydlu Strategaeth EDI newydd yn unol â'n Cynllun Corfforaethol a Gostiwyd 2020–22 a'n prosesau rheoleiddio addas a chymesur. Byddwn yn lansio pencampwyr EDI yn gynnar yn 2020. Drwy gydol 2020, byddwn hefyd yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd.

## Ymgysylltiad staff

Mae gennym fforwm staff a gyfarfu chwe gwaith yn 2019. Cadeiriwyd y fforwm gan y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu ac roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol hefyd yn bresennol. Mae'r fforwm yn cynrychioli holl dimau'r GDC ac yn trafod ystod o faterion staff gan gynnwys adolygu polisïau Gwasanaethau Pobl a chyflwyno unrhyw bolisïau newydd.

Ar ddechrau 2019 chwaraeodd y fforwm rôl allweddol yn y broses gyfunol o ymgynghori ar ddileu swyddi'n deillio o'r Strategaeth Ystadau – y gwaith a wnaeth y GDC i sefydlu ein swyddfeydd gweithredol yn Birmingham. Pan ddaeth y gwaith hwnnw i ben, dechreuwyd ar y gwaith o sefydlu fforwm a fyddai'n gyfrifol am ddosbarthiad staff ar draws Llundain a Birmingham. Bydd y gwaith o greu fforwm staff fydd yn gallu trafod materion lleol a chyfunol yn effeithiol yn parhau yn 2020.

Fe wnaethom gyflawni'r ymrwymiad a wnaethom yn 2018 i gynnal arolwg eang o foddhad staff. Roedd y gyfradd ymateb i'r arolwg yn 61%. Cafodd themâu allweddol eu hadnabod a drafodwyd, yn eu tro, gan nifer o grwpiau ffocws staff. Mae'r wybodaeth o'r arolwg a'r grwpiau ffocws wedi arwain at nodi nifer o gamau gweithredu allweddol. Bydd y gweithredu yma'n parhau yn 2020. Wrth symud ymlaen, rydym yn ymrwymedig i arolygu'n fwy hyblyg a phwrpasol drwy gynnal nifer o arolygon bach mwy cyson ar bynciau neilltuol. Y nod fydd casglu data perthnasol a chynrychiadol fel y gallwn weithredu'n syth – heb oedi – ar y wybodaeth gan ein staff.

Defnyddiwyd sesiynau briffio staff i rannu negeseuon am waith sefydliadol pwysig fel llofnodi'r addewid Amser i Newid. Cynhaliwyd digwyddiadau staff hefyd yn Birmingham a Llundain (i nodi blwyddyn o fod yn Colmore Square yn y naill achos, a chwblhau'r ailddatblygiad yn Wimpole Street yn y llall). Mae'r lle swyddfa ychwanegol a chydweithredol yn Birmingham wedi cynorthwyo staff i fabwysiadu dull hyblyg o gyfarfod a chydweithio. Cynhaliwyd sesiynau diweddaru cyson ac anffurfiol fel ffordd effeithiol o siarad â grwpiau mawr o staff mewn gofod hamddenol.

Mae cylchlythyr newyddion mewnol yn diweddaru staff gyda chyfathrebiadau arbennig – drwy e-bost a'r fewnrwyd – ar bynciau neilltuol pan fo angen. Anfonwyd ebyst yn ddiweddar ar gynnydd y Strategaeth Ystadau, yn fisol i ddechrau ac yna'n wythnosol wrth i'r gwaith ddwysáu.

## Iechyd a Diogelwch yn y gwaith

Hyrwyddwn amgylchedd iach a rhydd o niwed i'n holl staff ac ymwelwyr. Mae iechyd a diogelwch yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Tîm Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

Yn ystod y flwyddyn nid oedd unrhyw ddigwyddiad mawr (2018: dim) ac wyth mân ddigwyddiad ar draws y ddau safle (2018: 6); roedd un o'r rhain yn achos o salwch.

Rydym yn ymrwymedig i les ein staff ac anogwn hunanofal. Mae iechyd meddwl a lles yn ffocws allweddol o hyd gyda 13 o'n staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol i fod yn weithwyr cymorth cyntaf iechyd meddwl. Yn ystod y flwyddyn sefydlwyd trefniadau newydd ar gyfer Rhaglen Cymorth Gweithwyr sydd wedi'i chyfathrebu'n weithredol i'r staff.

## Gwariant ar ymgynghorwyr

Ni ddefnyddiwn ymgynghorwyr i lenwi swyddi gweithwyr parhaol. Mae swyddi'r holl staff wedi eu llenwi naill ai gan weithwyr parhaol, cyfnod penodol neu ar secondiad, neu (ar gyfer anghenion tymor byr) gan weithwyr o asiantaethau cyflogaeth.

## Iawndal am golli swydd

Gadawodd 83 o staff o dan delerau diswyddo gorfodol yn 2019. Talwyd pecynnau iawndal gwerth rhwng £4,952 a £49,554 iddynt.

| Cost bandiau gadael | 2019<br>Staff yn<br>gadael yn orfodol | 2018<br>Staff yn<br>gadael yn orfodol |
|---|---|---|
| <£10,000 | 42 | 18 |
| £10,000–£25,000 | 31 | 9 |
| £25,000–£50,000 | 10 | 3 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau gadael | 83 | 30 |
| **Cyfanswm cost /£** | **1,145,404** | **358,362** |

**Ian Brack**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
a Swyddog Cyfrifyddu

3 Mehefin 2020

# 10 Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

## Barn am y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019 o dan Ddeddf Deintyddion 1984. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a ddisgrifir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw i fod wedi cael ei harchwilio.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar 31 Rhagfyr 2019, ac o'r gwarged am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a Dyfarniad y Cyfrin Gyngor a wnaed o dan y Ddeddf.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob cyswllt o bwys, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r pwrpasau y cawsant eu bwriadu ar eu cyfer gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail fy marn

Rwyf wedi cyflawni fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA) (yn y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn ymhellach yn yr adran yn fy nhystysgrif ar gyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol. O dan y safonau hynny, rhaid i mi a fy staff gydymffurfio â Safon Moesegol Diwygiedig 2016 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol o'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn unol

â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad a datganiadau ariannol yn y DU. Rwyf i a fy staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol a phriodol i roi sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol sy'n ofynnol i mi adrodd i chi arnynt o dan safonau ISA (y DU) lle:

- mae defnydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o'r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn amhriodol; neu
- nad yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd pwysig a allai daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fwy manwl yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr, y Cyngor a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun gwir a theg.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd i archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Deintyddion 1984.

Mae archwiliad yn cynnwys cael gafael ar dystiolaeth foddhaol ar y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiad pwysig, p'un ai drwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu'n llwyr fod archwiliad a wnaed yn unol â safonau ISA (y DU) yn gallu canfod camddatganiad pwysig bob tro. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn bwysig neu'n sylweddol os gellir disgwyl yn rhesymol i'r camddatganiadau, yn unigol neu'n gyfunol, ddylanwadu ar y penderfyniadau economaidd a wnaed gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â safonau ISA (y DU), rwyf yn ymarfer crebwyll a barn broffesiynol ac yn cadw lefel broffesiynol o amheuaeth drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd:

- yn nodi ac asesu unrhyw risg o gamddatganiad pwysig yn y datganiadau ariannol, p'un ai drwy dwyll neu wall, yn cynllunio a chyflawni gweithdrefnau archwilio i ymateb i'r risgiau hynny ac yn casglu tystiolaeth archwilio ddigonol a phriodol i roi sail ar gyfer fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad pwysig drwy dwyll yn uwch nag un drwy wall, oherwydd gall twyll gynnwys cyd-gynllwynio, ffugio, hepgor yn fwriadol, camliwio neu ddiystyru rheolaeth fewnol.
- yn ennill dealltwriaeth o'r mesurau rheoli mewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio priodol i'r amgylchiadau, ond nid i'r pwrpas o fynegi barn am ba mor effeithiol yw mesurau rheoli mewnol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.
- yn gwerthuso pa mor briodol yw'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a pha mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu a'r datganiadau cysylltiedig a wnaed gan reolwyr.
- yn gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol yn gyffredinol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn cyflwyno'r trafodion a'r digwyddiadau cysylltiedig mewn ffordd sy'n eu cyfleu'n deg.
- yn dod i gasgliad ynghylch pa mor briodol oedd defnydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o'r sail busnes hyfyw ac, ar sail y dystiolaeth archwilio, ynghylch a oes unrhyw ansicrwydd pwysig yn codi gyda'r digwyddiadau neu'r amodau a allai daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i barhau fel busnes hyfyw. Os casglaf fod ansicrwydd pwysig yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw yn fy adroddiad at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol, neu os yw'r datganiadau hynny'n anfoddhaol, mae'n ofynnol i mi addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau'n seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniais hyd at ddyddiad fy adroddiad. Fodd bynnag, gallai digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol beidio â pharhau fel busnes hyfyw.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, ymhlith pethau eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a'r canfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffyg sylweddol yn y rheolaeth fewnol yr wyf yn ei ganfod yn ystod fy archwiliad.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i mi gael gafael ar dystiolaeth foddhaol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r pwrpasau y cawsant eu bwriadu gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Gwybodaeth Arall

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, ar wahân i'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw i fod wedi cael eu harchwilio, y datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw gasgliad sicrwydd arni. Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, rwyf yn gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, am ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'r wybodaeth a gefais drwy'r archwiliad, neu a yw'n ymddangos i fod yn gam-ddatganiad pwysig fel arall. Os wyf yn casglu, ar sail fy ngwaith, bod y wybodaeth yma yn gam-ddatganiad pwysig, mae'n ofynnol i mi adrodd hynny. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Dyfarniad y Cyfrin Gyngor o dan Ddeddf Deintyddion 1984;
- yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'i amgylchedd a enillwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau pwysig yn yr Adroddiad Blynyddol; a
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr adroddaf arnynt fel eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol y byddwn yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw neu ni dderbyniwyd ffurflenni blynyddol digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na chawsant ymweliad gan fy staff; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni blynyddol; neu
- ni dderbyniais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylw i'w wneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddiol. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn.

**Gareth Davies**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SP

10 Mehefin 2020

# 11 Adroddiad yr archwilydd annibynnol

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ("y Cyngor") am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019 sy'n cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau archwilio allweddol. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol ynghyd â'r Safonau Rhyngwladol ar Adrodd Ariannol (IFRS) a ddefnyddir gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar 31 Rhagfyr 2019, ac o'r gwarged am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau IFRS a ddefnyddir gan yr Undeb Ewropeaidd; a
- wedi eu paratoi'n unol â gofynion Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf gan y Cyfrin Gyngor.

## Sail ein barn

Rydym wedi cyflawni ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) safonau ISA (y DU) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hyn ymhellach yn yr adran yn ein hadroddiad ar gyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol o'r Cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a phriodol i roi sail ar gyfer ein barn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol sy'n ofynnol i ni adrodd i chi arnynt o dan safonau ISA (y DU) lle:

- mae defnydd Aelodau'r Cyngor o'r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn amhriodol; neu
- nid yw Aelodau'r Cyngor wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd pwysig a allai daflu amheuaeth sylweddol dros allu'r Cyngor i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad pryd yr awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cyngor sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd arnynt. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn ymwneud â'r wybodaeth arall a, heblaw am yr hyn a fynegwn yn benodol yn ein hadroddiad, ni fynegwn unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

Yng nghyswllt archwilio'r datganiadau ariannol, rydym yn gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, am ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r archwiliad, neu a yw'n ymddangos i fod yn gam-ddatganiad pwysig fel arall. Os gwelwn unrhyw anghysondeb pwysig o'r fath neu rywbeth sy'n ymddangos i fod yn gam-ddatganiad pwysig, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes cam-ddatganiad pwysig yn y datganiadau ariannol neu gam-ddatganiad pwysig o'r wybodaeth arall. Os casglwn, ar sail y gwaith a wnaethom, fod y wybodaeth arall yma'n gam-ddatganiad pwysig, mae'n ofynnol i ni adrodd hynny. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Cyngor a'i amgylchedd a enillwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi canfod unrhyw gam-ddatganiadau pwysig yn yr adroddiad blynyddol.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol y byddem yn ei adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw gan y Cyngor neu ni dderbyniwyd ffurflenni blynyddol digonol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau na chawsant ymweliad gennym; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni blynyddol; neu
- ni chafodd daliadau eu datgelu sy'n gyfreithiol ofynnol eu datgelu; neu
- ni wnaethom dderbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau oedd eu hangen i wneud ein harchwiliad.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr

Fel yr eglurir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, y Cyngor a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y rheolaeth fewnol a ystyrir yn angenrheidiol gan Aelodau'r Cyngor i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad pwysig, boed oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion yn ymwneud â busnes hyfyw a gan ddefnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai bod Aelodau'r Cyngor naill ai'n bwriadu diddymu'r Cyngor neu roi'r gorau i weithredu, neu fod â dim dewis realistig amgen heblaw gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd i archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw ennill sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gam-ddatganiad pwysig, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu'n llwyr fod archwiliad a wnaed yn unol â safonau ISA (y DU) yn gallu canfod cam-ddatganiad pwysig bob tro. Gall cam-ddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn bwysig neu'n sylweddol os gellir disgwyl yn rhesymol i'r cam-ddatganiadau, yn unigol neu'n gyfunol, ddylanwadu ar y penderfyniadau economaidd a wnaed gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rhoddir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau i archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilio.

## Defnyddio ein hadroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn i Aelodau'r Cyngor, fel corff, yn unig ac yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau o dan y Ddeddf a wneir gan y Cyfrin Gyngor. Mae ein gwaith archwilio wedi'i gyflawni fel y gallwn ddatgan i Aelodau'r Cyngor y materion hynny sy'n ofynnol i ni eu datgan mewn adroddiad Archwilio ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, ni dderbyniwn ac ni honnwn unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r Cyngor ac Aelodau'r Cyngor fel corff, dros ein gwaith archwilio, dros yr adroddiad hwn na thros y farn a luniwyd gennym.

**Haysmacintyre LLP**
**Archwilwyr Statudol**
10 Queen Street Place
Llundain EC4R 1AG

04 Mehefin 2020

# 12 Cyfrifon

## Cyfrif Incwm a Gwariant

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar
31 Rhagfyr 2019

| | Nodyn | 2019 £000 | 2018 £000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Ffioedd | 2 | 45,984 | 45,416 |
| Arholiad Cofrestru Tramor | 2 | 1,592 | 1,588 |
| Amrywiol | 2 | 19 | 14 |
| **Cyfanswm Incwm Gweithredu** | | **47,595** | **47,018** |
| | | | |
| **Gwariant** | | | |
| Costau Staff | 3 | 18,654 | 22,534 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 4 | 6,762 | 6,798 |
| Cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgorau | 5 | 5,669 | 5,673 |
| Gweinyddu | 6 | 3,900 | 3,727 |
| Swyddfeydd | 6 | 1,176 | 906 |
| Cyfathrebu a Chyhoeddiadau | 6 | 474 | 345 |
| **Cyfanswm Gwariant Gweithredu** | | **36,635** | **39,983** |
| **Gwarged ar ôl gwariant gweithredu** | | **10,960** | **7,035** |
| | | | |
| Addasiad i gostau nawdd cymdeithasol a threth | | 107 | – |
| Incwm buddsoddi | 2 | 516 | 311 |
| Enillion a wireddwyd / (colledion) o werthu buddsoddiadau | 10 | 59 | (17) |
| Enillion na wireddwyd / (colledion) fuddsoddiadau | 10 | 2,080 | (1,056) |
| **Gwarged am y flwyddyn ar ôl incwm buddsoddi ac addasiad** | | **13,722** | **6,273** |
| | | | |
| Treth | 7 | (273) | (8) |
| **Gwarged wedi'i gadw ar ôl treth** | | **13,449** | **6,265** |
| | | | |
| **Incwm sylweddol arall** | | | |
| **Eitemau heb eu hailddosbarthu** | | | |
| Enillion / (colledion) actiwaraidd ar asedau cynllun pensiwn | 16 | 323 | 489 |
| **Cyfanswm incwm sylweddol arall / (gwariant)** | | **323** | **489** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr / (gwariant) am y flwyddyn** | | **13,772** | **6,754** |

Yr holl incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau sy'n parhau.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 55 i 75 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Rhagfyr 2019

| | Nodyn | 2019<br>£000 | 2018<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | 17,984 | 11,699 |
| Asedau anniriaethol | 9 | 154 | 213 |
| Asedau ariannol ar sail gwerth teg drwy elw neu golled | 10 | 17,530 | 14,315 |
| Derbyniadau masnachol ac eraill | 11 | – | – |
| Darparu ar gyfer pensiynau | 16 | 5,813 | 3,930 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | **41,481** | **30,157** |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Derbyniadau masnachol ac eraill | 11 | 1,142 | 1,795 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 12 | 40,255 | 42,344 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **41,397** | **44,139** |
| **Cyfanswm asedau** | | **82,878** | **74,296** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy masnachol ac eraill | 13 | 3,779 | 6,679 |
| Rhwymedigaethau eraill | 13 | – | 77 |
| Incwm a ohiriwyd | 13 | 33,605 | 41,714 |
| Darpariaethau | 15 | 212 | 1,011 |
| Treth gorfforaethol | | – | 4 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **37,596** | **49,485** |
| **Asedau anghyfredol a / llai asedau / rhwymedigaethau** | | **45,282** | **24,811** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau taladwy eraill | 13 | 6,425 | – |
| Treth a ohiriwyd | 13 | 420 | 146 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **6,845** | **146** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **38,437** | **24,665** |
| | | | |
| **Cronfeydd Wrth Gefn** | | | |
| Y Gronfa Gyffredinol | | 30,716 | 20,907 |
| Y Gronfa Bensiwn | | 5,813 | 3,930 |
| Cronfa enillion na wireddwyd o fuddsoddi | | 1,908 | (172) |
| **Cyfanswm Cronfeydd** | | **38,437** | **24,665** |

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Aelodau'r Cyngor ar 3 Mehefin 2020 a'u llofnodi ar eu rhan gan:

**Ian Brack**
Cadeirydd

**William Moyes**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Mae'r nodiadau ar dudalennau 55 i 75 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad Llif Arian

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019

| | Nodyn | 2019<br>£000 | 2018<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged / (diffyg) o weithgareddau gweithredu | I&E | 10,960 | 7,035 |
| Addasiad i gostau nawdd cymdeithasol a threth | I&E | 107 | – |
| Dibrisio ac amorteiddio | | 1,593 | 1,061 |
| Colled o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | | (3) | (4) |
| Lleihad yn y derbyniadau masnachol ac eraill | 11 | 652 | 547 |
| Cynnydd / (lleihad) mewn symiau taladwy masnachol a rhwymedigaethau eraill | 13 | (4,391) | 3,699 |
| Symudiadau yn y gronfa bensiwn | 16 | (1,560) | (1,941) |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 15 | (798) | 1,011 |
| **(All-lif) / mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **6,560** | **11,408** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | (1,014) | (2,626) |
| Prynu asedau anniriaethol | 9 | (77) | – |
| Elw o werthu asedau | | 3 | 5 |
| Elw o werthu asedau | 10 | 1,177 | 490 |
| Prynu asedau ariannol | 10 | (2,253) | (14,930) |
| Incwm o fuddsoddi | 2 | 516 | 311 |
| Treth | 7 | (273) | (20) |
| **(All-lif) / mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,921)** | **(16,770)** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Elfen gyfalaf rhwymedigaethau prydles | 17 | (6,727) | – |
| **(All-lif) / mewnlif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **(6,727)** | **–** |
| | | | |
| **Cynnydd net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod dros y cyfnod** | **(2,088)** | **(5,362)** | |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | 12 | **42,343** | **47,705** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 12 | **40,255** | **42,343** |
| | | | |
| **Cynnydd / (lleihad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | | **(2,088)** | **(5,362)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 55 i 75 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019

| | | 2019 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol | Y Gronfa Bensiwn | Enillion na wireddwyd o fuddsoddi | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2017** | | **15,527** | **1,500** | **884** | **17,911** |
| **Newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn yn 2018** | | | | | |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | I&E | 6,754 | – | – | 6,754 |
| Colled actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | 16 | (489) | 489 | – | – |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | | (1,941) | 1,941 | – | – |
| Colled na wireddwyd o fuddsoddi | 10 | 1,056 | – | (1,056) | – |
| | | **5,380** | **2,430** | **(1,056)** | **6,754** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2018** | | **20,907** | **3,930** | **(172)** | **24,665** |
| **Newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn yn 2019** | | | | | |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | I&E | 13,772 | – | – | 13,772 |
| Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | 16 | (323) | 323 | – | – |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | | (1,560) | 1,560 | – | – |
| Enillion na wireddwyd o fuddsoddi | 10 | (2,080) | – | 2,080 | – |
| | | **9,809** | **1,883** | **2,080** | **13,772** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2019** | | **30,716** | **5,813** | **1,908** | **38,437** |

O'r £30.7m yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol:

- mae £18.1m (2018: £11.9m) yn wariant wedi'i ymrwymo eisoes sef cost asedau anghyfredol a ddibrisiwyd o fuddsoddiadau cyfalaf y flwyddyn flaenorol, a chost dirwyn prydlesi swyddfeydd i ben
- mae £12.6m (2018: £9.0m) yn gronfeydd rhydd.

Mae cronfeydd wrth gefn rhydd ar ddiwedd 2019 yn cyfateb i 3.7 mis o wariant gweithredu blynyddol, sy'n gyson â'n Polisi Cronfeydd Wrth Gefn. Mae tudalen 26 o'r adroddiad hwn yn disgrifio ein Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a sut y mae'r Cyngor yn rheoli lefel y cronfeydd wrth gefn rhydd fel nad yw ein solfedd yn y fantol.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 55 i 75 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# 13 Nodiadau i'r cyfrifon

## 1 POLISÏAU CYFRIFYDDU

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail 'busnes hyfyw' o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi eu haddasu drwy gynnwys buddsoddiadau ar sail eu gwerth marchnadol, yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Adrodd Ariannol (IFRS) a ddefnyddir gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) a thrwy ystyried egwyddorion cyfrifyddu a datgeliadau Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM). Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd i baratoi'r datganiadau ariannol, ac sydd wedi eu cymhwyso'n gyson, wedi eu disgrifio isod.

Sefydlwyd y GDC gan Ddeddf Seneddol yn 1956 ac fe'i lleolir yn y Deyrnas Unedig. Ei brif swyddfa fusnes yw 37 Wimpole St, Llundain W1G 8DQ.

Cyflwynir y datganiadau ariannol yn ein harian cyfred arferol sef punnoedd sterling.

### 1.1 FFORMAT Y CYFRIFON

Mae'n ofynnol i ni baratoi ein cyfrifon blynyddol ar ffurf a benderfynir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyfrin Gyngor gyflwyno'r cyfrifon ardystiedig gerbron dau Dŷ'r Senedd a gerbron Senedd yr Alban. Disgrifir pwrpas statudol y GDC yng nghyflwyniad yr adroddiad ar y cyfrifon.

### 1.2 MABWYSIADU SAFONAU CYFRIFYDDU NEWYDD A DIWYGIEDIG

Mabwysiadwyd y safonau a'r dehongliadau canlynol dros y cyfnod cyfredol: mae 'Prydlesi' IFRS 16 yn disodli 'Prydlesi' IAS 17 a'r dehongliadau cysylltiedig, ynghyd â thri dehongliad (IFRIC 4 'Penderfynu a yw Trefniant yn cynnwys Prydles', SIC 15 'Prydlesi Gweithredol – Cymhellion' a SIC 27 'Gwerthuso Sylwedd Trafodion sy'n Cynnwys Ffurf Gyfreithiol ar Brydles'). O dan IFRS 16 mae'n ofynnol i lesddeiliad gydnabod rhwymedigaethau prydles a'u taliadau yn y dyfodol ac 'asedau hawl defnyddio' ar gyfer y rhan fwyaf o gontractau prydles, ac eithrio prydlesi tymor byr ac asedau gwerth isel.

| Safon | Dyddiad mabwysiadu |
|---|---|
| Prydlesi IFRS 16 | 1 Ionawr 2019 |

O ganlyniad i fabwysiadu'r Safon newydd o 1 Ionawr 2019 ymlaen, rydym wedi cydnabod asedau hawl defnyddio a rhwymedigaethau prydles cysylltiedig ar gyfer ein holl brydlesi gweithredol blaenorol heblaw rhai gwerth isel (llai na £3,000) neu gyda llai na 12 mis o'r brydles ar ôl o'r dyddiad y cafodd y safon ei chymhwyso gyntaf.

Ar gyfer contractau oedd yn eu lle ar y dyddiad y cafodd y safon ei chymhwyso gyntaf, rydym wedi dewis cymhwyso'r diffiniad o brydles o IAS 17 ac IFRIC 4, a heb gymhwyso IFRS 16 i drefniadau na chawsant eu hadnabod yn flaenorol fel prydles o dan IAS 17 ac IFRIC 4.

Yn unol â pharagraff c8 o IFRS 16, rydym wedi dewis cymhwyso IFRS 16 gyntaf o 1 Ionawr 2019 ymlaen. Rydym wedi dewis peidio â chynnwys costau uniongyrchol cychwynnol wrth fesur asedau hawl defnyddio ar gyfer prydlesi gweithredol oedd yn bodoli ar ddyddiad cymhwyso'r safon gyntaf. Ar y dyddiad hwn, rydym

hefyd wedi dewis mesur asedau hawl defnyddio ar sail swm cyfwerth â rhwymedigaeth y brydles, wedi'i addasu ar gyfer unrhyw ragdaliadau prydles neu daliadau oedd wedi cronni ar y dyddiad trosglwyddo.

Yn lle cynnal adolygiad amhariad ar yr asedau hawl defnyddio ar y dyddiad y cafodd y safon ei chymhwyso gyntaf, rydym wedi dibynnu ar asesiad hanesyddol ynghylch a oedd prydlesi'n feichus yn syth cyn y dyddiad y cafodd IFRS 16 ei chymhwyso gyntaf.

Wrth drosglwyddo, yn achos prydlesi a gyfrifwyd yn flaenorol fel prydlesi gweithredol gyda llai na 12 mis ar ôl, ac yn achos prydlesi gydag asedau gwerth isel, rydym wedi cymhwyso'r eithriadau dewisol i beidio â chydnabod asedau hawl defnyddio, ac yn hytrach wedi cyfrifo cost y prydlesi ar sail llinell syth dros weddill cyfnod y brydles.

Wrth drosglwyddo i IFRS 16, mae'r gyfradd fenthyca gynyddrannol gyfartalog wedi'i phwysoli ar gyfer rhwymedigaethau prydles o dan IFRS 16 naill ai wedi'i disgowntio ar sail y gyfradd llog ymhlyg yn y brydles lle'r oedd y gyfradd honno ar gael, neu ar sail ein cyfradd fenthyca gynyddrannol (2019: 0.75%); sy'n unol â Chyfradd Sylfaenol Banc Lloegr.

O ganlyniad i fabwysiadu IFRS 16 am y tro cyntaf, yr effaith ar y datganiad sefyllfa ariannol yw cynnwys asedau hawl defnyddio gwerth £6.73m.

## 1.3 AMCANGYFRIFON A DYFARNIADAU CYFRIFYDDU CRITIGOL

Er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol yn unol â'r IFRS, rhaid i ni wneud amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n cael effaith ar y polisïau a'r symiau a adroddir yn y cyfrifon blynyddol. Mae amcangyfrifon a dyfarniadau'n seiliedig ar brofiadau hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau yn ymwneud â digwyddiadau i ddod y credir iddynt fod yn rhesymol pan wneir yr amcangyfrifon a'r dyfarniadau. Gall yr union brofiad fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sydd â'r risg fwyaf sylweddol o achosi addasiad sylweddol i symiau cario'r asedau a rhwymedigaethau yw'r rhai a drafodwn isod:

### Buddion pensiwn

Cyfrifwn am bensiynau'n unol ag 'IAS 19 – Buddion Gweithwyr'. Wrth benderfynu ar gostau pensiwn a rhwymedigaethau buddion diffinedig cynllun pensiwn buddion diffinedig y GDC, defnyddir nifer o dybiaethau sy'n cynnwys y gyfradd ddisgownt, twf cyflog, chwyddiant prisiau, yr elw disgwyliedig ar fuddsoddiadau'r cynllun a chyfraddau marwolaeth. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu IAS 19 (2011) a ddaeth i rym o 1 Ionawr 2013 ymlaen. Cytunir ar y tybiaethau gyda'r actiwari cymwysedig a defnyddir hwynt i gyfrifo'r darpariaethau pensiwn. Rhoddir manylion pellach yn nodyn 16 i'r cyfrifon.

Ar 31 Rhagfyr 2019 mae gan y cynllun warged o £5.8m ar sail y tybiaethau IAS 19 a ddefnyddiwyd.

O dan ofynion 'IFRIC 14: Trothwy ar gyfer Ased Buddion Diffinedig, Gofynion Cyllido Sylfaenol a'r Berthynas Rhyngddynt', gallai fod raid i'r GDC gyfyngu'r gwarged yn y datganiadau ariannol pe na bai'r GDC yn gallu sicrhau manteision economaidd llawn o'r gwarged hwnnw. O dan delerau ac amodau'r Cynllun byddem yn gallu sicrhau manteision economaidd llawn o'r gwarged naill ai drwy wyliau cyfraniadau llawn neu leihau'r cyfraniadau yn y dyfodol. Felly, nid yw'r gwarged a adroddwyd wedi'i gyfyngu.

### Darpariaethau

Mae'r GDC yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu ddealledig, ac sydd o amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol, ar sail yr amcan gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth.

### Dibrisio ac amorteiddio

Cyfrifwn am ddibrisio ac amorteiddio'n unol ag 'IAS 16 – Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar' ac 'IAS 38 – Asedau Anniriaethol'. Mae costau dibrisio ac amorteiddio'n cydnabod y dirywiad yng ngwerth yr ased ac yn dyrannu cost yr ased dros y cyfnod y bydd yr ased yn cael ei defnyddio.

Gwneir dyfarniad ynghylch beth fydd oes ddefnyddiol dybiedig yr asedau, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu amgylchiadau newidiol.

Rhoddir manylion pellach yn y polisi cyfrifyddu ar ddibrisio ac amorteiddio isod (nodyn 1.6).

## 1.4 BUSNES HYFYW

Rydym yn gorff statudol a chynhyrchir incwm o ffioedd drwy ffioedd cofrestru gorfodol i ddeintyddion a gweithwyr DCP sy'n ymarfer yn y DU. Derbyniwyd ffioedd cofrestru ar gyfer deintyddion, ar gyfer 2020, yn llawn yn Rhagfyr 2019. Derbyniwyd ffioedd cofrestru ar gyfer gweithwyr DCP, am y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2020, yng Ngorffennaf 2019. Felly roedd 85% o'n holl incwm ar gyfer 2020 wedi'i dderbyn ar y dyddiad adrodd.

Yng ngoleuni haint COVID-19, rydym wedi cwblhau dadansoddiad senario manwl drwy brawf straen i fesur effaith unrhyw leihad yn nifer y cofrestreion ar ein hincwm dros y 12 mis nesaf a thu hwnt. Roedd y senarios a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar y wybodaeth ystadegol oedd ar gael gan fodelu effaith gwahanol lefelau risg incwm ar ein hylifedd a lefel ddisgwyliedig ein cronfeydd wrth gefn rhydd. Fel rhan o'r gwaith modelu hwn rydym hefyd wedi cwblhau dadansoddiad sensitifrwydd i ddeall faint y byddai'n rhaid i nifer y cofrestreion ostwng i'n rhoi mewn sefyllfa arian parod ddybryd.

Mae lliniaru unrhyw risg i'n hincwm yn y dyfodol hefyd wedi'i gynorthwyo gan y ffaith y cwblheir ein cynlluniau gweithredol gryn amser ymlaen llaw, gan roi cyfle pellach i ni leihau ein costau i gynnal ein hyfywedd ariannol.

Ar ôl adolygu'r senarios hyn a diweddaru ein rhagolygon gwariant gweithredol ar gyfer 2020, ystyriwn ei bod yn briodol i ni baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

## 1.5 EIDDO, PEIRIANNAU, CYFARPAR AC ASEDAU ANNIRIAETHOL

Adroddir Asedau Sefydlog Anghyfredol Diriaethol fel Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar o dan IAS 16. Lle bo'n briodol, dosbarthwyd meddalwedd ac asedau datblygu fel Asedau Anniriaethol o dan IAS 38.

Cedwir asedau ar ganol eu creu ar y dyddiad cyfrifyddu ar sail cost tan y daw'r asedau hynny'n weithredol ac y trosglwyddir hwynt i'r dosbarth asedau anghyfredol sy'n berthnasol iddynt.

Mae eiddo, peiriannau, cyfarpar ac asedau anniriaethol yn cael eu datgan ar sail cost, net o ddibrisio ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad.

Mae gwariant yn cael ei gyfalafu dim ond lle mae cost yr ased neu'r grŵp asedau a brynwyd yn fwy na £1,000.

## 1.6 DIBRISIO AC AMORTEIDDIO

Darperir ar gyfer dibrisio ac amorteiddio er mwyn dileu cost yr asedau anghyfredol yn gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig. Mae treuliau dibrisio ac amorteiddio wedi eu cynnwys yn y llinell costau gweinyddol yn y cyfrif incwm a gwariant o dan incwm a gwariant cynhwysfawr. Mae oes ddefnyddiol dybiedig asedau fel a ganlyn:

| Dosbarth yr ased | Oes yr ased |
|---|---|
| Dodrefn a ffitiadau | Hyd at 10 mlynedd |
| Peiriannau a chyfarpar | Hyd at 25 mlynedd |
| Cyfarpar TG | Hyd at 5 mlynedd |
| Meddalwedd TG, trwyddedau a sicrwydd meddalwedd | Hyd at 5 mlynedd |
| Gwelliannau lesddaliad | Dros weddill y brydles – 20 mlynedd neu 10 mlynedd, neu lle bo'n llai na hynny, dros ei hoes ddefnyddiol dybiedig. |
| Asedau hawl defnyddio | Dros weddill y brydles |

Adolygir cyfraddau dibrisio'n rheolaidd drwy gymharu oes wirioneddol ased â chyfraddau'r polisïau cyfrifyddu.

## 1.7 AMHARIAD

Ar ddyddiad pob Datganiad Sefyllfa Ariannol, adolygwn symiau cario ein hasedau i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau wedi dioddef colled drwy amhariad. Os awgrymir bod hyn wedi digwydd, gwneir amcan o werth adenilladwy'r ased er mwyn mesur maint y golled oherwydd amhariad. Codir colled drwy amhariad ar y datganiad incwm yn syth.

Pan fydd cynnydd wedyn yn swm adenilladwy ased oherwydd newid yn yr amcangyfrifon a ddefnyddir i benderfynu faint yw'r swm adenilladwy, mae'n cael ei ystyried yn wrthdroad o'r golled flaenorol drwy amhariad ac yn cael ei gydnabod fel swm cario'r ased a fyddai wedi cael ei benderfynu (net o ddibrisio ac amorteiddio) pe na bai colled drwy amhariad wedi'i chydnabod. Mae'r gwrthdroad yn cael ei gydnabod yn y datganiad incwm a gwariant yn syth.

## 1.8 GWARIANT

Cyfrifir am wariant ar sail croniadau pan fydd naill ai'r nwyddau wedi eu derbyn neu'r gwasanaeth wedi'i gyflawni. Mae TAW na ellir ei adennill yn cael ei gynnwys gyda'r eitem gost berthynol.

## 1.9 INCWM

Cyfrifir am refeniw dros y cyfnod y mae'n rhaid i ni gynnal cofrestriad unigolyn. Y cyfnod cofrestru ar gyfer deintyddion yw rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr. Y cyfnod cofrestru ar gyfer gweithwyr DCP yw rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf. Nid oes angen unrhyw ddyfarniadau nac amcangyfrifon allweddol wrth asesu rhwymedigaethau'r GDC, sydd wedi eu gwasgaru'n gyfartal dros y cyfnod cofrestru. Felly mae'r holl ffioedd yn cael eu gohirio i ddechrau a'u rhyddhau ar sail llinell syth drwy gydol y cyfnodau cofrestru perthynol.

Mae ffioedd am Arholiadau Cofrestru Tramor yn cael eu cydnabod pan fo'r arholiadau'n cael eu sefyll.

Mae ffioedd amrywiol, gwerthiannau eraill ac incwm arall yn cael eu cydnabod pan ddarperir y nwyddau neu'r gwasanaethau perthnasol. Mae incwm buddsoddi'n cael ei gydnabod pan ddaw'r difidend neu log yn ddyledus, wedi'i ddatgan fel swm crynswth o dreth adenilladwy.

## 1.10 PRYDLESI

Ar gyfer unrhyw gontract newydd a gytunir dros y cyfnod cyfrifyddu, ystyriwn a yw'n brydles neu a yw'n cynnwys prydles. Mae rhwymedigaeth y brydles yn cael ei mesur ar sail gwerth y taliadau prydles na thalwyd hyd at y dyddiad hwnnw, wedi'i ddisgownti o ar sail y gyfradd llog ymhlyg yn y brydles lle bo'r gyfradd honno ar gael yn rhwydd, neu ar sail ein cyfradd llog gynyddrannol (2019: 0.75%); sy'n unol â Chyfradd Sylfaenol Banc Lloegr.

Mae asedau hawl defnyddio'n cael eu mesur ar sail cost, sy'n cynnwys y mesuriad cychwynnol o rwymedigaeth y brydles, unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol a wariwyd gennym, amcan o unrhyw gostau i ddatgymalu a symud yr ased ar ddiwedd y brydles, ac unrhyw daliadau prydles a wnaed cyn dyddiad dechrau'r brydles (net o unrhyw gymhellion a dderbyniwyd).

Mae ased hawl defnyddio'n cael ei dibrisio ar sail llinell syth o ddyddiad dechrau'r brydles tan ddiwedd ei hoes ddefnyddiol, neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sy'n dod gyntaf. Asesir prydlesi ar gyfer amhariad pan fydd arwydd o hynny.

Rydym wedi dewis rhoi cyfrif am brydlesi tymor byr a phrydlesi asedau gwerth isel am resymau ymarferol. Yn lle cydnabod ased hawl defnyddio a rhwymedigaeth prydles, mae'r taliadau cysylltiedig yn cael eu cydnabod fel cost o dan elw neu golled, ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Mae'r Cyngor:

- wedi trin unrhyw brydles gydag ased sylfaenol gwerth llai na £3,000 fel ased gwerth isel
- wedi trin unrhyw brydles gyda llai na 12 mis tan y daw i ben fel prydles tymor byr
- wedi cydnabod prydlesi tymor byr a gwerth isel ar sail llinell syth fel cost yn y cyfrif incwm a gwariant.

Yn y datganiad sefyllfa ariannol, rhoddir asedau hawl defnyddio o dan eiddo, peiriannau a chyfarpar a rhwymedigaethau prydles o dan symiau taladwy masnachol ac eraill.

Nid oes gennym unrhyw drefniadau is-brydlesu, gwerthu ac ôl-brydlesu, na threfniadau lle'r ydym yn brydlesydd.

### Prydlesi swyddfeydd

Mae'r asedau prydles ar 31 Rhagfyr 2019 yn cynnwys cytundebau rhent ar gyfer ein swyddfeydd yn Llundain a Birmingham.

Nid yw'r prydlesi'n cynnwys unrhyw opsiynau i adnewyddu am gyfnod ychwanegol. Rhaid i unrhyw addasiadau a wneir i'r swyddfeydd gael eu cytuno ymlaen llaw gyda'r prydlesydd a thrwy roi'r rhybudd cytundebol perthnasol.

### Swyddfa Llundain

Mae'r brydles ar y swyddfa yn Llundain yn rhagnodi bod yr eiddo i'w feddiannu fel pencadlys y GDC. Mae'r brydles yn cynnwys rhandaliad prydles amrywiol ar sail y mynegai prisiau manwerthu, ac yn cael ei ailbrisio bob pum mlynedd.

O dan delerau'r brydles rhaid i ni fod ag yswiriant digonol drwy gwmni yswiriant a benodir gan y prydlesydd, rhag tân a difrod i'r eiddo. Rydym hefyd yn gyfrifol am gynnal a chadw a golwg allanol yr eiddo ar sail cyfnodau a nodir yn y contract.

### Swyddfa Birmingham

O dan delerau'r brydles ar gyfer Swyddfa Birmingham rhaid i ni wneud taliadau i'r prydlesydd am wasanaeth ac yswiriant sy'n cael eu penderfynu'n flynyddol fel rheol. Mae'r rhent yn cael ei adolygu bob pum mlynedd.

Mae'n ofynnol i ni fod ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol gyda chwmni yswiriant gydag enw da.

### O dan IAS 17

Dros y cyfnod cymharol, rydym wedi cydnabod prydlesi ar ein swyddfeydd yn Llundain a Birmingham fel prydlesi gweithredol o ganlyniad i'n hasesiad nad oeddent yn trosglwyddo'r holl risgiau a'r manteision perchnogaeth i ni. Roedd taliadau a wnaed o dan y prydlesi gweithredol yn cael eu cydnabod o dan elw / colled ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Roedd cymhellion prydles a dderbyniwyd yn cael eu cydnabod fel rhan annatod o gyfanswm cost y brydles, dros gyfnod y brydles.

## **1.11** TRETH

Mae'r Cyngor yn cael ei drethu fel corff cydfuddiannol ac felly'n cael ei drethu dim ond ar ffynonellau incwm allanol. Yn hanesyddol, incwm buddsoddi yw hyn.

Mae treth a ohiriwyd yn cael ei chydnabod ar bob gwahaniaeth dros dro trethadwy. Fodd bynnag, ni chyfrifir treth a ohiriwyd wrth gydnabod ased neu rwymedigaeth i ddechrau oni bai fod y trafodiad yn effeithio ar dreth neu elw cyfrifyddol. Mae ased treth a ohiriwyd hefyd yn cael ei chydnabod ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro didynadwy yn ôl pa mor debygol fydd yr elw trethadwy ar gael i ddefnyddio'r gwahaniaeth dros dro didynadwy yn ei erbyn. Mesurir rhwymedigaethau ac asedau treth a ohiriwyd ar sail y cyfraddau treth perthnasol i'r cyfnod pan wireddir yr ased neu pan setlir y rhwymedigaeth. Mae mesur hefyd yn seiliedig ar ganlyniadau treth adennill neu setlo swm cario'r asedau a'r rhwymedigaethau. Mae newidiadau mewn rhwymedigaethau neu asedau treth a ohiriwyd yn cael eu cydnabod fel elfen o gost treth yn y cyfrif incwm a gwariant.

## **1.12** CYNLLUNIAU PENSIWN

Roedd gan y Cyngor bedwar cynllun pensiwn yn 2019.

| Cynllun Pensiwn | Ymddiriedolaeth |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Meistr | Cynllun *People's* Pension |
| Cyfraniadau Diffiniedig Adran 2014 (caewyd Mehefin 2019) | Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol |
| Adran Buddion Diffiniedig | Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol |
| Adran Cyfraniadau Diffiniedig 'atodol' | Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol |

Mae gweithwyr a ymunodd â'r GDC o fis Medi 2018 ymlaen yn dod o dan gynllun Ymddiriedolaeth Meistr y People's Pension. Rydym yn cydnabod cost ddisgwyliedig y cynllun hwn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa o wasanaeth y gweithiwr, drwy dalu symiau i'r People's Pension wedi eu cyfrifo ar sail gronnus. Mae'r cyfraniadau'n cael eu pennu ar sail canran o gyflog pensiynadwy, gyda chyfraniad y cyflogwr yn isafswm o 6% ac uchafswm o 10% o'r cyflog pensiynadwy. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn dâl a godir ar y People's Pension.

Mae'r tri chynllun pensiwn arall o fewn yr un ymddiriedolaeth – Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae asedau'r cynlluniau'n cael eu cadw ar wahân i rai'r Cyngor ac yn cael eu buddsoddi fel y disgrifir yn nodyn 16.

### Cyfraniadau diffiniedig adran 2014

Daeth yr adran hon yn weithredol o'r 1 Chwefror 2014 ymlaen, gan ystyried diwygiadau pensiwn i awto-gofrestru a dyma bellach yw'r prif gynllun pensiwn ar gyfer gweithwyr. Mae'r cyfraniadau'n cael eu pennu ar sail canran o gyflog pensiynadwy, gyda chyfraniad y cyflogwr yn isafswm o 6% ac uchafswm o 10% o'r cyflog pensiynadwy. Codir y cyfraniadau ar y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus. Ym Mehefin 2019 caewyd ein cynllun cyfraniadau diffiniedig adran 2014 a throsglwyddwyd yr holl aelodau gweithredol i'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig drwy ymddiriedolaeth.

### Adran buddion diffiniedig

Caewyd yr adran hon i weithwyr newydd y cynigiwyd cyflogaeth dyddiedig ar ôl 31 Rhagfyr 2014 iddynt ac i rai oedd yn ymuno o'r newydd ar ôl 1 Gorffennaf 2016. Codir costau gwasanaeth presennol yr adran buddion diffiniedig, net costau llog y cynllun, a'r elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun am y flwyddyn, ar y cyfrif incwm a gwariant o dan 'costau pensiwn'. Mae enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cydnabod yn syth o dan 'incwm cynhwysfawr arall'.

Mesurir asedau'r adran buddion diffiniedig ar sail eu gwerth teg ar ddyddiad y datganiad sefyllfa ariannol. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun ar sail actiwaraidd ar ddyddiad y datganiad sefyllfa ariannol yn defnyddio'r dull amcanwerth unedol, ac wedi eu disgowntio ar gyfradd cyfwerth â'r elw disgwyliedig ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel gyda chyfnod cyfatebol i gyfnod rhwymedigaethau'r cynllun. Datgelir y rhwymedigaethau neu'r asedau buddion diffiniedig ar wahân yn y datganiad sefyllfa ariannol.

### Adran cyfraniadau diffiniedig 'atodol'

Caewyd yr adran hon i staff yn ymuno o'r newydd ar ôl 1 Ebrill 2014. Mae cyfrannu'n wirfoddol ac mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniad cyfwerth hyd at 5% o'r cyflog pensiynadwy. Codir y cyfraniadau ar y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus.

## **1.13** OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Cyngor yn dosbarthu ei holl asedau ariannol fel 'gwerth teg drwy elw a cholled', gan gydnabod symudiadau o dan wariant net.

### Asedau ariannol

Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau fel gwarantau rhestredig, gwarantau llog sefydlog, ecwiti ynghyd ag ymddiriedolaeth uned sef cronfa a reolir sy'n cynnwys portffolio cymysg o warantau rhestredig ac arian cadw. Mae gwerth teg y buddsoddiadau'n seiliedig ar y prisiau bidio diwedd dydd ar y dyddiadau cyfrifyddu. Mae enillion na wireddwyd a cholledion o newidiadau mewn gwerth marchnadol yn cael eu cydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant.

### Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae'r rhain yn cynnwys arian mewn llaw ac arian cadw mewn banciau.

### Rhwymedigaethau ariannol

Mae'r Cyngor yn dosbarthu ei holl rwymedigaethau ariannol ar sail eu gwerth teg drwy elw neu golled. Disgrifir isod y mathau o rwymedigaethau yn y categori hwn, gan ddibynnu ar y diben yr achoswyd y rhwymedigaeth ar ei gyfer.

### Symiau taladwy masnachol ac eraill

Mae'r rhain yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna ar sail gwerth anfoneb neu gost amorteiddio. Maen nhw'n deillio'n bennaf o dderbyn nwyddau a gwasanaethau. Datgelir gwerth y rhwymedigaethau hyn yn nodyn 13.

## 1.14 CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r cronfeydd yn cynnwys y wybodaeth isod.

### Cronfeydd wrth gefn cyffredinol

Sef y canlyniadau sy'n weddill ar ôl trosglwyddo enillion a cholledion actiwaraidd ar asedau cynllun pensiwn.

### Y gronfa bensiwn wrth gefn

Sef yr enillion a'r colledion actiwaraidd ar asedau cynllun pensiwn sy'n deillio o ailbrisio darpariaeth y GDC ar gyfer rhwymedigaethau / asedau'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig.

# 2 INCWM

## 2.1 INCWM O GOFRESTRU

| | | 2019 | 2018 |
|---|---|---|---|
| | Nifer | £'000 | £'000 |
| **Deintyddion** | | | |
| Cyfanswm cofrestriadau newydd | 1,782 | 752 | 822 |
| Cofrestriadau dros dro | 32 | 19 | 28 |
| Cadw | 40,928 | 36,366 | 35,747 |
| Adfer ar ôl dileu | 120 | 107 | 243 |
| **Cyfanswm** | **42,808** | **37,244** | **36,840** |
| **Gweithwyr Gofal Deintyddol** | | | |
| Cyfanswm cofrestriadau newydd | 4,468 | 116 | 330 |
| Cadw (Awst – Rhagfyr)* | 68,538 | 3,361 | 3,271 |
| Cadw (Ionawr – Gorffennaf)** | – | 4,783 | 4,490 |
| Adfer ar ôl tynnu i ffwrdd | 955 | 111 | 133 |
| **Cyfanswm** | **73,961** | **8,371** | **8,224** |
| **Arbenigwyr** | | | |
| Ychwanegiadau i'r rhestr arbenigwyr | 179 | 62 | 47 |
| Cadw arbenigwyr blynyddol | 4,186 | 307 | 304 |
| Ffioedd adfer arbenigwyr | 8 | – | 1 |
| **Cyfanswm** | **4,373** | **369** | **352** |
| **Cyfanswm Incwm Cofrestru** | | **45,984** | **45,416** |

Mae'r ffigyrau uchod yn adlewyrchu cofrestreion yn talu ffioedd yn ystod y flwyddyn yn hytrach na nifer y cofrestreion ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr 2019.

## 2.2 INCWM ARALL

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ffioedd arholiad | 1,592 | 1,588 |
| Incwm Amrywiol | 19 | 14 |
| Incwm Buddsoddi | 516 | 311 |
| **Cyfanswm Incwm Arall** | **2,127** | **1,913** |

Gwariwyd £51k ar golledion a wireddwyd wrth waredu buddsoddiadau, a'r incwm buddsoddi net am 2019 yw £465k (2018: £294k).

## 3 COSTAU STAFF

| | 2019 | | | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm £'000 |
| **Costau Staff** | | | | |
| Cyflogau a thâl | 15,497 | – | 15,497 | 15,460 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,721 | – | 1,721 | 1,718 |
| Costau pensiwn | 1,473 | – | 1,473 | 1,744 |
| Cwtogi'r cynllun pensiwn | (1,670) | – | (1,670) | – |
| Taliadau terfynu a dileu swyddi | – | – | – | 1,851 |
| Costau staff eraill | 1,206 | – | 1,206 | 1,326 |
| **Is-gyfanswm** | **18,227** | **–** | **18,227** | **22,099** |
| Staff dros dro | – | 427 | 427 | 435 |
| **Cyfanswm** | **18,227** | **427** | **18,654** | **22,534** |

Mae costau staff yn 2018 yn cynnwys cost dileu swyddi a rhedeg dau le wrth i ni barhau i baratoi at symud i'n swyddfeydd yn Birmingham. Talwyd costau dileu swyddi 2019 i gyd allan o ddarpariaethau 2018.

## 4 GWARIANT AR WASANAETHAU CYFREITHIOL A PHROFFESIYNOL

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol a Phroffesiynol** | | |
| **Tâl a chostau Archwilwyr:** | | |
| Archwiliad allanol | 25 | 24 |
| Archwiliad allanol – Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | 5 | 4 |
| Archwiliad mewnol | 61 | 79 |
| Ffioedd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol | 296 | 283 |
| Gwrandawiadau ymddygiad | 1,673 | 1,406 |
| Ffioedd cwnsleriaid | 888 | 864 |
| Ffioedd arbenigwyr | 697 | 1,068 |
| Costau arholiad | 1,417 | 1,413 |
| Ffioedd a thaliadau eraill | 1,562 | 1,558 |
| All-daliadau eraill | 138 | 99 |
| **Cyfanswm** | **6,762** | **6,798** |
| **Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y gwasanaethau di-archwilio canlynol gan ei archwilwyr allanol haysmacintyre:** | | |
| Am gyngor treth gorfforaethol | 4 | 2 |
| Cyngor cyflogaeth a chyngor arall | – | – |
| **Cyfanswm** | **4** | **2** |

## 5 GWARIANT CYFARFODYDD CYNGOR A PHWYLLGORAU

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Cyfanswm ffioedd a threuliau'r Cyngor** | **367** | **408** |
| Ffioedd a dalwyd i aelodau pwyllgorau a phaneli | 1,916 | 1,744 |
| Treuliau a dalwyd i aelodau pwyllgorau a phaneli | 608 | 637 |
| Treuliau a ffioedd proffesiynol ar gyfer pwyllgorau a phaneli | 1,058 | 1,149 |
| Treuliau cyfarfodydd pwyllgor a phaneli | 1,720 | 1,735 |
| **Treuliau Cyfarfodydd Pwyllgor** | **5,302** | **5,265** |
| **Cyfanswm Cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgorau** | **5,669** | **5,673** |

## 6 GWARIANT GWEINYDDOL ARALL

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Dibrisio | 1,457 | 893 |
| Amorteiddio | 136 | 168 |
| Colled o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | (3) | (4) |
| Llogi cyfarpar swyddfa | 17 | 12 |
| Prydlesi adeiladau | 207 | 862 |
| Taliadau llog | 244 | – |
| Cymorth a chynnal a chadw technoleg gwybodaeth | 1,213 | 1,185 |
| Costau personél | 33 | 30 |
| Costau gweithredol eraill | 596 | 581 |
| **Cyfanswm Costau Gweinyddol** | **3,900** | **3,727** |
| Ardrethi busnes | 599 | 427 |
| Glanhau | 153 | 129 |
| Cynnal a chadw / trwsio | 175 | 158 |
| Costau swyddfa eraill | 249 | 192 |
| **Cyfanswm Costau Swyddfa** | **1,176** | **906** |
| Cyfathrebu a Chyhoeddiadau | 474 | 345 |
| **Cyfanswm Costau Eraill** | **5,550** | **4,978** |

## 7 TRETH

### 7.1 DADANSODDIAD O DALIADAU TRETH

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Treth bresennol** | | |
| Treth gorfforaethol y DU ar elw'r flwyddyn | 107 | 3 |
| Addasiad treth blwyddyn flaenorol | – | 1 |
| Treth dramor | 1 | – |
| **Cyfanswm taliadau treth presennol** | **108** | **4** |
| **Treth a ohiriwyd** | | |
| Tarddiad a gwrthdroi gwahaniaethau amseru | 165 | 4 |
| Effaith newid cyfraddau treth ar y balans agoriadol | – | – |
| **Cyfanswm treth a ohiriwyd** | **165** | **4** |
| **Treth ar elw a gweithgareddau cyffredin** | **273** | **8** |

### 7.2 FFACTORAU'N EFFEITHIO AR DALIADAU TRETH AM Y CYFNOD

Mae'r Cyngor yn cael ei drethu fel corff cydfuddiannol ac felly'n cael ei drethu dim ond ar ffynonellau incwm allanol. Yn hanesyddol, incwm buddsoddi yw hyn.

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Elw am y flwyddyn | 10,012 | 5,028 |
| Treth ddisgwyliedig o 19.0% (2018: 19.0%) | 1,902 | 955 |
| **Effeithiau:** | | |
| Incwm di-drethadwy | (1,849) | (916) |
| Addasiad i'r gwerthoedd a gariwyd ymlaen | 47 | (36) |
| Symudiad yn y balans treth a ohiriwyd oherwydd newid yn y cyfraddau treth | (19) | (1) |
| Treth ar daliadau cydraddoli a buddsoddiadau llog sefydlog sy'n cynyddu yn eu gwerth | 191 | 5 |
| Addasiad treth blwyddyn flaenorol | 1 | 1 |
| **Treth yn y flwyddyn gyfredol** | **273** | **8** |

## 8 EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR

| | Eiddo lesddaliad £'000 | Asedau hawl defnyddio £'000 | Peiriannau a chyfarpar £'000 | Dodrefn a ffitiadau £'000 | Technoleg Gwybodaeth £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **2019** | | | |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2019 | 14,154 | – | 1,132 | 1,110 | 1,753 | 18,149 |
| Ychwanegiadau | 545 | 6,727 | 49 | 17 | 404 | 7,742 |
| Gwarediadau | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Rhagfyr 2019** | **14,699** | **6,727** | **1,181** | **1,127** | **2,157** | **25,891** |
| **Dibrisio** | | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2019 | 4,604 | – | 507 | 445 | 894 | 6,450 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 397 | 438 | 125 | 216 | 281 | 1,457 |
| Gwarediadau | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Ionawr 2019** | **5,001** | **438** | **632** | **661** | **1,175** | **7,907** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2019** | **9,698** | **6,289** | **549** | **466** | **982** | **17,984** |
| **Ar 31 Rhagfyr 2018** | **9,550** | **–** | **625** | **664** | **860** | **11,699** |

| | Eiddo lesddaliad £'000 | Asedau hawl defnyddio £'000 | Peiriannau a chyfarpar £'000 | Dodrefn a ffitiadau £'000 | Technoleg Gwybodaeth £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **2018** | | | |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2018 | 12,922 | – | 1,071 | 594 | 942 | 15,529 |
| Ychwanegiadau | 1,232 | – | 61 | 516 | 817 | 2,626 |
| Gwarediadau | – | – | – | – | (6) | (6) |
| **Ar 31 Rhagfyr 2018** | **14,154** | **–** | **1,132** | **1,110** | **1,753** | **18,149** |
| **Dibrisio** | | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2018 | 4,203 | – | 388 | 306 | 664 | 5,561 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 401 | – | 19 | 139 | 234 | 893 |
| Gwarediadau | – | – | – | – | (4) | (4) |
| **Ar 31 Ionawr 2018** | **4,604** | **–** | **507** | **445** | **894** | **6,450** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2018** | **9,550** | **–** | **625** | **665** | **859** | **11,699** |
| **Ar 31 Rhagfyr 2017** | **8,719** | **–** | **683** | **288** | **278** | **9,968** |

Y GDC sy'n berchen ar yr holl asedau heblaw asedau hawl defnyddio.

## 9 ASEDAU ANNIRIAETHOL

| | 2019 | | |
|---|---|---|---|
| | Meddalwedd £'000 | Trwyddedau £'000 | Cyfansymiau £'000 |
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2019 | 2,065 | 367 | 2,432 |
| Ychwanegiadau | – | 77 | 77 |
| Trosglwyddiadau | – | – | – |
| **Ar 31 Rhagfyr 2019** | **2,065** | **444** | **2,509** |
| **Amorteiddio** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2019 | 1,867 | 352 | 2,219 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 110 | 26 | 136 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2019** | **1,977** | **378** | **2,355** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2019** | **88** | **66** | **154** |
| **Ar 31 Rhagfyr 2018** | **198** | **15** | **213** |

| | 2018 | | |
|---|---|---|---|
| | Meddalwedd £'000 | Trwyddedau £'000 | Cyfansymiau £'000 |
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2018 | 2,065 | 367 | 2,432 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2018** | **2,065** | **367** | **2,432** |
| **Amorteiddio** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2018 | 1,726 | 325 | 2,051 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 141 | 27 | 168 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2018** | **1,867** | **352** | **2,219** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2018** | **198** | **15** | **213** |
| **Ar 31 Rhagfyr 2017** | **339** | **42** | **381** |

Y GDC sy'n berchen ar yr holl asedau.

## 10 ASEDAU ARIANNOL

| | 2019 | | | 2018 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ecwitïau | Gwarantau Llog Sefydlog | Cyfanswm | Ecwitïau | Gwarantau Llog Sefydlog | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ionawr** | **10,152** | **4,163** | **14,315** | **948** | **–** | **948** |
| Ychwanegiadau | 1,251 | 1,002 | 2,253 | 10,578 | 4,352 | 14,930 |
| Gwarediadau | (927) | (250) | (1,177) | (490) | – | (490) |
| Colledion a wireddwyd ar fuddsoddiadau | 58 | 1 | 59 | (17) | – | (17) |
| Colledion na wireddwyd ar fuddsoddiadau | 1,835 | 245 | 2,080 | (867) | (189) | (1,056) |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **12,369** | **5,161** | **17,530** | **10,152** | **4,163** | **14,315** |

Incwm a gynhyrchwyd o'r asedau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019 Ecwitïau £394,491 (2018: £160,335).

Dyfynnir yr asedau ariannol uchod mewn marchnad weithredol ac wedi eu cynnwys ar sail eu gwerth marchnadol. Dosbarthwyd yr holl asedau ariannol uchod yn rhai lefel 1 i bwrpas datgelu o dan IFRS 7, oherwydd mae'r holl symiau yn seiliedig ar brisiau a ddyfynnir mewn marchnad weithredol.

## 11 DERBYNIADAU MASNACHOL AC ASEDAU CYFREDOL ERAILL

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Derbyniadau eraill | 121 | 138 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 1,021 | 1,657 |
| **Cyfanswm** | **1,142** | **1,795** |

Mae oed yr holl dderbyniadau'n gyfredol ac nid oes unrhyw swm heibio'r dyddiad dyledus, ond heb amhariad. Nid oes darpariaeth ar gyfer dyledion drwg. Nid oes unrhyw asedau ariannol gydag amhariad.

## 12 ARIAN PAROD A SYMIAU CYFWERTH AG ARIAN PAROD

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ionawr | 42,344 | 47,705 |
| Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod | (2,089) | (5,361) |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **40,255** | **42,344** |

| | | |
|---|---|---|
| **Roedd y balansau canlynol ar gadw mewn:** | | |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 30,099 | 21,414 |
| Adneuon banc tymor byr | 10,156 | 20,930 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **40,255** | **42,344** |

## 13 SYMIAU TALADWY MASNACHOL A RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL ERAILL

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn:** | | |
| Treth gorfforaethol | – | 4 |
| Nawdd cymdeithasol a threth arall | 32 | 516 |
| Symiau taladwy masnachol | 1,237 | 1,142 |
| Symiau taladwy eraill | 86 | 87 |
| Croniadau | 2,151 | 4,934 |
| Incwm a ohiriwyd | 33,605 | 41,714 |
| Cymhellion gweithredu a ohiriwyd | – | 77 |
| Rhan gyfredol y rhwymedigaethau prydles | 273 | – |
| **Cyfanswm** | **37,384** | **48,474** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Rhwymedigaethau prydles | 6,425 | – |
| Treth a ohiriwyd | 420 | 146 |
| **Cyfanswm** | **6,845** | **146** |
| **Cyfanswm Symiau Taladwy a Rhwymedigaethau Cyfredol** | **43,920** | **48,620** |

## 14 OFFERYNNAU ARIANNOL A RHEOLI RISGIAU ARIANNOL

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Costau wedi eu hamorteiddio** | | |
| Balansau banc ac arian parod | 40,255 | 42,344 |
| Derbyniadau masnachol ac eraill | 121 | 138 |
| **Cyfanswm** | **40,376** | **42,482** |
| **Gwerth teg drwy elw a cholled** | | |
| Buddsoddiadau ecwiti | 17,530 | 14,315 |
| **Cyfanswm** | **17,530** | **14,315** |

Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau fel ecwiti, gwarantau rhestredig ynghyd ag ymddiriedolaeth uned sef cronfa a reolir sy'n cynnwys portffolio cymysg o warantau rhestredig ac adneuon arian parod. Dosbarthir y rhain fel 'gwerth teg drwy elw a cholled' i bwrpas IFRS 9. Cynhwysir buddsoddiadau sydd ar gael i'w gwerthu ar sail eu gwerth marchnadol diwedd blwyddyn. Mae gwerth teg y buddsoddiadau'n seiliedig ar y prisiau bidio diwedd dydd ar y dyddiadau cyfrifyddu.

Mae'r buddsoddiadau wedi eu categoreiddio fel rhai lefel 1 i bwrpas datgelu o dan IFRS 7.

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Rhwymedigaethau Ariannol** | | |
| Symiau taladwy masnachol ac eraill | 3,197 | 6,760 |
| **Cyfanswm** | **3,197** | **6,760** |

Mae'r rhain yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna ar sail gwerth anfoneb neu gost amorteiddio. Maen nhw'n deillio'n bennaf o dderbyn nwyddau a gwasanaethau. Nid oes unrhyw rwymedigaethau eraill a gedwir ar sail gwerth teg. Ym marn y GDC mae gwerth cario'r derbyniadau masnachol a'r symiau taladwy masnachol yn debyg i'w gwerth teg oherwydd dyddiadau aeddfedu tymor byr yr offerynnau hyn.

### Risg credyd

Risg credyd yw risg bod un parti mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni rhwymedigaeth ac yn achosi colled ariannol i'r parti arall. Ni ystyrir bod hyn yn sylweddol. Nid yw'r GDC yn defnyddio offerynnau ariannol sy'n cynyddu ei broffil risg credyd ac nid oes ganddo unrhyw ddyledion allanol. Defnyddiwn amrywiaeth o fesurau lliniaru risg gan gynnwys sgoriau credyd i asesu risg credyd partïon eraill, gan gynnwys cyflenwyr a sefydliadau ariannol.

### Risg hylifedd

Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor fenthyciadau gan ddibynnu'n bennaf ar ffioedd ar gyfer ei ofynion arian parod. Mae'r balansau arian parod yn gylchol ac ar eu huchaf yn Rhagfyr / Ionawr a Gorffennaf / Awst. Mae lefelau arian parod yn isel rhwng y cyfnodau hyn oherwydd bod derbyniadau'r Cyngor ar eu huchaf yn Rhagfyr pan fydd deintyddion yn talu eu ffioedd cadw blynyddol, ac ym mis Gorffennaf pan fydd gweithwyr gofal deintyddol yn talu eu ffioedd hwythau. Mae gwariant y Cyngor wedi'i wasgaru'n gyfartal drwy'r flwyddyn.

Rydym wedi ymrwymo i wariant yn y dyfodol, yn bennaf ar brydlesi. Oherwydd ein bod yn gorff statudol wedi'i ariannu gan ffioedd cofrestru gorfodol a delir gan ddeintyddion a gweithwyr DCP, credwn fod y risg na allwn fodloni'r rhwymedigaethau hyn yn isel.

Felly mae'r Cyngor o'r farn nad oes posibilrwydd sylweddol o risg hylifedd.

### Risg arian cyfred

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau mewn punnoedd sterling felly nid oes risg arian cyfred o ddal buddsoddiadau ecwiti tramor. Fodd bynnag, mae rhai o'r cronfeydd cyfunol wedi eu buddsoddi dramor a gallai rhai cwmnïau ddatgan difidend mewn arian cyfred gwahanol, ond wedyn talu mewn sterling, felly gall fod risg o amrywiadau arian cyfred.

Mae gan y GDC bolisi cronfeydd wrth gefn. Oherwydd cylchoedd adnewyddu cofrestru a dulliau talu ffioedd cofrestreion, mae gan y GDC swm priodol o arian parod mewn cyfrifon cadw tymor byr i ateb y gwariant y disgwylir ei achosi dros y cyfnod talu.

### Risg marchnadoedd a chyfraddau llog

Mae gweithwyr deintyddol yn talu ffioedd ymlaen llaw. Mae arian gwarged yn cael ei gadw fel a ganlyn:

- Adnau cyfnod penodol – cedwir y rhan fwyaf o'r arian gwarged yn y farchnad arian tymor byr. Chwiliwn am gyfraddau cystadleuol wrth fuddsoddi yn y farchnad arian.
- Buddsoddiadau – buddsoddir y gweddill mewn portffolio o fuddsoddiadau ecwiti ac ymddiriedolaethau uned lle mae risg o hyd o ostwng yn eu gwerth.

Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r marchnadoedd ariannol drwy strategaeth fuddsoddi sy'n osgoi risg a niwed diangen i gyfrifoldebau rheoleiddio'r GDC.

Cymeradwyodd y Cyngor ddatganiad diwygiedig o egwyddorion buddsoddi yn Rhagfyr 2011 a chafodd ei ail-gadarnhau yn Rhagfyr 2018, a nod y GDC fydd cynnal portffolio risg buddsoddi sy'n ceisio sicrhau enillion ar fuddsoddiadau ar yr un lefel â chwyddiant mwy neu lai.

Ni ystyrir bod y risg cyfraddau llog yn sylweddol o ran bod y GDC yn dibynnu ar incwm llog i raddau helaeth i ariannu ei waith.

## 15 DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU A THALIADAU

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ionawr** | **1,011** | **–** |
| Darparwyd yn y flwyddyn | – | 1,011 |
| Adferwyd gwerth | (97) | – |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (702) | – |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **212** | **1,011** |

## 16 Y GRONFA BENSIWN

Mae gan y GDC gynllun buddion diffiniedig wedi'i ariannu'n llwyr drwy gyfraniadau gan y GDC ac aelodau o'r cynllun pensiwn. Cafodd prisiad actiwaraidd llawn ei wneud ar 1 Ebrill 2018 a diweddariad ar 31 Rhagfyr 2019 gan actiwari cymwys annibynnol.

Ar 31 Rhagfyr 2019 mae gan y cynllun warged o £5.6m ar sail y tybiaethau IAS 19 a ddefnyddiwyd. Gwelodd adran buddion diffiniedig y cynllun gynnydd actiwaraidd net yn ei werth o £1.9m yn 2019, yn erbyn yr hyn a adroddwyd yng nghyfrifon y llynedd.

Mae hyd y cynllun oddeutu 30 mlynedd felly disgwylir y byddwn yn talu llifau arian parod yn y dyfodol am fwy na 30 mlynedd. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari wrth ddiweddaru'r cynllun ar 31 Rhagfyr 2019 oedd:

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| Y gyfradd chwyddiant | 3% | 3% |
| Cyfradd codiadau cyflog | 4% | 4% |
| Cyfradd cynnydd mewn taliadau pensiwn lle mae'r RPI yn 5.0% ar y mwyaf | 3% | 3% |
| Cyfradd cynnydd mewn taliadau pensiwn lle mae'r RPI yn 3% o leiaf, 5.0% ar y mwyaf | 4% | 4% |
| Cyfradd cynnydd mewn taliadau pensiwn lle mae'r RPI yn 2.5% ar y mwyaf | 2% | 2% |
| Cyfradd ddisgownt | 2% | 3% |
| Cyfran o'r gweithwyr sy'n dewis ymddeol yn gynnar yn 60 oed | 50% | 50% |

Disgwyliadau oes wrth ymddeol yn 65 oed:

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| Ymddeol heddiw – dynion | 23 | 23 |
| Ymddeol heddiw – menywod | 24 | 24 |
| Ymddeol mewn 20 mlynedd – dynion | 24 | 24 |
| Ymddeol mewn 20 mlynedd – menywod | 26 | 25 |

Mae'r tybiaethau marwolaeth am y cyfnod cyfredol yn dilyn SINA Light gyda chyfraddau gwella'n unol â model CMI 2016 (tymor hir 1% y flwyddyn).

Mae prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o gyfanswm asedau'r cynllun fel a ganlyn:

| | Dyraniad (£) 2019 | Dyraniad (%) 2019 | Dyraniad (£) 2018 | Dyraniad (%) 2018 |
|---|---|---|---|---|
| Ecwitïau | 27,242 | 73% | 21,095 | 67% |
| Cronfa ag Elw | 3,419 | 9% | 3,271 | 10% |
| Bondiau | 3,919 | 10% | 4,914 | 16% |
| Arian Parod | 2,965 | 8% | 2,405 | 8% |
| **Cyfanswm** | **37,545** | **100%** | **31,685** | **100%** |

Ni fuddsoddir dim o asedau'r cynllun pensiwn yn y GDC.

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Elw gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn y flwyddyn | 5,561 | (1,769) |

Dadansoddiad o symiau wedi eu debydu / credydu i'r cyfrifon incwm a gwariant:

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Incwm a Gwariant:** | | |
| Costau gwasanaeth cyfredol | (762) | (1,021) |
| Net costau llog ar rwymedigaethau pensiwn net | 107 | 33 |
| Cwtogi'r cynllun pensiwn | 1,671 | – |
| Ail-fesur rhwymedigaethau pensiwn net | 323 | 489 |
| **Cyfanswm incwm / (costau)** | **1,339** | **(499)** |

Symiau wedi eu cydnabod yn y datganiad sefyllfa ariannol:

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Datganiad Sefyllfa Ariannol:** | | |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau wedi eu hariannu | (31,732) | (27,755) |
| Gwerth teg asedau | 37,545 | 31,685 |
| **Gwarged** | **5,813** | **3,930** |

Symiau o incwm cynhwysfawr arall yn y datganiad:

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Incwm Cynhwysfawr arall:** | | |
| (Colled) / enillion actiwaraidd ar asedau'r cynllun | 4,670 | (2,570) |
| (Colled) / enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau buddion diffiniedig | (4,347) | 3,059 |
| *o'r rhain, oherwydd profiad* | *32* | *2,638* |
| *o'r rhain, oherwydd tybiaethau demograffig* | *165* | *(356)* |
| *o'r rhain, oherwydd tybiaethau ariannol* | *(4,544)* | *777* |
| **Cyfanswm (colled) / enillion yn y datganiad incwm cynhwysfawr arall** | **323** | **489** |

Mae'r Cyngor yn disgwyl cyfrannu £938k i'w gynllun pensiwn buddion diffiniedig yn 2020.

Gwnaed dadansoddiad sensitifrwydd o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig fel a ganlyn:

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyfradd ddisgownt – gostwng o 0.1% y.f. (2018: 0.1% y.f.) | 31,032 | 27,055 |
| Chwyddiant RPI – cynnydd o 0.1% y.f. (2018: 0.1% y.f.) | 31,232 | 27,255 |
| Codiadau cyflog – cynnydd o 0.1% y.f. (2018: 0.1% y.f.) | 31,532 | 27,555 |
| Marwoldeb – mae disgwyliad oes pob aelod yn cynyddu i ddisgwyliad oes rhywun blwyddyn yn iau | 31,032 | 27,055 |

Mae'r newid yng ngwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig fel a ganlyn:

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Rhwymedigaeth buddion diffinedig ar 1 Ionawr** | **27,755** | **28,993** |
| Costau llog | 784 | 768 |
| Costau gwasanaeth | 762 | 1,021 |
| Cyfraniadau gan aelodau | 216 | 273 |
| Colled / (enillion) actiwaraidd | 4,347 | (3,059) |
| Cwtogi'r cynllun pensiwn | (1,671) | – |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun / costau gweinyddol a dalwyd | (461) | (241) |
| **Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar 31 Ionawr** | **31,732** | **27,755** |

Mae newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun fel a ganlyn:

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Gwerth teg ar 1 Ionawr** | **31,685** | **30,493** |
| Incwm llog | 891 | 801 |
| Elw ar asedau'r cynllun sy'n fwy na'r incwm llog | 4,670 | (2,570) |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 544 | 2,929 |
| Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun | 216 | 273 |
| Buddion a dalwyd / costau gweinyddol a dalwyd | (461) | (241) |
| **Gwerth teg ar 31 Rhagfyr** | **37,545** | **31,685** |

Newid mewn gwarged adenilladwy ac elfennau o berfformiad y cynllun:

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Balans agoriadol** | **3,930** | **1,500** |
| Costau gwasanaeth cyfredol | (762) | (1,021) |
| Cwtogi'r cynllun pensiwn | 1,671 | – |
| Llog ar y gwarged | 107 | 33 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 544 | 2,929 |
| (Colled) / enillion actiwaraidd | 323 | 489 |
| **Balans cau** | **5,813** | **3,930** |

Symiau am y cyfnodau cyfredol a blaenorol:

| | 2019 | 2018 | 2017 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Elw ar asedau'r cynllun sy'n fwy na'r incwm llog | 4,670 | (2,570) | 2,195 | 2,421 |
| Profiad enillion / (colledion) ar rwymedigaethau'r cynllun | 32 | 2,638 | 212 | 76 |
| Newidiadau mewn tybiaethau am werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | (4,544) | 777 | (884) | (8,799) |
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig | (31,732) | (27,755) | (28,993) | (27,285) |
| Asedau'r cynllun | 37,545 | 31,685 | 30,493 | 26,674 |
| Gwarged | 5,813 | 3,930 | 1,500 | (611) |

Enillion asedau:

| | 2019 | 2018 | 2017 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Enillion asedau** | | | | |
| Swm | 4,670 | (2,570) | 2,195 | 2,421 |
| % o asedau'r cynllun | 12.4% | -8.70% | 7.2% | 9.1% |

Enillion profiad rhwymedigaethau:

| | 2019 | 2018 | 2017 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Enillion profiad rhwymedigaethau** | | | | |
| Swm | 32 | 2,638 | 212 | 76 |
| % o rwymedigaethau'r cynllun | 0.1% | 9.5% | 0.7% | 0.3% |

Tybiwyd bod rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn wedi eu heithrio o asedau lle mae'r blwydd-daliadau'n cyfateb i'r rhwymedigaethau.

Mae pawb ar bensiwn yn derbyn cynnydd sicr o 3% y.f. o dan delerau'r cynllun am wasanaeth hyd at 6 Ebrill 1997. Ar ôl hynny mae gwasanaeth yn cael ei drin yn unol â Deddf Pensiynau 1995. Mae unrhyw iawndal pellach am gynnydd mewn costau byw'n cael ei ystyried yn flynyddol.

Yn 2019 y cyfraniad blynyddol oedd £1,357,021 (2018: £1,381,077). Wedi'i gynnwys yn y cyfraniad blynyddol oedd cyfraniad o £777,671 (2018: £703,876) am drefniadau pensiwn y cyfraniadau diffiniedig ac ymddiriedolaeth meistr. Roedd y cynllun mewn gwarged ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r cynllun wedi'i gyfansoddi fel ymddiriedolaeth ac yn gyfreithiol ac ariannol ar wahân i'r cyflogwr. Mae gan yr ymddiriedolwyr gyfrifoldeb tuag at yr ymddiriedolaeth a ddisgrifir yn ei gweithred a'i rheolau. Yn fyr, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am:

- gweinyddu a rheoli'r cynllun i bwrpasau Deddf Cyllid 2004
- penodi neu ddiswyddo actiwari i bwrpas y cynllun, fel y gwêl yr ymddiriedolwyr yn briodol ac addas
- penodi neu ddiswyddo actiwari i bwrpas, ac yn unol â, Deddf Pensiynau 1995
- cyflwyno datganiadau ariannol a archwiliwyd, am bob blwyddyn o'r cynllun, i aelodau'r cynllun, buddiolwyr a phartïon penodol eraill
- cyflwyno gwybodaeth benodol arall am y cynllun ar ffurf adroddiad blynyddol a pharatoi a chynnal datganiad ysgrifenedig o'r egwyddorion buddsoddi
- cytuno gyda'r GDC ynghylch swm ac amseriad cyfraniadau'r aelodau a'r GDC a sicrhau eu bod yn cael eu talu.

Mae'r cynllun, fel y rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig eraill, yn wynebu nifer o risgiau gan gynnwys:

- y risg na fydd yr enillion ar yr asedau, o fuddsoddi, yn ddigon yn y dyfodol i ateb y pwrpas ariannol
- y risg y gallai chwyddiant fod yn wahanol i'r hyn a dybiwyd

- y risg na fydd gostyngiad yng ngwerth yr asedau'n cael ei gyfateb gan ostyngiad tebyg yng ngwerth y rhwymedigaethau, gan felly leihau lefel gyllido'r cynllun
- y risg y bydd newidiadau annisgwyl mewn marwolaethau yn y dyfodol, neu ffactorau eraill, yn cynyddu cost y buddion
- y risg na fydd y Cyngor efallai'n gallu talu cyfraniadau neu gywiro diffyg ariannol yn y dyfodol
- y risg ynglŷn â'r posibilrwydd bod (aelodau neu eraill) yn ymarfer opsiynau yn erbyn y cynllun
- y risg o newidiadau deddfwriaethol andwyol.

Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr.

Oherwydd y risgiau hyn, gallai unrhyw brofiad andwyol o ganlyniad iddynt olygu bod angen gwneud cyfraniadau ychwanegol yn y dyfodol.

Byddai union lefel y cyfraniadau a thros ba gyfnod y byddent yn cael eu gwasgaru'n dibynnu ar drafodaethau rhwng y Cyngor ac ymddiriedolwyr y cynllun, fel arfer yn dilyn prisiad tair-blynyddol.

Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar asesu rhwymedigaethau'r cynllun ar 31 Rhagfyr 2019. Cyfrifwyd yr ystyriaethau sensitifrwydd yn defnyddio'r un fethodoleg.

Mae'r rhain yn seiliedig ar ganlyniadau rhagarweiniol y prisiad actiwaraidd tair-blynyddol ffurfiol ar 1 Ebrill 2018, wedi eu rhagamcangyfrif drwy ganiatáu ar gyfer cronni buddion, yr enillion disgwyliedig o fuddsoddi, yr union gyfraniadau a llifau arian, a chwtogi'r cynllun, ac wedi eu haddasu i ganiatáu ar gyfer y tybiaethau IAS 19 a ddisgrifir uchod.

Amcangyfrif felly yw'r canlyniadau a'r ystyriaethau sensitifrwydd.

Pe cyfrifwyd rhwymedigaethau ac ystyriaethau sensitifrwydd ar 31 Rhagfyr 2019 ar sail yr union ddata aelodaeth ar y dyddiad hwnnw, gallai'r canlyniadau fod yn wahanol. Fodd bynnag, ni fyddem yn disgwyl gweld unrhyw wahaniaeth mawr.

Roedd gan y GDC hefyd gynllun cyfraniadau diffiniedig a gaeodd ym Mehefin 2019. Rhoddir mwy o wybodaeth am gynlluniau pensiwn y Cyngor yn yr Adroddiad Taliadau ar dudalen 42.

## 17 YMRWYMIADAU O DAN BRYDLESI

Wrth drosglwyddo i IFRS 16, mae asedau hawl defnyddio o £6.7m yn cael eu cydnabod ar brydlesi oedd yn flaenorol yn cael eu trin fel prydlesi gweithredol o dan IAS 17. Wrth fesur y rhwymedigaethau prydles hyn, rydym yn disgowntio gwerth presennol taliadau'r prydlesi yn y dyfodol drwy ddefnyddio'r gyfradd llog ymhlyg yn y brydles, os yw'r gyfradd ar gael, neu ein cyfradd fenthyca gynyddrannol (0.75%); sy'n unol â Chyfradd Sylfaenol Banc Lloegr. Dadansoddi aeddfedrwydd – llifau arian cytundebol di-ddisgownt:

| | 2019 |
|---|---|
| | £000 |
| **Tir ac adeiladau** | |
| Llai na blwyddyn | 273 |
| 1–5 mlynedd | 2,022 |
| Mwy na 5 mlynedd | 7,073 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau prydles di-ddisgownt ar 31 Rhagfyr** | **9,368** |
| **Rhwymedigaethau prydles wedi eu cynnwys yn y datganiad sefyllfa ariannol ar 31 Rhagfyr** | **6,698** |
| Cyfredol | 273 |
| Anghyfredol | 6,425 |

Symiau wedi eu cydnabod yn y datganiad incwm:

| | 2019 |
|---|---|
| | £000 |
| Llog ar rwymedigaethau prydles | 244 |

Symiau wedi eu cydnabod yn y datganiad llif arian

| | 2019 |
|---|---|
| | £000 |
| Talu rhwymedigaethau prydles | 118 |

Yn unol â pharagraff c8 o IFRS 16, dewisodd y GDC fabwysiadu IFRS 16 y tro cyntaf o'r 1 Ionawr 2019 ymlaen. O ganlyniad, nid ydym yn ailddatgan unrhyw ddatgeliadau cyfnodau blaenorol.

Datgelir costau dibrisio, ychwanegiadau a symiau cario sy'n gysylltiedig ag asedau hawl defnyddio yn nodyn 8, a datgelir y costau llog sy'n deillio o'r rhwymedigaethau prydles yn nodyn 6 i'r cyfrifon hyn.

Rhoddir mwy o wybodaeth am brydlesi yn nodyn 1.10 i'r cyfrifon hyn.

## 18 YMRWYMIADAU CYFALAF

Nid oes gan y GDC unrhyw ymrwymiadau cyfalaf cytundebol na chawsant eu cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn ar 31 Rhagfyr 2019 (2018: nid oedd gan y GDC unrhyw ymrwymiadau cyfalaf cytundebol na chawsant eu cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn ar 31 Rhagfyr 2018).

## 19 TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Nid oedd unrhyw drafodion partïon cysylltiedig am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019, heblaw'r ffioedd a'r costau a dalwyd i aelodau'r Cyngor a ddatgelir yn nodyn 5 i'r cyfrifon. Rhoddir manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol o'r Cyngor yn yr Adroddiad Taliadau ar dudalen 40. (2018: Nid oedd unrhyw drafodion partïon cysylltiedig am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018, heblaw'r ffioedd a'r costau a dalwyd i aelodau'r Cyngor a ddatgelir yn nodyn 5 i'r cyfrifon).

## 20 RHWYMEDIGAETHAU WRTH GEFN

Nid oes gan y GDC unrhyw rwymedigaethau wrth gefn ar 31 Rhagfyr 2019 (2018: nid oedd unrhyw rwymedigaethau wrth gefn ar 31 Rhagfyr 2018).

## 21 DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2019 oedd bod nifer fach o achosion o feirws anhysbys wedi eu hadrodd i Sefydliad Iechyd y Byd. Nid oedd bryd hynny unrhyw dystiolaeth o drosglwyddo'r feirws o berson i berson, felly mae'r effaith o ganlyniad o ran colledion i'n buddsoddiadau ariannol a chyllid ein cynllun pensiwn yn ddigwyddiad di-addasu.

Ar 11 Mai 2020, roedd effaith COVID-19 ar y marchnadoedd arian wedi achosi amhariad o £1.5m i'n hasedau buddsoddi.

Dengys y wybodaeth ddiweddaraf gan Ymddiriedolwr y Cynllun Pensiwn ar 30 Ebrill 2020 fod effaith COVID-19 ar y marchnadoedd ariannol wedi achosi amhariad o £0.9m i asedau ein cronfa bensiwn. Mae'r Ymddiriedolwr yn cynghori nad yw'n argymell unrhyw gynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr cyn yr asesiad tair-blynyddol nesaf yn Ebrill 2022.

Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu (Prif Weithredwr a Chofrestrydd) gyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

# 14 Cynghorwyr

## Bancwyr

**Lloyds Banking Group**
Corporate Markets
33 Old Board Street
London, EC2N 1HZ

**National Westminster Bank PLC**
7th Floor
280 Bishopsgate
London, EC2M 4RB

## Buddsoddiadau

**Smith & Williamson Investment Services Limited**
25 Moorgate
London, EC2R 6AY

## Cyfreithiol

**Capsticks Solicitors LLP**
1 St George's House East
St George's Road
Wimbledon
London, SW19 4DR

**Blake Morgan LLP**
6 New Street Square
London, EC4A 3DJ

**Mills and Reeve LLP**
Botanic House
100 Hills Road
Cambridge, CB2 1PH

## Archwilwyr Allanol

**haysmacintyre**
10 Queen Street Place
London, EC4R 1AG

**Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
London, SW1W 9SP

## Archwilwyr Mewnol

**Mazars LLP**
Tower Bridge House
St Katherine's Way
London, E1W 1DD

## Actiwari a'r Cynllun Pensiwn

**Lane, Clarke & Peacock LLP**
95 Wigmore Street
London, W1U 1DQ

# 15 Atodiad

## a) Dyfarniad ar y Cyfrifon

### Y Dyfarniad ar y Cyfrifon gan y Cyfrin Gyngor o dan adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984.

Mae'r Arglwyddi'n dyfarnu fel a ganlyn wrth ymarfer eu pwerau o dan adran 2C(1) o Ddeddf Deintyddion 1984.

Mae'r dyfarniad hwn mewn grym o 16 Mai 2016 ymlaen:

### Dehongliad

Yn y dyfarniad hwn –

Mae "y cyfrifon" yn golygu'r datganiad cyfrifon y mae gan y Cyngor ddyletswydd i'w paratoi o dan adran 2C(1)(b) o Ddeddf Deintyddion 1984.

Mae "y Cyngor" yn golygu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae "y FReM" yn golygu'r argraffiad o Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddir gan Drysorlys EM sydd mewn grym am y flwyddyn galendr berthnasol.

### Dyfarniad

Rhaid i'r Cyngor baratoi cyfrifon am bob blwyddyn galendr. Wrth baratoi ei gyfrifon dylai'r GDC ystyried datgeliadau ac egwyddorion cyfrifyddu'r FReM.

Rhaid paratoi'r cyfrifon er mwyn:

- rhoi darlun gwir a theg o'r busnes ar ddiwedd y flwyddyn ac o incwm a gwariant, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, ac o lif arian y GDC am y flwyddyn galendr a ddaeth i ben
- datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol na wariwyd ar y pwrpasau y cawsant eu bwriadu ar eu cyfer gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad oedd yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Bydd y dyfarniad hwn yn cael ei atgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon a gyhoeddir.

Mae'r Dyfarniad ar y Cyfrifon a wnaed ar 22 Rhagfyr 2015 yn cael ei ddiddymu drwy hyn.

ISBN: 978-1-5286-1972-1
CCS0420440020 06/20

General
Dental
Council

Gwiriwch fod eich gweithiwr deintyddol yn gofrestredig: www.gdc-uk.org

Rydym eisiau sicrhau bod ein gwasanaethau i gyd ar gael i bawb.

Os hoffech gopi o'r adroddiad hwn mewn iaith neu fformat gwahanol (er enghraifft mewn print bras neu ar dâp sain), cofiwch gysylltu.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan.

**Y CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL**
37 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ
020 7167 6000
information@gdc-uk.org
www.gdc-uk.org

ISBN: 978-1-5286-1972-1
CCS: CCS0420440020 06/20